

CLONC

www.clonc.co.uk - Yn aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion

ISSN 1753-1071



Rhifyn 340 - 60c
Chwefror 2016

Papur Bro ardal plwyfi: Cellan, Llanbedr Pont Steffan, Llanbedr Wledig, Llanfair Clydogau, Llangybi, Llanllwni, Llanwenog, Llanwnnen, Llanybydder, Llanycrwys ac Uwch Gaeo a Phencarreg

**Merched
dawnus yn
mwynhau**



Tudalen 10

**Cadwyn
Cyfrinachau
arall**



Tudalen 28

**Arian
sylweddol
wedi ei godi**



Tudalen 31

Llwyddiannau'r Fro




Cafodd dau aelod blaenllaw a gwerthfawr o Glwb Rhedeg Sarn Helen, sef Lyn Rees a Dawn Kenwright, eu anrhydeddu gyda gwobr wrth "Athletau Cymru" am eu gwasanaeth i athletau. Mae'r ddau wedi rhoi blynyddoedd o wasanaeth i Sarn Helen. Mwy o'u hanes ar dudalen 14.



Aelodau Clwb Llanllwni yn cyflwyno cyfanswm o £3,407.74 i achosion da ar ddechrau'r flwyddyn.

**Pen-blwydd Hapus
i CLONC yn 34 oed**



Ar ddiwedd diwrnod o gystadlu brwd enillwyd y darian yng Nghystadleuaeth Siarad Cyhoeddus Cymraeg C.F.F.I. Ceredigion am y marciau uchaf gan aelodau Clwb Llanwenog.



**ARWYN VOBÉ
ACCOUNTANCY LTD.**

ACCA

CYFRIFYDD SIARTREDIG

Maesowen,
Rhydowen,
Llandysul,
Ceredigion.
SA44 4PY

- ❖ Cyfrifon Blynnyddol ac Interim
- ❖ Ffurflenni Treth Personol ac i Gwmnïau
- ❖ Cadw Llyfrau gan gynnwys Ffurflenni TAW
- ❖ Cyflogau a CIS
- ❖ Cyngor Cyffredinol i Fusnesau ac Unigolion

Gwasanaeth effeithlon prydlon gyda gwên gyfeillgar!

**Ffoniwch ni ar
07557 448234
neu**

ebost arwyn@avaccountancy.cymru

LAS

Recycling Ltd



**Gwasanaeth Casglu
Gwastraff Masnach**

Am wasnaeth cost effeithiol
a dibynadwy ar gyfer eich
holl anghenion gwastraff

Ffordd Tregaron, Llambed, Ceredigion, SA48 8LT

**Gwasanaeth biniau ar olwynion
(1100L, 660L a 240L)**



01570 421421



www.facebook.com/clonc360



[@Clonc360](https://twitter.com/Clonc360)

Rhannwch eich newyddion lleol gyda Phapur Bro Clonc.



Aildrydarodd
[@Clonc360](https://twitter.com/Clonc360) neges
[@Craffwr](https://twitter.com/Craffwr)
Ionawr 18

Seiat Holi diddorol
yng Nghymdeithas
Ddiwylliadol Bethel
Parcyrhos heno.

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd
[@Clonc360](https://twitter.com/Clonc360) neges
[@AnwenButten](https://twitter.com/AnwenButten)
Ionawr 17

Mynd am dro heddi,
trist gweld dirywiad
Plasty Ffynnonbedr
[#Llanbed](https://twitter.com/Llanbed)

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Trydarodd
[@Clonc360](https://twitter.com/Clonc360)
Ionawr 16

Tim leuenctid
[@LampeterTownRFC](https://twitter.com/LampeterTownRFC)
ar y blaen yn erbyn
[@CarmQuinsRFC](https://twitter.com/CarmQuinsRFC)

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd
[@Clonc360](https://twitter.com/Clonc360) neges
[@CeredigionYFC](https://twitter.com/CeredigionYFC)
Ionawr 11

Llund lle o aelodau
yn cymryd rhan yng
Nghwis y Sir heno!
Joio!

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd
[@Clonc360](https://twitter.com/Clonc360) neges
[@CFfiCwmann](https://twitter.com/CFfiCwmann)
Ionawr 7

Pawb yn mwynhau
gemau [@gwawr_bowen](https://twitter.com/gwawr_bowen)
yn ein Parti Nadolig
nos Sadwrn diwethaf.

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd
[@Clonc360](https://twitter.com/Clonc360) neges
[@EnfysHatcher](https://twitter.com/EnfysHatcher)
Rhagfyr 21

Diolch
[@SantaCymraeg](https://twitter.com/SantaCymraeg)
am alw yn Festri
Brynhafod ddoe.

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu

Pwy yw pwy?

Beth yw beth?

Golygydd:

Chwefror Siwan Davies, Llanbedd 07816115330
Mawrth Elaine Davies, Penynant, Llanwnnen 480526
e-bost: golygydd@clonc.co.uk

Tim Golygyddol Elaine Davies, Siwan Davies, Dylan Lewis,
Marian Morgan a Delyth Morgans Phillips

Dylunydd y mis Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015
Swyddog Dosbarthu Eifion Davies, Afallon, Drefach 480590
e-bost: bedwyr@btopenworld.com
Teipydd Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015

Gohebwy'r Lleol:

Cellan Alwen Edwards, Awel Teifi 421001
Cwmann Gwyneth Morgan, Llety'r Dderwen 422922
Cwmsychbant Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015
Llanwenog/Drefach Mary Davies neu Eifion Davies
Ffaldybrenin/Ffarmers Elfyn Davies, Troed y bryn, Ffarmers 01558 650507
Gorsgoch Eiddwen Hatcher, Tafarn Cefnhafod 434238
Llambled Janet Evans, Haulfryn 422856
Llanfair Dan ac Aerwen Griffiths, Pengarn 493407
Llangybi a Betws Mair Spate, Tŷ Capel Maesyffynon 493325
Llanllwni Dewi Davies, Glanafon 480218
Llanwnnen Elin Thomas, 1 Teras Sycamor 480239
Llanybydder Menna Jones, Ceginau Lifestyle 480257
Pencarreg Lynda Thomas, Dolgwm Uchaf 422270

Bwrdd Busnes:

Cadeirydd Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann 422349
e-bost: cadeirydd@clonc.co.uk
Is-Gadeirydd Marian Morgan, Rhyd-y-felin, Drefach 481855
Ysgrifenyddes Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015
Trysorydd Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015
e-bost: ysgrifennydd@clonc.co.uk

Ffotograffydd Tim Jones, Llainwen, Llambled 422644
Argraffwyr Gwasg Aeron, Aberaeron 01545 570573

- Mae Clonc yn aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion.
- Gwerthfawrogi gwaith pob gwirfoddolwr a sicrhodd ymddangosiad y rhifyn hwn o Clonc. Os hoffai eraill ymuno â'r tîm, cysylltwch ag aelod o'r bwrdd busnes.
- Y mae pawb sy'n ymwneud â Phapur Bro Clonc yn gwneud hynny'n wirfoddol ac yn ddi-dâl er budd y gymuned leol. Nhw fel unigolion sy'n derbyn pob risg a chyfrifoldeb (cyfreithiol ac fel arall) gan dderbyn mai ar y telerau hynny y maent yn cyfrannu at y papur a'i ddosbarthiad.
- Sicrhewch newyddion eich ardal chi yn Clonc. Peidiwch â meddwl y bydd rhywun arall yn gwneud. Mae'n rhy hwy i feio neb os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn Clonc.
- Ewch â'ch newyddion at eich gohebydd lleol, neu e-bostio golygydd@clonc.co.uk
- Gallwch adael newyddion a lluniau yn Crown Stores, Y Stryd Fawr, Llanbedr Pont Steffan.
- E-bostiwch eich eitemau ar gyfer y dyddiadur i ysgrifennydd@clonc.co.uk
- Defnyddiwch luniau o gamera cyffredin lliw, a du a gwyn. Ni fyddwn yn dychwelyd lluniau os na fyddwch wedi gwneud cais am hyn ar gefn y llun. Croesawn luniau digidol ar CD, cofbin USB, ac e-bost cadeirydd@clonc.co.uk
- Sicrhewch fod gennych ganiatad rhieni cyn tynnu lluniau plant i'w cynnwys yn Clonc. Rhoddir rhifynnau Clonc ar y wefan maes o law.
- Gofynnwn am dâl o £5.00 am roi "Diolch" yn y papur. Gellir tanysgrifio i Clonc am £17.50.
- Nid yw'r golygydd o reidrydd yn cytuno ag unrhyw farn yn y papur hwn.

Siprys

Grym geiriau

Pan fo gwleidydd neu lywodraeth yn gwneud tro pedol – yn newid meddwl ac yn newid penderfyniad – gall un o ddau beth ddigwydd: bydd pobol naill ai yn clodfori ac yn diolch, tra bod eraill yn feirniadol nad yw'r penderfyniad gwreiddiol wedi'i wneud ar seiliau digon cadarn yn y lle cyntaf.

Roedd Ken Skates, Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth Llywodraeth Cymru (sy'n glamp o deit!) yn dipyn o arwr yn y byd Cymraeg a Chymreig fis Ionawr eleni, wedi iddo fe wneud tro pedol.

Daeth y penderfyniad ychydig cyn y Nadolig i gwtogi 10.6% o gyllideb Cyngor Llyfrau Cymru ar gyfer y flwyddyn nesaf, a doedd y penderfyniad hwnnw ddim yn boblogaidd ymhlith carwyr llên a diwylliant ein cenedl. Gyda'n agos i fil yn cael eu cyflogi yn y diwydiant llyfrau – naill ai fel awduron, golygyddion, dylunwyr, cyhoeddwy, llyfrwerthwyr – byddai'r effaith wedi bod yn syfrdanol ar swyddi.

Ond nid brwydr am swyddi'n unig oedd y frwydr i ymladd yn erbyn penderfyniad llym Ken Skates a'i lywodraeth. Yn hytrach, mae darllen yn elfennol bwysig i fydd addysg a datblygiad plentyn. Mae darllen yn sgil, yn hobi, yn hanfodol i'r rhan fwyaf o swyddi. Mae darllen yn y Gymraeg yn rhywbeth y dylem ni i gyd ei gefnogi a'i drysori. Rydych chi'n darllen papur bro Cymraeg nawr – a heb glochdar ein papur ni'n hunain, gobeithio bod pawb sydd ynghlwm wrth Clonc yn gweld budd o'i baratoi, a'ch bod chithau'n mwynhau ffrwyth llafur tîm niferus o wirfoddolwyr lleol.

Ydi, mae darllen ac ysgrifennu a'r byd llyfrau yn bwysig i ni fel cenedl. Ond mae'r diwydiant dur yn bwysig i Bort Talbot, fel y mae'r diwydiant amaeth yn bwysig i'n cefn gwlad – byddai'n braf petai gan bawb yr un ddawn i fynegi'u siom a'u hargyhoeddiad, a'r un ddawn i berswadio, ag oedd gan yr awduron a'r cyhoeddwy aeth i'r Senedd ar yr 20fed o Ionawr eleni. Wedi'r cwbl, dawn defnyddio geiriau oedd gan y rhain, a gwyn eu byd.

Cloncen

O'r Cynulliad gan Elin Jones AC



Ar ddechrau'r flwyddyn newydd mae nifer o bynciau pwysig o fewn yr etholaeth wedi bod yn hawlio sylw. O ran y Gwasanaeth Iechyd, da oedd cael cadarnhad uniongyrchol o enau'r Gweinidog ei fod wedi clustnodi yn derfynol £4.8 miliwn o wariant cyfalaf ar gynlluniau adeiladu newydd yng Ngheredigion eleni. Bydd £3 miliwn o'r cyllid yn dod i Aberteifi. Byddai'n dda gen i petai gwelyau yn cael eu cynnwys yn y cynllun, ond mae'n hen bryd i roi cychwyn ar yr adeilad newydd, a bydd y cyhoeddiad yma yn caniatáu i hynny ddigwydd. Bydd yr £1.8 miliwn arall yn dod i brosiect Cylch Caron. Gall y cynllun gofâl integredig hwn yn Nhregaron fod yn arloesol, trwy sicrhau cydweithio agos rhwng y Bwrdd Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol y cyngor sir, y trydydd sector, ac eraill.

Cefais gyfarfod hefyd gyda phennaeth newydd BT yng Nghymru, i drafod arafwch y cynnydd o ran argaeledd band llydan cyflym iawn. Mae'n siom fod y cynllun Superfast ond wedi cyrraedd tua 52% o gartrefi yng Ngheredigion hyd yn hyn, a chodais faterion ar ran sawl cymuned. Mae'r arafwch wedi dod yn sgil yr angen i ddarparu cyswllt gwifrau ffibr yn uniongyrchol i'r eiddo mewn nifer o ardaloedd. Cefais addewid y bydd 11,000 o gartrefi Ceredigion yn derbyn cyswllt yn y modd yma, y bydd yn y diwedd yn darparu gwasanaeth cyflymach a mwy dibynadwy. Yr amcan yw y gwelwn dipyn o gynnydd yn ail hanner eleni a dechrau flwyddyn nesa, gyda dros 90% o'r sir yn derbyn cyswllt. Buais hefyd yn gweithio gydag unigolion a busnesau yn Pentrebach i ddwyn pwysau ar BT i drwsio y llinell ffôn yn dilyn damwain cyn y Nadolig. Bu'r gwasanaeth bant am ry hir a fe roddwyd lot o bwysau ar BT i gyflymu'r trwsio. Mae hyn oll yn dangos pa mor ddibynol yw unigolion a busnesau bellach ar linell ffôn a chysylltiad bandllydan.

Ar hyn o bryd yn y Cynulliad, mae cryn drafod am y gyllideb. Roedd tipyn o newyddion gwael yn y gyllideb ddrafft - y toriad i brifysgolion, i'r grantiau i gefnogi argraffu, ac i lywodraeth leol. Gobeithio y cawn ddatrasiad sy'n deg i awdurdodau lleol mewn ardaloedd gwledig. Mae cynghorau fel Ceredigion wedi gorfod ymdopi gyda'r toriadau mwyaf ers sawl blwyddyn bellach, a rhaid rhoi peirianwaith mewn lle sy'n amddiffyn cefn gwlad. Rhaid hefyd ystyried rôl hanfodol ein prifysgolion, a'r rhan bwysig sydd gan y diwydiant cyhoeddi o fewn ein ardal.

Bechgyn Cymru y dyfodol?



Cafodd dau fachgen ifanc lleol ddiwrnod bythgofiadwy wrth iddynt deithio i Arsenal i chwarae dros garfan dan 7 Abertawe yn ddiweddar.

Mae Hari Jones o Ysgol Carreg Hirfaen a Dion Deacon Jones o Ysgol Bro Pedr wedi bod yn rhan o'r garfan ers blwyddyn bellach ac yn teithio i Abertawe ddwy waith yr wythnos i dderbyn hyfforddiant.

Chwaraeodd Hari a Dion yn wych yn erbyn carfan gref Arsenal. Collwyd 3 gêm, ennill 1 a 3 gêm gyfartal. Roedd yn amser newid a mynd ar y bws i gwrdd â'u rhieni nôl yn Abertawe.

Diwrnod hir iawn ond un bythgofiadwy i Hari a Dion. Taith i Chelsea sydd nesaf. Diolch i Paul Jones, tad Hari am hyfforddi'r ddau

Ariennir yn rhannol gan
Lywodraeth Cymru

TEIARS
HUW LEWIS
TYRES

HUWLEWISTYRES.COM
LLANBEDR PONT STEFFAN
01570 422221

Weldio D & W Welding

01570481153 / 07915543623

Caerwenog,
Penffordd,
Llanybydder,
Ceredigion,
SA40 9XG

**Darparu gatiâu a rheiliau
haearn ac hefyd eich holl
waith weldio ac atgyweirio**

Mwnci ffwnci

Brodweithio
a Phrintio Dillad.
Darparu
Dillad Gwaith
a Hamdden.

**Sioned Green
a Mared Jones**
Nantgwyn,
Heol Llanfair
Llambod
01570 423135
07811917799 /
07968821035
mwnciffwnci@hotmail.com

**Gwasanaethau Coed
Teifi
Tree Services**



Pob math o waith ar goed
Torri cloddiau * Plygu cloddiau
Wedi yswirio'n llawn
Dyfnbris am ddim
Coed tân ar werth
Lyn Davies
01239 851001 / 07796 682448

Sefydlwyd 1797

D. Lloyd a'i Feibion
Glanrwyth, Pumsaint,
Ffôn: 01558 650209 a 650451,
Ffacs: 01558 650440

**Masnachwyr coed
a nwyddau adeiladu
a ffensio o bob math
Glo caled a glo meddal
o'r ansawdd gorau**

Dyddiadur

ysgrifennydd@clonc.co.uk



CHWEFROR

- 5 Cymorth Cristnogol yn paratoi cinio yn Neuadd Eglwys San Pedr, Llambod er budd y Trydydd Byd.
- 15 – 19 Cystadleuaeth Drama C.Ff.I. Ceredigion yn Theatr Felinfach.
- 19 Sefydliad Prydeinig y Galon Cangen Llanybydder a Llambod - Noson gyda Bois y Frenni yng ngholeg y Drindod Dewi Sant. Swper Ysgafn. Tocyn £15. Llywydd y Noson: Mr Gary Rees, Llanybydder am 7.30.
- 20 Gŵyl Gwrw a Seidr Llambod, 12y.p. – 11y.h., Neuadd y Celfyddydau, campws Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, Llambod. Trefnir gan Ford Gron Llambod.
- 21 Llewelyn Jones, y telynor o Felinfach, yn perfformio yng Nghlwb Cerdd Llanbedd ym Mhrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, Llambod.
- 22 Cyngerdd Drama C.Ff.I. Ceredigion yn Theatr Felinfach.
- 22 Derbyn Newyddion CLONC.
- 23 Cyfarfod Aelwyd yr Urdd Llambod am 7.00y.h.
- 24 Noson yng nghwmni Helen Howells, Tŷ Cam, Llanwenog yn siarad am ei gwaith gyda Cyfoeth Naturiol Cymru ac am fannau o ddiddordeb i ymweld a hwy yn Ward Llanwenog am 8y.h. yn Cefnhafod Gorsgoch. Trefnir gan Gynghrair Ward Llanwenog ac mae croeso cynnes i bawb.
- 26 Gŵyl Offerynnol yr Urdd yn Theatr Felinfach.
- 28 Clwb Hwyl Ysgol Llanllwni yn cynnal Parti Dydd Gwyl Ddewi, Neuadd yr Eglwys 2-4y.p. Mynediad £1 i bawb. Dewch yn llw.
- 26 Cyngerdd Dramâu C.Ff.I. Llanwenog yn Neuadd yr Hafod.
- 28 Oedfa Deuluol yn Noddfa Llambod am 5.00y.p.

MAWRTH

- 1 Eisteddfod Ysgol Carreg Hirfaen yn Neuadd Coedmor, yr ysgol newydd. Croeso cynnes i chi ymuno wrth ddathlu dydd Gŵyl Dewi.
- 1 Cyngerdd yng nghwmni aelodau C.Ff.I Llanllwni yn neuadd Llanfihangel-yr-Arth am 7.30y.h. Eitemau gan aelodau'r clwb. Tocynnau wrth y drws. Croeso i bawb.
- 2 Eisteddfod yr Urdd [Cynradd ac Uwchradd] Cylch Aeron yn Theatr Felinfach.
- 2 Plygu CLONC yn Festri Shiloh am 4.00y.p. Dewch i helpu eich Papur Bro.
- 3 Eisteddfod yr Urdd [Cynradd ac Uwchradd] Cylch Llambod yn Ysgol Bro Pedr.
- 4 Dawns Dewis Swyddogion C.Ff.I. Ceredigion.
- 4 Cwrdd Gweddi byd-eang y Chwirydd yn Noddfa Llambod am 2.00y.p.
- 5 Noson Dathlu Dydd Gŵyl Dewi yn Neuadd yr Hafod, Gorsgoch am 7y.h. Ticedi £20.
- 7 Noson o Ddramâu yn Theatr Felinfach gan Bwyllgor Eisteddfod Rhys Thomas James, Pantyfedwen.
- 8-9 Drama Gerdd Gyfoes 'Cysgu'n Brysur' yng Nghanolfan y Celfyddydau, Aberystwyth am 7.30y.h. Rhif ffôn y swyddfa docynnau 01970 623232.
- 10 Ysgol Eglwys Llanllwni yn cynnal Noson Goffi yn Neuadd yr Eglwys, gyda plant yr ysgol yn cymryd rhan, 7y.h. Mynediad £3 oedolion, plant cynradd am ddim. Dewch yn llw.
- 11 Clwb Hwyl Ysgol Llanllwni yn cynnal Noson o Ganu gyda Clive Edwards yng Nghlwb Rygbi Llanybydder, i ddechrau am 8y.h. Mynediad trwy docyn yn unig - cysylltwch a Ffion Williams ar 07450 979360, neu'r ysgol. Tocynnau £7.
- 11 Eisteddfod Rhanbarth Uwchradd ym Mhafiliwn Bont.
- 12 Eisteddfod Rhanbarth Cynradd ym Mhafiliwn Bont.
- 14 Eisteddfod Rhanbarth Aelwydydd yn Ysgol Gymraeg Aberystwyth.
- 17 Darlith Goffa Tucker 2016 yn Narlithfa Tucker, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, ar gampws Llambod am 7y.h. Y darlithydd gwadd yw'r Athro Mererid Hopwood a bydd yn traddodi ar y testun: "Fuo ch chi yng Nghwm Alltcafan?" T Llew Jones: Bardd y Plant Bach a'r Plant Mawr'. Lluniaeth i ddilyn a chroeso cynnes i bawb.
- 21 Bingo Pasg yn Nhafarn y Talardd am 8y.h. Gwobrau ariannol i'w ennill a bydd lluniaeth ar y noson. Bydd elw y noson yn mynd tuag at y Cylch Meithrin a Ti a Fi Llanllwni. Croeso cynnes i bawb!
- 23 Hazel Thomas, Penpompren, Drefach yn siarad am gywain hanes teulu a phentref Drefach am 8y.h. yn Cefnhafod Gorsgoch. Trefnir gan Gynghrair Ward Llanwenog. Croeso i bawb.
- 24 Sioe Ffasiynau dillad Lan Lofft a W D Lewis a'i Fab yn Neuadd Ysgol Bro Pedr. Elw tuag at daith yr Urdd i Batagonia.
- 28 Derbyn Newyddion CLONC.
- 30 Eisteddfod Capel y Groes, Llanwnnen am 1.30y.p.

Ebrill

- 3 Rihysal yr Undodiaid yng Nghapel Pantydefaid, Prengwyn. Plant ac Ieuenctid am 4.00y.p. ac Oedolion am 5.00y.h.
- 6 Plygu CLONC yn Festri Shiloh am 4.00y.p. Dewch i helpu eich Papur Bro.
- 9 Diwrnod yn neuadd Gorsgoch i sganio hen luniau i'w rhoi ar gof a chadw mewn ffordd ddigidol o 10y.b. tan 3y.p. Mae croeso i unrhyw un i ddod a lluniau ar y dydd. Trefnir gan Gynghrair Ward Llanwenog.
- 10 Rihysal yr Undodiaid yng Nghapel Pantydefaid, Prengwyn. Plant ac Ieuenctid am 4.00y.p. ac Oedolion am 5.00y.h.
- 17 Rihysal yr Undodiaid yng Nghapel Ciliau Aeron. Plant ac Ieuenctid am 4.00y.p. ac Oedolion am 5.00y.h.
- 24 Cymanfa Ganu yr Undodiaid yng Nghapel Ciliau Aeron. Plant ac Ieuenctid am 2.00y.p. ac Oedolion am 5.30y.h.
- 25 Derbyn Newyddion CLONC.
- 27 Mary Thomas, Ffosffald yn siarad am hanes Eglwys a WI Llanwenog am 8.00y.h. yn Cefnhafod, Gorsgoch. Trefnir gan Gynghrair Ward Llanwenog. Croeso i bawb.

MAI

- 4 Plygu CLONC yn Festri Shiloh am 4.00y.p. Dewch i helpu eich Papur Bro.
- 7 Eisteddfod Gadeiriol Capel y Fadfa, Talgarreg. Cystadleuaeth Newydd Côr. Gwobrau hael. Emyr 01545 590383 neu Enfys 01545 590295 am fanylion pellach.

Llanllwni

C.Ff.I. Llanllwni

Blwyddyn newydd dda i chi gyd – gobeithio eich bod wedi mwynhau dros y ‘dolig a’r flwyddyn newydd.

Wel, am fis prysur arall! Ar ôl wythnosau caled o ymarfer ar gyfer yr Eisteddfod Sir, braf oedd gweld dwy eitem o’r clwb yn perfformio ar lwyfan cenedlaethol yn Eisteddfod C.Ff.I Cymru ar yr 21ain o Dachwedd, sef y parti llefaru, sef Luned Jones, Betsan Jones, Mared Phillips, Sioned Howells, Cathrin Jones, Meryl Davies a Sioned Bowen, ac hefyd Sioned Howells yn y llefaru unigol 16 neu iau. Hefyd, aeth ymgais Luned ymlaen i geisio am y gadair, ynghyd ag eitem allan o lechen Meryl yn y gwaith cartref. Braf clywed fod llechen Meryl wedi dod yn ail. Llongyfarchiadau mawr i ti. Ar ôl diwrnod prysur o gystadlu, braf oedd clywed mae Sir Gar oedd y Sir buddugol!

Daeth llwyddiant i’r clwb hefyd yn cystadlaethau Siarad Cyhoeddus a Darllen Saesneg. Fe ddaeth y tîm adran iau, a oedd yn cynnwys Sioned Howells fel cadeirydd, Mared Phillips fel siaradwraig a Siriol Howells fel diolchydd yn fuddugol, a daeth Sioned i’r brig fel cadeirydd, a fydd yn mynd ymlaen fel rhan o dîm Sir Gâr i gystadlaethau Siarad Cyhoeddus Saesneg Cymru. Cystadlodd Mared a Siriol yn y gystadlaethau darllen hefyd, a cafodd Siriol ei dewis i fynd ymlaen i lefel Cymru. Llongyfarchiadau i chi eich tair ar eich llwyddiant a phob lwc i Sioned, Siriol a thimau Sir Gar yn Llanellwedd ar lefel Cymru.

Sypreis hyfryd oedd yn disgwyl aelodau’r clwb a oedd yn bresennol yng nghyfarfod blynyddol gyffredinol y Sir ar ddiwedd y mis. Derbynniodd Carwyn, ein cadeirydd, gwpan ar ran aelodau’r clwb am ddod yn fuddugol yn holl gystadlaethau siarad cyhoeddus Cymraeg a Saesneg am y flwyddyn.

Hoffwn longyfarch Ifor Jones am ennill cystadlaethau Barnau Carcas dan 21 y Sir, a da iawn ti am gynrychioli’r sir yn y Ffair Aeaf.

Bu rhai o aelodau’r clwb allan o amgylch yr ardal dros adeg y ‘dolig yn canu carolau. Rhannwyd yr elw eleni rhwng y clwb ac apel y Sioe Frenhinol (Sir Gâr) fel Sir Nawdd 2017. Codwyd cyfanswm o £1,079.86. Hoffwn ddiolch i’r gymuned am fod mor hael eleni eto, ac am y bisgedi, siocledi a phethau neis arall a gawsom ar ein taith yn canu! Diolch i chi gyd. Cyflwynwyd yr arian yma yn ein noson o gyflwyno sieciau yn ddiweddar, ynghyd ac elw’r sioe a’r cwrdd diolchgarwch. Cyflwynwyd cyfanswm o £3407.84. Roedd elw’r sioe eleni yn mynd i ‘League of Friends’ Ysbyty Bronglais, Aberystwyth, gan i berthynas un o’r aelodau dderbyn gofal yno yn dilyn

damwain. Trosglwyddwyd arian y canu carolau i Meryl, ein trysorydd ar ran y clwb, ac i Gwynfor Richards a Colin Douch ar ran apel Sir Gâr. Diolch iddynt am eu presenoldeb ac i Gwynfor Richards am ei eiriau pwrpasol. Fe aeth arian casgliad y Cwrdd Diolchgarwch i’r clwb, sef £82. Diolch i chi gyd am eich haelioni a’ch cefnogaeth fel arfer.

Mis i fewn i 2016, ac mae’r clwb wedi derbyn cwpan yn barod! Yn niwrnod cystadlaethau Siarad Cyhoeddus a darllen Cymraeg, fe ddaeth cwpan y darllen yn ôl i Llanllwni am y pumed flwyddyn o’r bron! Camp a hanner sydd yn dipyn o record diolch i Nerys Jones, Mared Phillips a Siriol Howells. Diolch hefyd i Marina Davies am ddysgu’r tîm yn drwyadl – tipyn o record iddi hi hefyd fel hyfforddwraig flynyddol y darllen! Llongyfarchiadau i Siriol a Mared am gael eu dewis i fod yn nhîm Sir Gâr a fydd yn mynd ymlaen i gystadlaethau darllen Cymru yn Llanellwedd ar ddechrau mis Ebrill, ac i Nerys am fod yn eilydd. Daeth tîm Adran Iau y Siarad Cyhoeddus a oedd yn cynnwys Sioned Howells fel cadeirydd, Mared Phillips yn siaradwraig a Siriol Howells fel diolchydd yn drydydd. Mae Sioned wedi cael ei dewis fel eilydd ar lefel Cymru. Fe wnaeth Sioned Bowen, Jac Jones ac Alwyn Evans hefyd gystadlu yn yr Adran Iau, ynghyd a Carwyn Lewis, Ifor Jones, Betsan Jones ac Owain Davies yn yr Adran Ganol. Llongyfarchiadau i chi gyd ac rwy’n siwr eich bod chi gyd wedi elw o’r gystadlaethau. Diolch i Eileen Davies am hyfforddi’r Adran Iau ac i Menna Evans am hyfforddi’r Adran Ganol.

Erbyn hyn mae criw o’r aelodau yn brysur yn ymarfer ar gyfer cystadlaethau y Ddrama a fydd yn cael ei gynnal yn Neuadd San Pedr yn ystod wythnos hanner tymor mis Chwefror. Bydd cyfle i weld y Ddrama mewn cyngerdd a fyddwn yn cynnal yn Neuadd Llanfihangel-Ar-Arth ar nos Fawrth, y 1af o Fawrth, am 7.30y.h. Rhowch y dyddiad yn eich dyddiaduron a welwn ni chi ‘na!

Merch fach

Llongyfarchiadau i Rhian a James, Erw-Deg, Maesycrugiau ar enedigaeth merch fach ar y 13eg o Ionawr - chwaer fach i Osian Ifan, wyres i Alan a Jane Powell, Gwarcwm ac wyres arall i Alan ac Ann, Hendy.

Ysgol Llanllwni

Cynhaliwyd Ffair Nadolig llwyddiannus yn yr ysgol cyn y Nadolig. Roedd nifer o stondinau wedi dod a diolch i bawb a wnaeth gefnogi. Diolch i Mrs. Wendy Smith, llywydd y dydd a chyn athrawes yn yr ysgol, am ei rhodd hael ac am ei



Sioned Howells, Mared Phillips a Siriol Howells yn fuddugol yng nghystadlaethau Siarad Cyhoeddus Saesneg.



Llun o aelodau clwb Llanllwni a wnaeth gystadlu yn y Siarad Cyhoeddus Cymraeg yn ddiweddar.



Nerys, Siriol a Mared a wnaeth ennill cystadlaethau darllen yn y Siarad Cyhoeddus Cymraeg.

geiriau caredig. Bydd yr elw yn cael ei rannu rhwng yr ysgol a’r Ysgol Feithrin.

Aeth plant yr Urdd o gwmpas yr ardal i ganu carolau gan godi £148.25 tuag at yr Urdd. Diolch i bawb.

Diolch i Gwmni Statcraft am eu rhodd ariannol tuag at brynu adnoddau cyfrifiadurol i’r disgyblion ddefnyddio i’w helpu gyda’u gwaith ysgol.

Dyma enillwyr Clwb Cefnogwyr yr ysgol:-

Mis Rhagfyr - 1af - £50 - Gwion Jones, 11 Bryndulais, Gwyddgrug 2ail - £40 - Mary Thomas, 8 Bro Nantlais, Gwyddgrug 3ydd - £30 - Dorothy Evans, Llanllwni 4ydd - £20 - Oscar Thomas, Maesycrugiau 5ed - £10 - Elonwy a Gwyndaf Jones, Llanymddyfri 6ed - £5 - Arwyn George, Gwyddgrug

Mis Ionawr - 1af - £10 - Nia Evans, Maesyrnonen, Llanllwni 2il - £5 - Terry Jones, 23 Bryndulais, Llanllwni 3ydd - £5 - Andrea Procter, Ysgol Llanllwni.

Cylch Meithrin a Ti a Fi

Hoffai Pwyllgor Cylch Meithrin a Ti a Fi Llanllwni ddiolch i bawb am eu cymorth a’u cefnogaeth ar ddiwrnod y Ffair Nadolig ym mis Rhagfyr i sicrhau diwrnod llwyddiannus a gobeithio bod pawb wedi mwynhau siopa cynnyrch lleol gan godi £2,342.70. Diolch i Mrs Wendy Smith am fodloni i fod yn llywydd y Dydd a diolch am ei rhodd hael. Diolch hefyd i Marian Jones, Highview am cyfrannu’r Punt am Bunt o Fanc Barclays.

Cafwyd Gwasanaeth Cristingl

Llanllwni

hyfryd yn Eglwys Llanllwni lle canodd y plant yn swynol iawn.

Cafwyd llawer o hwyl yn y parti Nadolig a galwodd Sion Corn gyda llond sach o anrhegion i'r plant.

Cynhelir Cylch Ti a Fi bob bore dydd Gwener am 9:30y.b. hyd 11:30y.b. yn Ysgol Llanllwni. Croeso cynnes i rieni, gofawyr, mamgu a tadcu i ddod gyda'r plant i ymuno yn y gweithgareddau amrywiol a chyfle i gael sgwrs dros baned.

Dyma'r gweithgareddau a fydd yn Ti a Fi dros y mis nesaf:- 5 Chwefror - Gwneud pancws. 12 Chwefror - Crefftiau dydd San Ffolant. 26 Chwefror - Dydd Gwyl Dewi

Dyddiad i'r calendr - Cynhelir Bingo Pasg ar nos Lun, 21ain o Fawrth, yn Nhafarn y Talardd, Llanllwni am 8y.h., i gynnwys lluniaeth a gwobrau ariannol i'w hennill. Bydd elw'r noson yn mynd tuag at y Cylch Meithrin a Ti a Fi Llanllwni. Croeso cynnes i bawb.

Cydymdeimlad

Cydymdeimlir yn ddwys â Tommy Davies, Greenacres a'r Teulu ar golli mam, mam yng nghyfraith a mamgu yn ddiweddar sef Ray Davies, Dolcoed (gynt).

80 oed

Dymuniadau gorau i Ken Jones, Perthyberllan a Mair Davies, Abercwm ar ddathlu eu pen-blwydd yn 80 oed yn ystod Mis Ionawr.

18 oed

Pen-blwydd Hapus i Betsan Jones Highview a Lois Thomas, Brynmyrddin ar ddathlu eu penblwyddi yn 18 oed yn ddiweddar. Pob dymuniad da i'r ddwy ohonoch i'r dyfodol.

Eisteddfod Abergorlech

Llongyfarchiadau i Alwena Mair Owen a gafodd gyntaf am adrodd dan 8 oed, cydradd gyntaf am ganu alaw werin dan 16 oed, cyntaf am adrodd digri ac ateb 6 cwestiwn o dan 16 oed. Yn ogystal, enillodd y cwpan adrodd am y perfformiad mwyaf addawol o dan 16 oed.

Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Llanllwni

Cawsom Ffair Nadolig pen i gamp - roedd yr ysgol yn llawn stondinnau hyfryd iawn. Braff oedd cael gwahodd cyn athrawes sef Mrs Wendy Smith yn ôl i'r ysgol fel llywydd y dydd. Diolchwn yn fawr iddi am ei chyfraniad hael a diolch o galon i bawb a wnaeth gefnogi.

Ar y 10fed o Fawrth, byddwn yn cynnal Noson Goffi yn Neuadd yr Eglwys gyda eitemau gan blant yr ysgol, i ddechrau am 7y.h. Mynediad yn £3 i oedolion, plant cynradd am ddim. Cyfle gwych i cael disgled, cacen a chlonc gyda hen ffrindiau. Dewch yn llw.

Clwb Hwyl Ysgol Llanllwni

Ar yr 28ain o Chwefror, byddwn yn cynnal parti Dydd Gŵyl Dewi yn Neuadd yr Eglwys rhwng 2 a 4y.p. Byddwn yn cynnal cystadlaethau gwisgoedd Cymreig gorau i bob oedran, o'r babanod i'r oedolion, cenhinen fwyaf a lliwio. Mynediad yn £1 i bawb. Dewch yn llw i ddathlu gyda ni.

Nos Wener, yr 11eg o Fawrth, bydd Clive Edwards yn ymuno â ni mewn noson llawn canu a hwyl a sbri yng Nghlwb Rygbi Llanybydder am 8y.h. Mynediad trwy docyn yn unig - cysylltwch a Ffion Williams ar 07450 979360 neu'r ysgol. Tocynnau yn £7 yr un.

Cylch Trafod Llambod

Cafwyd noson hwylus yng nghwmni Mr Iwan Jenkins, Glynmeherin, Gorsgoch ar y 24ain o Dachwedd. Mae'n Reolwr Gwerthiant dros Gymru i Gwmni 'Finning'. Tipyn o gymeriad yn wir ac yn werthwr heb ei ail ym myd peiriannau trwm.

Yng ngyfarfod cyntaf mis Rhagfyr ar yr 8fed, y gwr gwadd oedd Mr Will Evans, Plasnewydd, Penuwch yn cynrychioli Cwmni 'Dragon Heart Agri Services' a bu'n trafod iechyd anifeiliaid gyda'r aelodau. Noson fuddiol arall.

Ar y 15fed o Ragfyr, Milfeddyg oedd y gwestai, sef Rhys o Milfeddygon Prostock, Caerfyrddin. Ei destun oedd 'Paratodau cyn Wyna a Lloia'. Roedd hon eto'n noson addysgiadol a chafwyd cyngor defnyddiol a phwrpasol ganddo.

Cychwynodd y flwyddyn newydd gyda Mr Ben Anthony, Fronwen, Hendy Gwyn ar Daf yn rhoi ei hanes a'i ffordd ef o ffermio. Mae fferm Fronwen yn Fferm Arddangos gyda Cyswllt Ffermio ac mae wedi manteisio ar nifer o brosiectau er mwyn gwella ansawdd y porfa a recordio perfformiad ei ddiadell o 570 o ddefaid Aberfield wedi croesi â Defaid Cymreig Tregaron.

Cyhoeddodd ein Cadeirydd, Eurig Jenkins, mae'r elusen o'i ddewis am y tymor yw Prostate Cymru a byddai'n ddiolchgar i dderbyn unrhyw gyfraniadau cyn diwedd y tymor.

Daeth nifer dda ynghyd i'r Cinio Blynnyddol yn y Clwb Rygbi ar y 15fed o Ionawr a chroesawyd pawb gan y Cadeirydd, Eurig Jenkins. Offrymwyd gras gan Aneurin Davies, Blaenplwyf Lodge. Wedi'r pryd bwyd blasus, cyflwynwyd y gwr gwadd sef Wil Evans, Hendreseifion a soniodd am ei daith i Peru gyda Aeron Pugh i ffilmio rhaglen a ymddangosodd ar S4C dros y Nadolig. Rwy'n siwr i bawb fwynhau y straeon difyr iawn. Roedd Steven Griffiths o Gwmni Bwydddydd Anifeiliaid Lloyds yn bresennol i gyflwyno gwobrau'r cystadlaethau.



Cyhoeddwyd enwau'r enillwyr gan Gareth Jones, yr Ysgrifennydd, fel a ganlyn: Gwair – 1af Carwyn Davies, Penlan; 2ail Glyn Davies, Lloyd Jack; 3ydd David Thomas, Maesfforest. Sylwair Clamp – 1af Iwan Jenkins, Tyllwyd ac enillydd Cwpan Coedparc; 2il Glyn Davies, Lloyd Jack; 3ydd Dafydd Lloyd Jones, Ystrad Dewi. Bymau Mawr – 1af Emyr Evans, Penlanlas; 2ail Rhys Jones, Cilerwisg; 3ydd Eilir Jones, Dremddu Fawr. Enillwyd Cwpan y diweddar Albert Evans gan Emyr Evans, Penlanlas, sef prif enillydd y Gwair a'r Silwair. Enillydd y gystadleuaeth Ffotograffiaeth oedd Aneurin Davies, Blaenplwyf Lodge. Cynigiwyd y diolchiadau gan y cyn Is-Gadeirydd, Sion Evans, Cwm, a dymunodd yn dda i Anwen Hughes sy'n cymryd at ddyletswyddau'r Is-Gadeirydd am weddill y tymor.

Cafwyd Seiat Holi ar y 19eg o Ionawr yng ngofal y Cadeirydd, Eirug Jenkins. Y Panelwyr oedd Alice Lampart sy'n aelod o'r Grwp a chynrychiolydd lleol Agrigop; Nicola Davies, Maesmynach sy'n adnabyddus ym myd y Cobiau Cymreig a thrwy ei gwaith i Gymdeithas Frenhinol Amaethyddol Cymru ac yn ei gwaith bob dydd fel Cyfieithydd i Gyngor Sir Ceredigion; Rhodri Evans, Llanio – Cynghorydd Sir ac Amaethwr; ac aelod arall o'r Pwyllgor sef Emyr Evans, Penlanlas – Amaethwr a Chadeirydd C.F.F.I Ceredigion. Cafwyd trafodaeth ddiddorol ar nifer o faterion amaethyddol o bwys a chafwyd ymateb da gan aelodau'r panel a'r grwp. Diolchwyd i'r panelwyr gan y Cadeirydd.

Gŵyl Gwrw a Seidr Llambod
2016 2016
Lampeter Beer and Cider Festival

Gŵyl Gwrw a Seidr Llambod
20/2/16 12 noon - 11pm
Neuadd y Celfyddydau,
Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, Llambod

Ystod eang o gwrw a seidr
Adloniant byw • Lluniaeth ar gael
Mynediad £3 gan gynnwys gwydr arbennig
www.facebook.com/lampeterbeerandciderfestival
www.lampeterbeerfestival.co.uk

Cymdeithas Gerddorol Llambod a'r Fro

Brynhawn Sul Chwefror 21 2016

am 2.30 o'r gloch
yn Neuadd yr Hen Goleg,
Prifysgol y Drindod Dewi Sant,

CYNGERDD

yng nghwmni'r Telynor dawnus o Felinfach

LLYWELYN JONES



Cyflwynir gweithiau gan y Meistri yn cynnwys
Handel, Spohr, Faure a Hindemith.

Tocynnau wrth y drws. Oedolion £11,
Pensiynwyr £9. Plant am ddim.

Dewch i gefnogi un o dalentau amlwg y Fro.
Croeso Cynnes.

Cwmann

Sefydliad y Merched Coedmor

Croesawodd Elma Phillips, ein llywydd, i gyfarfod 7fed o Ragfyr yng nghanolfan Cwmann. Cofiwyd am Gwen ac Eiddig yn ysbyty Glangwili a dymuno'n dda i Marian Roberts yn ysbyty Treforys. Cafodd Gwyneth, Mary, Avril a Noelene amser da yng nghyngerdd dathlu canmlwyddiant y Sefydliad yng Nghaerfyrddin. Yn dilyn cyfarfod busnes, cyflwynodd Elma y wraig wadd sef Lesley Jones o Sefydliad y Merched Abermeurig. Dangosodd amryw o addurniadau deniadol ar gyfer y Nadolig, gan ddefnyddio defnydd, botymau a deunydd wedi eu hailgylchu. Diolchodd Gwyneth iddi am noson addysgiadol a diddorol iawn. Roedd Gwyneth, Iona, Joyce ac Elma wedi paratoi te blasus i bawb ac enillwyd y raffl misol gan Mary.

Croesawodd Elma Phillips, ein llywydd, i gyfarfod cyntaf y flwyddyn ar nos Lun, 4ydd o Ionawr, gan ddymuno blwyddyn newydd dda i bawb. Cyfeiriwyd at farwolaeth annisgwyl aelod ffyddlon, Marian Roberts, a cafwyd munud o dawelwch i'w chofio. Dymunwyd yn dda i Eiddig Jones yn Ysbyty Glangwili a llongyfarch Tegwen ar ddo yn famgu yn dilyn genedigaeth Jack Tomas. Ar ôl cyfarfod busnes, croesawodd Elma y gwr gwadd am y noson sef Aneurin Davies o Dalsarn a fu'n gweithio am 37 o flynyddoedd gyda'r A.I.(Tarw'r botel).

Cafwyd noson ddiddorol, llawn hiwmor wrth iddo son am ei amser yn y gwaith a diolchwyd iddo, ac i'w fab Terwyn, am wneud y noson mor ddiddorol a hwylus gan Helena. Diolch i Helena a Brenda am baratoi'r te ac enillwyd y raffl gan Glesni Thomas.

Y gŵr gwadd yng nghyfarfod mis Chwefror fydd Michael Morgan.

Diolch

Dymuna Eiddig Jones, Gellidewi Uchaf ddiolch o galon i bawb am bob arwydd o garedigrwydd a ddangoswyd tuag ato yn ystod ei gyfnod yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Croeso

Croeso cynnes i Ceri a Siân Davies sydd wedi ymgartrefu yn Tŷ'n y Berllan, 15 Cysgod y Coed ers rhai wythnosau bellach. Gobeithio eich bod wedi setlo yn ein cymuned.

Cydyndeimlo

Cydyndeimlir yn ddwys â Georgina a'r teulu ar golli ei mam, Mrs Marian Roberts, Cyswch cyn y Nadolig.

Cartref Newydd

Pob dymuniad da i Mrs Ruthie Williams, Rhiwlas gynt sydd wedi ymgartrefu yn Penlon, Ffordd Cambrian, Llambled. Gobeithio eich

bod yn mwynhau yno.

Dyweddïo

Llongyfarchiadau i Nerys Douch a Rhodri Beaumont, Trefin sydd wedi dyweddïo yn ystod mis Rhagfyr.

Ŵyr bach

Llongyfarchiadau i Gwyn a Tegwen Williams, Wyngarth ar gael ŵyr bach Jac, mab i Lucy a Dylan a brawd bach i Elsie yng Nghaerdydd.

Hefyd, ganwyd ŵyr cyntaf i Cathy ac Aled Davies, Tremle, Casey mab i David a Tracey, Bryn Steffan.

Pob dymuniad da i chwi gyd.

Ysbyty

Derbyniodd Muriel Davies, 2 Nantyglyn lawdriniaeth yn Ysbyty Treforys cyn y Nadolig.

Croeso adref i Eiddig Jones, Gellidewi sydd wedi treulio cryn amser yn Ysbyty Glangwili yn dilyn llawdriniaeth. Hefyd i Adrian Davies, Hafod Lon a dreuliodd rhai diwrnodau yn Ysbyty Glangwili ac i bawb arall sydd wedi bod yn sâl yn eu cartrefi. Brysiwch wella i gyd.

18 oed

Llongyfarchiadau i Lowri, Cae'r Nant ar ddathlu ei phen-blwydd yn 18 oed. Pob lwc i ti i'r dyfodol.

Amgueddfa Llambled

Mae Swyddogion yr Amgueddfa'n garedig iawn wedi cynnig gofod i arddangos creiriau o Blwyf Pencarreg pan fydd yn ail-agor yn y Gwanwyn.

Os oes gan rai ohonoch unrhyw luniau o ddigwyddiadau sydd wedi cymryd lle yn y plwyf ar hyd y blynyddoedd neu unrhyw hen bethau sydd â chysylltiad â'r plwyf y byddech yn fodlon rhoi eu benthyg dros dro i'w dangos yn yr arddangosfa, a fyddech cystal â chysylltwch â Eric ar 422425 neu Alun ar 423231 yn y dyfodol agos.

Diolch ymlaen llaw. Dewch nawr, bobol Cwmann, rhwch Blwyf Pencarreg ar y map!

Clwb 225 mis Tachwedd

1. Graham Evans, Fferm Felinfach, Cwmann, 146. 2. Mrs E. Jones, 3 Heol Hathren, Cwmann, 192. 3. Donald a Helen Thomas, Tŷ Hathren, Cwmann, 43. 4. Eric Harries, Abertystwyth, 70. 5. Mrs Ruthie Williams, Rhiwlas, Cwmann, 151. 6. Terry a Sian Jones, Awel Deg, Cwrt Deri, 47. 7. Dafydd Lewis, Pantmeiniog, Cwmann, 194. 8. Phyllis Smith, 3 Priordy, Llambled, 120. 9. Joan Davies, Cwrt Deri, Cwmann, 90. 10. Jean Davies, 5 Heol-y-Maes, Pencarreg, 94.

Clwb 225 mis Rhagfyr

1. Ann Roberts, Bryn View, Parcyrrhos, 68. 2. Helen Davies, Gwel y Cwm, Llambled, 57. 3. Eirlys

Jones, Balfor House, Cae Ram, Cwmann, 100. 4. Wynford Thomas, Pantygwin, Cellan, 140. 5. Nancy James, Emlyn Cottage, Cae Ram, Cwmann, 114. 6. Rhiannon Lewis, Tanlan, Cwmann, 126. 7. Dannie Davies, Brynteifi, Cwmann, 55. 8. Wyn Jones, Hendai, Cwmann, 179. 9. Dylan a Carys Davies, Cysgod y Coed, Cwmann, 39. 10. Gruffudd a Martha Thomas, Deffrobani, Llambled, 102.

Neuadd Sant Iago

Clwb 125 mis Rhagfyr

1. M. Miah Sayavilla, Cwmann, 44. 2. Helen Davies, Tanyresgair, Cwmann, 38. 3. Eleanor Davies, Pleasant View, Llambled, 12. 4. Jean Davies, 2 Heol y Maes, Pencarreg, 58. 5. Timothy Evans, Llanfair Fawr, Llanfair, 76. 6. Evans, Awelfan, Llanllwni, 73. 7. Georgina Kersey, Glyn View, Cwmann, 53.

Clwb 125 mis Ionawr

1. Aled Evans, Hafod y Gân, Cae Ram, Cwmann, 39. 2. Rosa Lloyd, 8 Heol Hathren, Cwmann, 92. 3. Pat Davies, Dolcoed, Cwmann, 127. 4. Muriel Davies, 2 Nant y Glyn, Cwmann, 93. 5. Dannie Hardy, 32 Cwrt Deri, Cwmann, 69. 6. Huw Davies, Kerlands, Cwmann, 95. 7. Amanda Evans, Annwylfan, Llanllwni.

Adeilad Newydd Ysgol Carreg Hirfaen

Mae llawer o gyffro ymhlith disgyblion Ysgol Carreg Hirfaen wrth iddynt baratoi i symud i'w hadeilad newydd sbon ym Mhentref Cwmann. Agorir drysau'r adeilad newydd am y tro cyntaf ar ddydd Mawrth, y 23ain o Chwefror. Yn ddiweddarach yn y tymor, cynhelir diwrnod agored i'r gymuned fedru ymweld a'r adeilad newydd. Rhennir trefniadau'r diwrnod agored yn y dyfodol agos.

Cyn hynny, rhwng 4y.h. a 6.30y.h. ar ddydd Llun, yr 8fed o Chwefror, estynnir croeso cynnes i gyn-ddisgyblion a phobl yr ardal i ymweld a hen adeilad Ysgol Coedmor am y tro olaf cyn i'r drysau gau yno yn dilyn cant a deugain o flynyddoedd o addysg ar y safle. Ymunwch a ni am baned o de a chlonc.

Sefydliad Prydeinig y Galon Cangen Llanybydder a Llambled

Noson yng nghwmni

Bois Y Frenni

Yng Ngholeg y Drindod Dewi Sant

19 Chwefror 2016 am 7.30 yh

Swper Ysgafn

Llywydd: Mr Gary Rees, Llanybydder

Tocyn £15.00. Elw tuag at Sefydliad Prydeinig y Galon

Gohebiaeth

PWY GEITH Y GIG?

Ydych chi eisiau bod mewn band newydd ifanc, cyffrous? Eisiau cael y cyfle i gyfansoddi cân newydd sbon gydag arbenigwyr yn y maes? Eisiau cyfle i berfformio yn fyw o flaen cynulleidfa fawr? Ac hefyd, bod ar y teledu gyda bandiau enwog fel Candelas, Swami, Yr Eira?

Fel rhan o gyfres deledu newydd i S4C, 'Pwy Geith y Gig', mae Cwmni Da yn chwilio am 6 aelod i greu band newydd sbon fydd yn cael cyfle i gael eu mentora gan arbenigwyr yn eu maes a chael y cyfle i berfformio o flaen cynulleidfa fawr yn Eisteddfod yr Urdd, Sir y Fflint.

Os ydych chi rhwng 11 a 16 oed, dyma'ch cyfle i fod mewn band a pherfformio mewn gig arbennig! Am fwy o fanylion, ewch i www.pwygeithygig.cymru.

Darlith Goffa Tucker 2016

Cynhelir Darlith Goffa Tucker 2016 nos Iau, 17eg o Fawrth am 7.00y.h. yn Narlithfa Tucker, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, campws Llambled. Y darlithydd gwadd yw'r Athro Mererid Hopwood a bydd yn traddodi ar y testun: "Fuoch chi yng Nghwm Alltcafan? T Llew Jones: Bardd y Plant Bach a'r Plant Mawr". Mi fydd lluniaeth i ddilyn a chroeso cynnes i bawb.

Cofrestrwch ar ein gwefan gymunedol

www.clonc360.cymru

er mwyn cyfrannu eich stori chi.

Wedi meddwl hysbysebu yn eich papur bro? Ceir prisau rhesymol iawn gan ddechrau gydag hysbyseb bach yn

£10 yn unig,

a dim ond £60 am ddeg ohonynt.

Gwerthfawrogi eich cefnogaeth.

ysgrifennydd@clonc.co.uk

Oes angen cyngor arnoch?

Mae gennym arbenigedd cyfreithiol mewn sawl maes, megis:-

1. CYFRAITH TIR,
2. EWYLLYSIAU A'U PROFANT,
3. TRETH ETIFEDDIAETH A MODD I'W LEIHU,
4. GWAITH LLYS O BOB MATH.

Os hoffech fwy o wybodaeth mae croeso i chiwysylltu â ni.

ADVE

ARNOLD DAVIES VINCENT EVANS
CYFREITHWYR

33 Stryd Fawr, Llambled
☎ 01570 422517 ☎ 01570 423244



Gwyn Lewis

Cyf

Cyflenwi a gosod:
Carpedi a Feinyl, Lloriau Diogel,
Cladinau Wal,
yn ogystal â Gwelyau,
Pennau Gwelyau a Rygiau.

43 Stryd y Bont
LLANBEDR PONT STEFFAN
Ffôn a Ffacs: 01570 423984
Adref: 01570 423349



Gall y driniaeth yma eich helpu, os ydych yn dioddef o'r canlynol:

* Blinder / diffyg egni

* Meigrin
* Sdrauca

* Irritable Bowel Syndrome

* Menstrual problems
* a mwy

Os am ragor o wybodaeth
cysylltwch â Carol Rees

01545 590164

07929 559561

Tim Jones



Ffotograffydd

Llainwen, Rhodfa Glynhegog
Llanbedr Pont Steffan

☎ 01570 422644

The Wash Tub

Heol y Gogledd
(gyferbyn â'r gogolofn)
01570 423647

Gwasanaeth o safon uchel:
smwddio, golchi, sychu
a glanhau.

Ac yn golchi duvets.



MiS y PaPur Newydd

Colofn Dylan Iorwerth

Pan mae map yn llawer mwy na hynny

Mae yna sawl math o fap. Rhai'n para llai nag eiliad, eraill yn para am filoedd o flynyddoedd.

Mae yna fapiau felly o ardal Clonc.

Cymerwch fap tywydd. Mi fyddai mapiau'r misoedd diwetha' wedi bod yn debyg iawn i'w gilydd – cymylau ac isobariau'n agos at ei gilydd i ddangos gwyntoedd mawr. A'r cyfan yn newid trwy'r amser yn ddi-stop.

Mi allech chi gael map sŵn hefyd. Mae yna bobol wedi llunio'r fath beth. Sefyll yn un man a gwranddo'n ofalus gan nodi pa sŵn sydd i'w glywed, o le, pa mor gry' a pha mor bell. O farcio'r cyfan, mae'n bosib creu map i'r clustiau.

Mi fyddai hwnnw'n newid yn gyflym hefyd, er y gallai sŵn peiriant yn y pellter fod yn hollol gyson ac er y gallai aderyn fod yn canu'r un nodyn am yn hir o'r un goeden.

Dw i'n cofio sgrifennu rywdro am fapiau cŵn, gan ddychmygu mai gyda'u trwynau y byddent nhw'n creu'r rheiny. Ond mae ein milgi ni yn sicr yn cofio llefydd wrth eu harogl a sniffad bach wrth fôn coeden yn amlwg yn rhoi llwyth o wybodaeth.

A'r cyfan yn dangos mai ffordd o ddeall y byd ydi map yn y diwedd.

Ac at bwrpas arbennig hefyd. Mi fyddai hen, hen fap o'r ardal yma efallai wedi dangos y ffordd o Gastellnewydd Emlyn i Lanbed, heb ddangos dim ond y ffordd ei hun ac ychydig bethau nodedig ar bob ochr ... er mwyn i bobol wybod sut i gyrraedd. A fyddai hwnnw heb newid am ganrifoedd.

Mae mapiau ffordd heddiw'n llawer mwy cymhleth, yn dangos perthynas ffyrdd â'i gilydd, oherwydd ein holl drafaelio. Ac maen nhw'n newid – fyddai map chwarter canrif yn ôl ddim wedi dangos cylchfan ar sgwâr Llanwnnen, ac mi fydd angen newid bach eto pan ddaw Ysgol Dyffryn Cledlyn i fod, gyda chylchfan arall.

Y noson o'r blaen, sôn am fapiau caeau yr oedd Dai Thorne wrth siarad efo Cynghair Ward Llanwenog am enwau lleoedd. A'r map mawr iddo ef oedd Map y Degwm yn ôl yn yr 1840au – roedd yn amau y byddai hwnnw'n dangos tua 5,000 o gaeau ar draws y ward i gyd.

Erbyn heddiw, mi fydd y map hwnnw hefyd wedi newid wrth i gloddiau gael eu chwalu, wrth i gaeau bychain droi'n gaeau mawr ac wrth i ffermydd lyncu'i gilydd. Ac mi fydd llawer o'r enwau wedi newid hefyd.

Roedd cyfaredd sgwrs Dai Thorne yn y ffordd y gall enw bychan syml agor byd arall inni, trwy gyfleu'r hyn oedd yn digwydd mewn ardal slawer dydd. Mae map o gaeau gydag enwau – fel Map y Degwm – yn llawer mwy na disgrifiad o wyneb y tir.

Cae Tyweirch oedd yr enghraifft fwya' trawiadol, ac amllder yr enw mewn ardal fel hon yn dangos pa mor bwysig oedd tywarchen i bobol echdoe. Yn cynnig popeth iddyn nhw – o gelfi i waliau a tho ac o wrtaith i wres.

Map dwfn ydi peth fel yna. Nid map fflat. Wrth i chi ddarllen map fel yna, mae'r wlad yn dod yn fyw, fel un o'r llyfrau plant yna slawer dydd ... chithau'n agor y tudalen a golygfa gyfan yn codi mewn tri dimensiwn o'ch blaen.

Ond mae'n fap sy'n treiddio dan wyneb y tir hefyd, yn dangos yr hyn oedd yn digwydd yma ddegawdau, efallai ganrifoedd, yn ôl a'r hen ffordd o fyw honno bellach wedi hen ddiflannu. Mae hen enwau'n llawer mwy na chasgliad o lythrennau.

Dyna pam ei bod mor bwysig eu cadw nhw. Dyna pam y dylai Llywodraeth Cymru greu deddf i warchod enwau hanesyddol rhag cael eu newid ... nid dim ond enwau ar adeiladau pwysig, hanesyddol, ond enwau ein ffordd o fyw.

Cegin Gwenog, Abernant, Llanwenog

Gwasanaeth arlwygo cyflawn
ar gyfer pob achlysur:

- Bwyd Priodas
- Bwffe
- Te Angladd
- Digwyddiadau Maes

Hefyd yn Ystafell Weini cysurus
Clwb Rygbi Llambled yn gwneud:

- Cinio Dydd Sul 12.00 – 3.00
- Partion pen-blwydd ayb
- Ciniawau
- Cyfarfodydd
- Bwyd Bedydd
- Te Angladdau

Bwydlenni unigol i ateb eich
gofynion chi – boed yn fawr neu'n fach



Lifft
cyfleus
yn ei le i
fynd lan
llofft

Os am ragor o fanylion, cysylltwch â:

Tony a Mair Hatcher 01570 481230 / 07967 559683.

Cefn Hafod



Gorsgoch

Cyri bob nos Wener,
£6 y pen

Prydiau bwyd ar gael drwy'r
wythnos

Nos Lun– Nos Sadwrn

Bwyd Cartref a Chwrrw da.
Croeso cynnes i bawb!
01570 434 238



W.D. Lewis
o'i Fab
Mae'n gysylltu â chi
a'r ffordd i'r ffordd

Melin Mark Lane Mill

Llanbedr Pont Steffan
Ceredigion SA48 7AG

Tel: 01570 422540

Fax: 01570 423644

www.wdlewiscy.co.uk

Hefyd yn

Broneb Stores

Pumsaint, Llanwrda

Tel: 01558 650215



Cegin Coedlannau

'Bwyd cartref ar gyfer
pob achlysur'

* Cacenau pen-blwydd gyda llun
(ffotograff)

* Bwffe mawr neu fach

* Darteithion i de

* Pwdinau

* Arlwygo ar gyfer pob achlysur



Sirian Davies, Coedlannau

Fach, Cwrtnewydd,

01570 434 243

07815 962 045

Alec Page Gof



Gwaith metal o safon
i'r tŷ a'r ardd.

Dewch i drafod eich syniadau.

Yr Efail, Barley Mow,

Llambled.

01570 423955

www.alecpageblacksmith.co.uk

WILLIAMS & BOURNE

CYFREITHWYR.
COMISIYNNWYR LLWON

Trosglwyddiadau a phob
gwasanaeth cyfreithiol.
Ymweliadau â'r cartref yn bosibl.

1 Sgwâr Harford,
Llambled

☎ 01570 422206 ☎ 01570 423540

A thrwy apwyntiadau yn Nhregaron, Llanybydder,
Castell Newydd Emlyn a Chaerfyrddin.

Llambed



Tîm rygbi a hyfforddwyr o Dan 9 Llanbed un eu gwisg newydd. Diolch i Roger Moore Ground Tech Ltd a Gary Brown o G Brown Forestry Services am eu nawdd hael.



Blwyddyn 6 Grannell, Ysgol Bro Pedr sydd wedi ennill cystadleuaeth Sirol Sumdog (Mathemateg). Longyfarchiadau i Harvey, Meilyr, Owain ac Amy ar ddod yn y deg uchaf o ran marciau yng Ngheredigion.



Rhai o ddisgyblion blwyddyn 6 Ysgol Bro Pedr a gwblhaodd gwrs beicio diogel yn ddiweddar.

Ydych chi eisiau datblygu diddordebau neu sgiliau newydd, gweithio tuag at gymhwyster neu wella eich sgiliau ar gyfer y gweithle?

Rydym yn cynnig amrywiaeth o gyrsiau gan gynnwys; cyfrifiadura, hel achau, mathemateg, ysgrifennu creadigol, cadw'n heini, gosod blodau, coginio/pobi a llawer mwy. Cysylltwch â ni am ragor o wybodaeth:



01970 633540
admin@dysgubro.org.uk
www.dysgubro.org.uk



Swdocw

Sut i chwarae – Rhaid i chi gwblhau'r grid gyda phob colofn, pob rhes a phob bocs yn cynnwys y rhifau 1-9

Enw _____
Cyfeiriad _____
Cod post _____
Rhif Ffôn _____

Atebion i: Tŷ Cerrig, Cwmann, SA48 8ET
Gwobr: Pecyn Nwyddau Clonc
I'r ateb cywir cyntaf allan o'r het.

6			8		1	7
5			3	2		
	9			4		
8					4	
2	4				6	8
		9				1
			8			9
			2	6		4
	2	1		9		3

Swdocw Rhagfyr:

Longyfarchiadau i:
Mair Williams,
Awelfa, New Inn,
a diolch i'r canlynol
am gystadlu: Joan
Stacey, Tynwaun,
Ffaldybrenin ac Alun
Davies, Heddle,
Llanbed.

3	5	4	9	6	2	1	7	8
1	7	9	8	5	3	4	6	2
6	2	8	7	4	1	9	5	3
5	9	6	4	2	8	3	1	7
4	8	3	1	7	6	5	2	9
2	1	7	3	9	5	8	4	6
9	6	1	5	3	7	2	8	4
7	4	5	2	8	9	6	3	1
8	3	2	6	1	4	7	9	5

Ffarmers

Cyngerdd

Cynhaliwyd Cyngerdd yn y Neuadd ar Nos Wener, yr 20fed o Dachwedd gyda Chôr Glannau Ystwyth o dan arweiniad Delyth Hopkins Evans gyda Gwyneth Davies yn cyfeilio. Llywydd y noson oedd Mrs Awena Williams, Glanrhyd, Crugybar (Penbanc gynt), a hyfryd oedd cael croesawu un o blant yr ardal yn ôl i'w chynefin. Cafwyd noson hyfryd o adloniant gydag elw'r noson tuag at gynnal y Neuadd. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

Cyngerdd a Noson o Garolau

Yn ôl yr arfer, cynhaliwyd Cyngerdd a Noson o Garolau yn y Neuadd ar y Sul cyn y Nadolig gydag aelodau o Eglwys Llanycrwys a Chapel Bethel, Salem, Saron a Ffaldybrenin yn cymryd at y rhannau arweiniol. Eleni, cawsom gwmni Côr Meibion Llanyddydri i'n diddori o dan arweiniad Lynwen Jones, ac Elaine Robbins yn cyfeilio, ac i gloi'r noson 'roedd yna wydryn o wîn poeth a mins pei. Mae'r achlysur yma yn gyfle i godi arian at elusen, ac eleni, penderfynwyd cyflwyno'r elw o £430 i'r Cystic Fibrosis Trust. Diolchwn i bawb wnaeth gefnogi'r

digwyddiad, ac am eu haelioni.

Caffi Croeso

Mae criw y Caffi Croeso yn cwrdd yn Yr Haulfan, Neuadd Bro Fana bob dydd Mercher rhwng 10y.b. a 1y.p. Gallwch gael paned a chacen, neu ginio ysgafn, a mwynhau cwmnïaeth trigolion yr ardal. Os ydych yn dysgu Cymraeg, dyma gyfle i chi ymarfer gyda siaradwyr profiadol. Galwch i mewn.

Ioga

Mae'r dosbarthiadau Ioga wedi ail-gychwyn wedi gwyliau'r Nadolig, ac yn cwrdd yn Yr Haulfan, Neuadd Bro Fana ar nos Fawrth rhwng 7y.h. a 8.30y.h. Cyfle gwyh i ystwytho'r corff, ac ymlacio'r cyhyrau. Beth amdani.

Y Farchnad Gynnyrch a Chrefftau

Bydd y Farchnad fisol yn cwrdd ar y Sadwrn cyntaf o'r mis gyda amrywiaeth o stondinau gan gynnwys ffrwythau a llysiau, bara a chaccennau, jam, picl a siytni a chrefftau. Bydd yna hefyd gyfle am baned a chlonc. Bydd y Farchnad nesaf ar y 6ed o Chwefror.

Clwb Clonc

Chwefror 2016

£25 rhif 258:

Tim Jones,
Llainwen, Rhodfa Glynhebog,
Llambed

£20 rhif 511:

Avril Williams,
Y Fedw, Cwmann

£15 rhif 433:

Ann Roberts,
Brynview, Parc y Rhos, Cwmann

£10 rhif 140:

Olga Evans,
Coedparc,
Heol Caerfyrddin, Llanybydder

£10 rhif 442:

Glesni Thomas,
1 Heol Hathren, Cwmann

£10 rhif 254:

Enid Jones,
Dolhyfryd, Cellan

£5 rhif 205:

Gwawr Hatcher,
Cefnhafof, Gorsgoch.

Graham Jones

Gwasanethau Cyfrifiaduron

- ★ Datrys Problemau a Trwsio
- ★ Ymweliadau Cartref o £45
- ★ Cyfrifiaduron, Gliniaduron a Pherifferolion Ar Werth
- ★ Gwasanaeth Adfer Data
- ★ Gwasanaeth Dylunio Gwefan

Ffôn 01545 560776

neu 07715 740777

www.tynici.com

graham@tynici.com

Dawns Emporium

Rhoddion Cymraeg
a Phersonol

07818 020907
Drefach, SA40 9SX



dawnsemporium

www.dawnswelshgifts.co.uk

Ruth Thomas a'i Chwmni Cyfreithwyr

Adeladau'r Llywodraeth,
Heol Pontfaen, Llambod
Ffon: 423300 Ffacs: 423223
mail@ruththomassolicitors.co.uk

yn cynnig pob gwasanaeth
cyfreithiol

Apwyntiadau hwyr neu yn eich
cartref

Ymgynghorwyr Yswiriant Eryl Jones Cyf

Beth am gysylltu â ni am amcan-bris
i'ch holl anghenion yswiriant?

Car, lori, fan,
beic modur



Yswiriant tŷ/
cynnwys

Teithio

Fferm a busnes

Cyfrifoldeb

Anifeiliaid

Polisiau Cystadleuol i bob math o yswiriant,
cyngor a chefnogaeth yn rhad

Swyddfa'r Hen Fanc, 6 Stryd Fawr

Llanbedr Pont Steffan, SA48 7BA

Ffôn: 01570 422401

Ffacs: 01570 422562

Authorised & Regulated by The Financial Conduct Authority

T. Emyr Jones Adeiladwr



Araul, Cwmann

01570 423921

07867 945174

Pencarreg

Sêr Ifanc



Bu Cerys Angharad o Bencarreg a Megan Morris o Dalyllychau, y ddwy yn 7 oed, yn llwyddiannus yng ngwrandawiadau Cwmni Opera Ieuentid Caerfyrddin ym mis Medi 2015 lle bu cannoedd o blant yn cystadlu am rannau. Cynhaliwyd y gwrandawiadau dros benwythnos cyfan. Y ddwy, sy'n ddisgyblion yn Ysgol Bro Pedr, Llanbed, yw'r ifancaf yn y cast o 76 yn Opera Ieuentid Caerfyrddin. Maent wedi bod yn ymarfer yn ddiwyd ers mis Medi 2015, gyda'r ymarferion yn cynyddu i ddwy waith yr wythnos o hyn ymlaen.

Cynhelir y sioe 'Whistle Down the Wind' gan Richard Taylor yn Theatr y Lyric, Caerfyrddin. Mae'r sioe yn cael ei chyfarwyddo gan Steve Elias (sy'n hannu o Gaerfyrddin a chyn-aelod yr Opera), seren y 'West End' mewn sioeau 'Billy Elliot' a 'Chitty Chitty Bang Bang' a'r teledu. Mae'r sioe yn agor Nos Fawrth, 16eg o Chwefror tan Nos Sadwrn, 20fed o Chwefror 2016 sef chwe sioe i gyd. Mae tocynnau ar werth o Theatr y Lyric, Caerfyrddin. Pob lwc i chi ferched.

Llwyddiant

Llongyfarchiadau i Cerys Jones, Cysgod y Graig am basio Step 1 ar y piano gydag anrhydedd. Cafodd Cerys 95% a marciau llawn yn y theori. Da iawn ti.



Llongyfarchiadau i Cerys Angharad o Bencarreg yn y cystadlaethau canlynol yn Eisteddfod Abergorloch ar ddiwedd Tachwedd 2015: Cyntaf yn canu 6-8 oed; Ail yn llefaru 6-8 oed; Ail yn Canu Emyr dan 16 oed.

Cwrdd Nadolig Eglwys Sant Padrig

Daeth tyrfa a ffrindiau Eglwys Pencarreg ynghyd i ddathlu Gŵyl y

Geni ar Noswyl y Nadolig eleni eto. Y Parch William Strange oedd yn gwasanaethu yn ôl ei arfer. Cafwyd deuaud gan Annie a Megan Thomas, Dolwarfach ac hefyd unawd gan Swyn Tomos, Dôlmebyd. Ymunodd y plant mewn côr i ganu nifer o ganeuon a charolau ac roedd pawb wedi cael pleser mawr. Diolch i'r mamau am baratoi bwyd a thê ar ôl gwasanaeth oedd yn gyfle i baw sgwrsio a chwmnïa ar drothwy'r Nadolig.

Hanes Plwyf Pencarreg

Yn dilyn galwad ffôn gan Eric Williams, Cwmann rwy'n gofyn ar ran Amgueddfa Llambod ar i bawb fynd ati i chwilio am hen luniau, arteffactau neu unrhywbeth all fod o ddiddordeb yn Hanes Plwyf Pencarreg. Mae cornel wedi ei neilltuo yn yr amgueddfa ar gyfer arddangosfa hanes y Plwyf adeg y Gwanwyn. Unrhyw wybodaeth am y rheilffordd, y llyn, yr ysgol, yr eglwys, y dafarn, y siop, ffordd o fyw yn yr ardal, bywyd ac arteffactau byd ffermio, lluniau cneifio, crynhoi tato, cywain gwair, cynaeafu llafur ayb, lluniau o helwyr, barddoniaeth a bywyd yn

gyffredinol megis hen fapiau ac enwau caeau, llwybrau troed, tai a ffermydd. Medrwyh gysylltu â mi Lynda Thomas ar 01570 422270. Mae Eric Williams am i mi eich sicrhau y bydd pob llun ac arteffact yn cael ei drosglwyddo'n ddiogel i'r amgueddfa ac yna yn ei roi'n ôl i'r perchennog. Ewch ati i dwrio a phob hwyl.

Cydymdeimlad

Newyddion trist a ddaeth i'n bro mor agos i Wyl y Nadolig gyda marwolaeth John Morgan James Evans neu Non Blaencarreg fel yr adnabyddir gan ei deulu a'i gyfeillion. Brwydrodd Non yn galed a dewr yn ei afiechyd ond fe wnaeth ddirywio'n sydyn yn dilyn ei gymar a'i wraig ffyddlon Audrey gael ei tharo'n wael flwyddyn yn ôl. Un o fechgyn Pencarreg oedd Non. Un o gymeriadau amlycaf ei gymdogaeth ac yn adnabyddus mewn marchnadoedd a sioeau led led y wlad yn dilyn ei ddiddordeb ym myd amaethyddiaeth. Cydymdeimlwn yn ddwys gyda Audrey, Mair, Nia a'u teuluoedd a holl ffrindiau Non. Brenin Blaencarreg, ffarwel i gapten y llong oedd a'i wreiddiau yn treiddio i ddyfnder y clôs.



Alltyblaca

Llongyfarchiadau

Dymuna Aelodau a Ffrindiau Capel Alltyblaca longyfarch y Parchedig Cen Llwyd ar ennill Cadair Eisteddfod Abergorlech ar ddiwedd mis Tachwedd. Roedd 10 yn cystadlu a phob dymuniad da i chwi Cen gan obeithio y cewch sawl cadair eto.

Priodas Aur

Llongyfarchiadau i Jack a Rayan Jenkins, Perthi ar ddathlu eu Priodas Aur ganol mis Rhagfyr. Gobeithio eich bod wedi mwynhau'r dathlu. Iechyd da am flynyddoedd lawer eto.

Cartref Newydd

Yn ystod 2016 ffarwelwyd gyda Elfed, Eleri, Elan ac Elis pan werthwyd ei cartref Bryngolau ac estynnwn groeso i deiliaid newydd yr aelwyd yno.

Llanybydder

Capel Aberduar Llanybydder

Cynhaliwyd oedfa Nadolig yng nghapel Aberduar fore Sul, yr 20fed o Ragfyr, pan ddaeth cynulleidfâ dda ynghyd i wrando ar gyfraniadau cyfoethog nifer o bobl ifainc yr eglwys. Cyflwynwyd gweddi agoriadol gan Elin Evans. Bu Lowri Gregson yn cyflwyno'r hanes yn yr hen Destament yn sôn am y disgwyl mawr am y Meseia. Cyflwynwyd yr emynau gan Gareth Williams, Rhian Milcoy, Arwel Jenkins, Llŷr Davies a Hedydd Wilson. Cafwyd darlleniadau a chyflwyniadau gan Cerys Lloyd, Rhydian Davies, Bleddyn Jones, Llŷr Davies ac Arwel Jenkins yn sôn mewn gwahanol ffyrdd am ystyr y Nadolig. Bu Elin Evans yn cyflwyno adroddiad yn sôn am eni'r Iesu ym Methlehem a chyflwynwyd gweddi gan Cerys Lloyd. Cafwyd ymgom rhwng Lowri a Hedydd yn sôn am wynder eira a'r Nadolig ac anerchiad gan ein gweinidog y Parch Jill Tomos i ddilyn. Yn cyfeilio wrth yr organ oedd Rhiannon Lewis. Diolchodd y gweinidog y Parch Jill Tomos i bawb, ac yn arbennig i Dewi Davies, Glynteg, a luniodd yr oedfa i'n harwain at y preseb, ac a drefnodd hefyd gyda'r bobl ifainc. Yn dilyn yr oedfa, aeth pawb i'r festri am baned a sgwrs wedi ei baratoi gan y chwiorydd.

Am naw o'r gloch fore dydd Nadolig, cafwyd oedfa dan arweiniad ein gweinidog y Parch Jill Tomos. Cyhoeddwyd yr emynau gan Richard Milcoy, Hedydd Wilson ac Emlyn Evans gyda Rhiannon Lewis wrth yr organ. Cyflwynodd Arwel Jenkins ddarlenniad o'r Beibl a cafwyd neges arbennig gan y Parch Jill Tomos. Carwn ddymuno blwyddyn newydd dda i'n gweinidog a'r teulu.

Côr Lleisiau'r Werin

Ar ddiwedd Tachwedd, bu'r côr yn canu mewn ffair Nadolig ym Mharc Dinefwr yn Llandeilo. Roedd yn ddiwrnod gwlyb a gwyntog ac felly roedd y pwnsh twym a'r mins peis yn dderbyniol iawn! Yna, ar y 13eg o Ragfyr, cynhaliwyd ein cyngerdd blynyddol yn Eglwys Sant Pedr Llanybydder. Roedd yna naws Nadoligaidd hyfryd, gyda'r carolau a'r darlleniadau yn ein harwain at Wyl y Geni. Diolch i Gôr Meibion Cwmann am eu cyfraniad gwerthfawr i'r noson. Roedd y casgliad eleni yn mynd i Uned Gofal Babanod ysbytai Glangwili a Singleton a chasglwyd swm anrhydeddus. Erbyn hyn, rydym wedi ail ddechrau ar yr ymarferion ar ôl seibiant y Nadolig, gan edrych ymlaen at fwy o ganu a chymdeithasu yn 2016.

Priodas Ddiemwnt

Ar ddechrau mis Rhagfyr, dathlodd

Aneurin a Dorothy Lloyd, Cartref Cwm Aur ond gynt o Esgair Inglis, Llanwnnen, ben-blwydd Priodas Ddiemwnt. Llongyfarchiadau mawr i chi.

Cydymdeimlo

Danfonwn ein cydymdeimlad dwysaf i Beti a Meurig Jacobs, a'r teulu Gorwel ar golli brawd, brawd yng nghyfraith ac ewythr annwyl ym mherson Non Evans, Pencarreg.

Priodas Ruddem

Llongyfarchiadau i Lewis a Gwyneth, Heol y Gaer ar ddathlu ei Priodas Ruddem yn ddiweddar. Ymlaen i'r Aur nesaf!

Gwellhad Buan

Braf yw gweld bod Delor Evans, Bryngwyn adref ar ôl treulio rhai diwrnodau yn Ysbyty Glangwili.

Eglwys San Pedr, Llanybydder

Cynhaliwyd cyfarfod o Gyngor Plwyfol yr Eglwys (PCC) ar Nos Lun, yr 11eg o Ionawr 2016. Yn bresennol oedd y canlynol: y Parch Suzy Bale (Cadeirydd); Susan Evans (Warden yr Eglwys); Val Wood (Warden y Ficer); Avril Jones (Trysorydd); Eleri Thomas (Ysgrifennyddes); Heather Jones; Irene Pollard & Christine Rogers. Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Mr Eurwyn Davies. Trafodwyd y canlynol:

Parti Nadolig yr Ysgol Sul: Diolch i Kay, Steve, rhieni a holl ffrindiau'r Eglwys a helpodd yn ystod y Parti Nadolig. Roedd pawb wedi mwynhau'n fawr iawn!

Taith Gerdded: Casglwyd £2,248 yn ystod Taith Gerdded 2015. Gwnaethpwyd trefniadau ar gyfer Taith Gerdded 2016 a gynhelir ar Nos Wener, y 19eg o Awst 2016. Y Ffurflenni Noddi i'w dosbarthu yn ystod y dyfodol agos.

Noson Bingo: Cynhelir ym mis Mai – dyddiad i'w drefnu.

To'r Festri: Gobeithir sicrhau cymhorthdal i ymwneud â gwelliannau i do y festri. Diolchir i Mr Eurwyn Davies a Mr Meurig Jacob am lanhau'r cafnau.

Edrych ymlaen:

Astudiaeth y Garawys: bob Nos Fercher yn ystod Tymor y Garawys.

Gwasanaeth y Garawys: Nos Fercher, 10fed o Chwefror, Eglwys Llanwnnen, am 7y.h.

Gwasanaeth Dydd Iau Cablyd: Nos Iau, 24ain o Fawrth, Eglwys Llanwenog am 7y.h.

Gwasanaeth Sul y Pasg, Llanybydder, 8.30y.b.

Festri'r Pasg: Nos Fercher, 27ain Ebrill, Festri'r Eglwys, Llanybydder am 7.00y.h.

Trip Eglwysy'r Plwyf: Gobeithir trefnu trip ar gyfer aelodau Eglwys Llanybydder; Llanllwni; Llanwenog a Llanwnnen. Ystyriwyd o bosibl

ymweld â'r Eglwys Gadeiriol yn Aberhonddu.

Dymuniadau gorau i aelodau'r Eglwys sydd heb fod yn teimlo'n hwylus neu wedi colli un annwyl yn ddiweddar. Boed i'r Arglwydd fod yn "noddfa ac yn nerth" i chi.

Gorsgoch

Diolch

Hoffwn fel teulu gymryd y siawns i ddweud diolch wrth bawb am y rhoddion yn ystod parti pen-blwydd Gareth Evans, Parcyrrhos tuag at elusen Arthritis Research UK. Codwyd cyfanswm o £1,050. Rydym yn gwerthfawrogi eich cyfraniad yn fawr iawn. Felly diolch yn fawr i bawb oddi wrth Gareth, Wendy ac Iwan.

Dydd Gŵyl Dewi

Mae Neuadd yr Hafod, Gorsgoch yn cynnal noson o adloniant a phryd o fwyd i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi ar y 5ed o Fawrth. Yr adloniant bydd Toni Carrol (comedian) a Dave Richards (canwr). Cysylltwch â Wendy ar 07875 289431, Rhian ar 07807 238441 neu Geraint ar 01570 434238 os ydych am archebu tocyn ar gyfer y noson arbennig hon. Pris tocyn yw £20.

Ward Llanwenog

Noson yng nghwmni Helen Howells, Tŷ Cam, Llanwenog yn siarad am ei gwaith gyda Chyfoeth Naturiol Cymru ac am fannau o ddiddordeb i ymweld a hwy yn Ward Llanwenog ar nos Fercher, 24ain o Chwefror am 8y.h. yn Cefnhafod, Gorsgoch. Trefnir gan Gynghrair Ward Llanwenog ac mae croeso cynnes i bawb.

Siarad Cyhoeddus



Cynhaliwyd cystadleuaeth Siarad Cyhoeddus Cymraeg C.Ff.I. Ceredigion yn Felin-fach yn ddiweddar.

Teulu o siaradwyr o C.Ff.I Llanwenog oedd ar y brig yn y gystadleuaeth dan 26 oed - Enfys Hatcher yn ennill cwpan y Siaradwr Gorau, ei brawd Gethin a'u cyfnither Elin Jones gyda chwpan y tîm gorau.

Cinio Sioe Gorsgoch a C.Ff.I. Llanwenog 2015

Cynhaliwyd Cinio Sioe Gorsgoch a C.Ff.I. Llanwenog yng Nghefn Hafod, Gorsgoch, ar yr 16eg o Ionawr. Daeth swyddogion a chefnogwyr y Sioe ynghyd i wleda ar fwyd blasus Eiddwen ac i fwynhau areithiau bywiog gan y siaradwyr gwadd, sef Rhys Davies, Tyngrug Isaf, ac Iwan Evans, Parcyrrhos. Prif elusen Sioe 2015 oedd Nyrsys Cymunedol Meddygfeydd Llambled, Llanybydder a Llandysul, a braf oedd medru cyflwyno siec o £4,000 iddyn nhw. Hefyd, cyflwynwyd sieciau o £1,000 i Neuadd yr Hafod, Gorsgoch, a £250 i C.Ff.I. Llanwenog. Diolchwn i bawb unwaith yn rhagor am eu gwaith caled, cefnogaeth a'u haelioni.

Gwelir y llun ar dudalen 31 (Chwith i Dde): Cerys Lloyd (Ysgrifennydd y Babell), Byron Williams (Is-gadeirydd a chynrychiolydd Neuadd yr Hafod), Eiddwen Hatcher (yn cynrychioli nyrsys cymunedol Llambled a Llanybydder), Rhys Davies (siaradwr gwadd), Gareth Evans (Cadeirydd), Iwan Evans (siaradwr gwadd), Cathy (yn cynrychioli nyrsys cymunedol Llandysul), Gwennan Jenkins (Trysorydd) a Menna Williams (Ysgrifennydd y Cae a chynrychiolydd o C.Ff.I. Llanwenog).

C.Ff.I. Ceredigion

Cafwyd amser prysur iawn cyn y Nadolig wrth i'r aelodau gystadlu ar lefel sir ac yn genedlaethol a dyma ni wedi dechrau arni yn barod ym mis Ionawr gyda chwys y sir - y gystadleuaeth gyntaf ar y calendr.

Daeth dros 100 o aelodau brwdfrydig i Neuadd Llanddewi-Brefi ar Nos Wener y 27ain o Dachwedd i gystadlu yn Chwaraeon Dan Do'r Sir. Gyda chystadlaethau yn cynnwys tenis bwrdd, dominos, snwcer, pwl a tipit, roedd 'na rywbeth at ddant pawb. Llongyfarchiadau i Glwb Llanwenog am ennill ar ddiwedd y cystadlu gyda Troedyaaur yn 2il a Llangeithio a Llangwryfon yn gydradd 3ydd.

Cynhaliwyd Siarad Cyhoeddus Saesneg y sir ar ddydd Sul, 6ed o Ragfyr yng Nghanolfan Addysg Felinfach, drwy nawdd caredig Gwasg Gomer Press. Bu 9 tîm yn cystadlu yn y Darllen ar gyfer aelodau o dan 14 oed ac fel hyn dyfarnodd y beirniad Mrs Viv Newman: Cadeirydd – 1af Beca Jenkins, Pontsian A; 2il Ifan Davies, Felinfach A; 3ydd Elin Davies, Llanwenog A. Darllenwr – 1af Beca Jenkins, Pontsian A; cydradd 2il Hanna Davies, Llanwenog A a Hanna Parry, Pontsian B;

Tîm – 1af Llanwenog A; 2il Pontsian A; 3ydd Pontsian B.

Yn y gystadleuaeth dan 16 oed, roedd 10 tîm yn cystadlu - tipyn o sialens i'r beirniad Mr Tomos a Mrs Elin Davies, Sir Gâr. Dyma'r canlyniadau: Cadeirydd – 1af Ffion Evans, Llanwenog B; 2il Catrin Rees, Mydroilyn; 3ydd Marged Ioan, Caerwedros; Siaradwr – 1af Nest Jenkins, Lledrod B; 2il Iwan Evans, Llanwenog B; cydradd 3ydd Heledd Evans, Caerwedros A a Rhys Davies, Llanwenog B; Diolchyd – 1af Rebeca James, Llanddewi Brefi; 2il Sara Patterson, Caerwedros B; 3ydd Wiliam Jenkins, Lledrod A; Tîm – 1af Llanwenog B; 2il Caerwedros A; 3ydd Lledrod B.

Ar ffurf Seiat Holi oedd y gystadleuaeth i aelodau dan 21 oed gyda Mrs Nanna Ryder yn beirniadu. Roedd 3 tîm yn cystadlu ac fel hyn gosodwyd y timoedd: Cadeirydd – 1af Sioned Davies, Llanwenog; 2il Martha Dafydd, Llangeithio; 3ydd Angharad Evans, Mydroilyn; Siaradwr – 1af Meleri Morgan, Llangeithio; 2il Bleddyn McAnulty Jones, Llangeithio; 3ydd Lauren Jones, Llanwenog; Tîm – 1af Llanwenog; 2il Llangeithio; 3ydd Mydroilyn.

Mrs Melda Grantham, Llandysul oedd wrth y llyw yn beirniadu cystadleuaeth y Ddadl i'r aelodau dan 26 oed gyda 6 tîm yn cystadlu. Dyma'r canlyniadau: Cadeirydd – 1af Elen Thomas, Pontsian A; 2il Lisa Jones, Pontsian B; 3ydd Elin Jones, Llanwenog; Siaradwr – 1af Endaf Griffiths, Pontsian B; cydradd 2il Luned Mair, Llanwenog and Cennydd Jones, Pontsian A; Tîm – 1af Pontsian A; 2il Pontsian B; 3ydd Llanwenog.



Llongyfarchiadau i Glwb Llanwenog ar ennill Cwpan Emrys Jones ar gyfer y clwb gyda'r marciau uchaf ar diwedd y cystadlu. Llongyfarchiadau i Langeithio am ddod yn 2il a Phontsian am ddod yn 3ydd. Pob Lwc i bob aelod fydd yn cynrychioli'r Sir yng Nghystadleuaeth Siarad Cyhoeddus Saesneg C.Ff.I Cymru ar yr 2il o Ebrill yn Llanellwedd.

Ar Ddydd Llun a Dydd Mawrth y 30ain o Dachwedd a'r 1af o Ragfyr, bu nifer o aelodau yn cystadlu yn y Barnu Stoc ar draws nifer o adrannau gwahanol yn y Ffair Aeaf yn Llanellwedd. Llongyfarchiadau i'r aelodau canlynol: Barnu Carcas Wyn: Dan 16 – Steffan Rattray – 2il; Dan 18 – Alaw Rees – 1af; Dan 21 – Elin Rattray – 1af; Tîm – 1af. Barnu Wyn Cigyddion: Dan 16 – Alaw Rees – 4ydd; Dan 18 – Dewi Davies – 4ydd; Dan 26 – Morfudd Pugh – 3ydd; Tîm – 2il. Barnu Gwartheg Cigyddion: Dan 26 – Dyfrig Williams – 1af; Tîm – 4ydd. Paratoi Oen: Trystan Davies – 4ydd. Ar ôl diwedd y cystadlu yn y Ffair Aeaf, daeth Ceredigion i'r 3ydd safle.

Cafwyd noson i'r brenin yn Nawns y Frenhines a'r Ffarmwr Ifanc yn Pier Pressure, Aberystwyth ar Nos Fawrth y 29ain o Ragfyr, gyda llond lle o ffermwyr ifanc bywiog. Ar ôl dathlu'r Nadolig, braf oedd cael cymdeithasu yng nghwmni aelodau'r sir. Cafwyd gwledd yn y dderbynwest o dan arweiniad y Frenhines, Enfys Hatcher a'r Ffarmwr Ifanc, Dion Davies ynghyd â morwynion y Sir: Lisa Jones, Elin Calan Jones, Rhiannon Davies a Sioned Davies. Unwaith eto, Huw Bryant oedd brenin y gerddoriaeth ac aelod arall o'r mudiad, Elen Williams yn gyfrifol am dynnu lluniau yn y

ddawns – ewch i dudalen Facebook y sir i'w gweld.

Cynhaliwyd Cwis y sir i aelodau hŷn y clybiau ar yr 11eg o Ionawr yng Ngholeg Llambed. Cafwyd noson llawn hwyl o dan arweiniad Llywydd y Sir, Edwina Jones, gyda nifer o gwestiynau hwylus ar bynciau amrywiol gan gynnwys natur, y byd, ffilm a theledu ac wrth gwrs, amaeth. Llongyfarchiadau i Glwb Llangwryfon am ennill yr adran gyffredinol ac amaeth gyda Chaerwedros B yn 2il a Troedyaaur 1 a Troedyaaur 2 yn gydradd 3ydd.

Bydd yna wledd o gystadlu gyda'r Ddrama yn Theatr Felinfach yn ystod wythnos hanner tymor o Nos Lun y 15fed i Nos Wener y 19eg o Chwefror. Bydd tocynnau ar werth ar y 3ydd o Chwefror yn uniongyrchol o'r Theatr. Dyma drefn yr wythnos o Ddramâu:

Nos Lun: Llanwenog, Lledrod, Trisant.

Nos Fawrth: Mydroilyn, Caerwedros, Troedyaaur

Nos Fercher: Llangwryfon, Llanddewi-Brefi, Talybont

Nos Iau: Tregaron, Felinfach, Llangeithio

Nos Wener: Bro'r Dderi, Pontsian, Penparc

Bydd cyngerdd ar y Nos Lun canlynol gyda'r tri clwb buddugol yn perfformio unwaith eto. Diolch i'r Theatr am eu cydweithrediad bob amser. Cafwyd noson werthfawr 'Tec a Sbec' i baratoi at gystadleuaeth y ddrama gyda chyfarwyddwyr ac aelodau'r clybiau yn cael cyngor cyfarwyddo a chyfle i weld gwisgoedd a phropiau'r Theatr.

Clwb 100 Mis Rhagfyr

1af: Ann Lloyd Thomas, Llwynderw, Llanarth. 2il: Eilir ac Enid Jenkins, Esgairwen, Mydroilyn. 3ydd: Nia Wyn Davies, Maesglas, Drefach.

Clwb 100 Mis Ionawr

1af: C.Ff.I Dihewyd. 2il: Delyth a Geraint Morgan, Ysgol, Bwlchllan. 3ydd: Eifion ac Elenid Jones, Talar Wen, Cwmsychpant.

Dyddiadau i'r dyddiadur:

15fed – 19eg o Chwefror: Cystadleuaeth Drama'r Sir, Theatr Felinfach

Dydd Sul, 21ain o Chwefror: Cyfveliadau Aelod hyn a Iau, Canolfan Addysg Felinfach

Nos Lun, 22ain o Chwefror: Cyngerdd Drama'r Sir

Nos Iau, 3ydd o Fawrth: Cyfveliadau Brenhines, Ffarmwr Ifanc a Dirprwyon y Sir

Nos Wener, 4ydd o Fawrth: Dawns Dewis Swyddogion

Adloniant gan Rhian Dafydd



Beth oedd eich adduned blwyddyn newydd eleni? Ydych chi wedi ystyried gwirfoddoli fel stiward yn Theatr Felinfach? Rydym yn edrych am aelodau newydd i ymuno â'r tîm drwy'r amser, felly beth amdani? Cyfle da i gwrdd â phobl, manteisio ar weld amrywiaeth o sioeau cymunedol a phroffesiynol yn ogystal â lansiadau a digwyddiadau megis Eisteddfodau'r Urdd. Os oes gennych ddiddordeb, cysylltwch â Tess yn Theatr Felinfach ar 01570 470697 neu ebostio teresa.price@ceredigion.gov.uk.

Yn y Clwb Dawns, ceir sesiynau dawns creadigol i blant 4-6 oed sy'n edrych ar ddatblygu sgiliau creadigol, corfforol a chanolbwyntio, ond sydd hefyd yn cynnig lot o hwyl! Cynhelir sesiynau wythnosol bob Dydd Mawrth, 4.00-4.45y.p. yn ystod y tymor academiaidd, £2 y plentyn.

Sesiynau stori, dawns a chân yn y Gymraeg i blant 0-3 oed a'u rhieni yw Tic Toc. Cynhelir y sesiynau bob bore Gwener, 10.00-11.00y.b. yn ystod y tymor academiaidd, £3 y plentyn a £1 i bob plentyn ychwanegol.

Sesiwn gymdeithasol i rai dros 50 oed yw Hwyl a Hamdden. Mae'r grŵp yn cwrdd bob prynhawn Mercher rhwng 1.30 a 3.00y.p. ac mae'r sesiwn yn amrywio o wythnos i wythnos, gan gynnwys siaradwyr, teithiau ac adloniant ysgafn.

Bydd y gwersi gwnïo yn ail gychwyn yn y Clwb Gwnïo ym mis Chwefror. Am wybodaeth bellach, cysylltwch ag Anneliese ar 01545 572365, 01570 470697 neu anneliesem@ceredigion.gov.uk.

Yn ddiweddar, ailwampwyd Y Gwndwn drwy grant gan gronfa'r Loteri Fawr Miliynau'r Bobl mewn cydweithrediad ag ITV Cymru Wales. Mae'n cynnig gofod gwych ar gyfer cyfarfodydd, gweithdai, ymarferion a mwy ac mae ynddo adnoddau cegin a all ymdopi ag anghenion arlwygo bychan. Cysylltwch â Tess am fwy o wybodaeth ar 01570 470697 neu ebostio teresa.price@ceredigion.gov.uk.

Brwydr Dros Ryddid

HANES HYNOD A CHYSYLLTIAD LLEOL

Ymhlith rhestr deg uchaf y llyfrau Cymraeg a werthodd orau yn y misoedd hyd at Nadolig 2015 yr oedd cyfrol 'Dianc i Ryddid'. Mae'r llyfr yn adrodd profiadau DT Davies fel carcharor rhyfel adeg yr Ail Ryfel Byd. Un o feibion Llanbed, Ioan Wyn Evans, wnaeth ysgrifennu'r gyfrol gyda DT Davies, ac yma mae'n crynhoi stori'r dyn hynod hwn, sydd bellach yn 97 oed.

Rai blynyddoedd yn ôl fe glywais i am hanes dyn o'r enw David Tom Davies, neu DT Davies. Ac ro'n i'n gwybod yn iawn am ei hanes e' fel rhywun oedd ar flaen y gad mewn gwleidyddiaeth leol. Am ddegawdau, fe fu'r dyn o Dryslwyn, sir Gaerfyrddin, yn gynghorydd sir, a'n Gadeirydd ar Gynghorau Sir Dyfed a Chaerfyrddin. Ond, beth o'n i ddim yn ei wybod oedd am ei brofiadau adeg yr Ail Ryfel Byd. A bois bach, dyna chi stori.

Hanes brwydr un dyn i sicrhau un hawl syflaenol – sef rhyddid – sydd yma, a hynny yn wyneb creulondeb a dioddefaint na allwn ni ei ddechymgu. Wedi cael ei gipio gan yr Almaenwyr ym Mrwydr Creta, Gwlad Groeg yn 1941, treuliodd dair blynedd yn garcharor rhyfel yn Awstria, Hwngari ac Iwgoslafia. Bu'n dyst i olygfeydd erchyll, ac fe gafodd e'i anrhydeddu â'r Military Medal am ei ddewrder a'i wroldeb.

Dwi ddim yn gwybod beth yw'ch barn chi, ond weithiau rwy'n teimlo bod rhai geiriau yn cael eu gor-dddefnyddio, neu'n cael eu defnyddio yn llawer ry rhwydd. Un gair sy'n cael ei glywed yn gyson yw 'arwr'. Er enghraifft, 'arwr pêl-droed,' 'arwr pop', ac yn y blaen – mae e'n air sy'n cael ei ddefnyddio wrth gyfeirio at wahanol bobl mewn amrywiol feysydd bob dydd.

Ond mae DT Davies yn ŵr sydd wir yn haeddu'r disgrifiad yna.

Dyma flas ar beth o gynnwys y llyfr, a rhan o stori unigryw DT. Mae'r darn isod yn ymwneud â chyfnod dreuliodd e' yng ngharchar Stalag 18A yn Wolfsberg, Awstria. Dim ond rhan fach o'r stori sy'n cael ei chroniclo fan hyn, wrth gwrs, ond gobeithio y byddwch chi'n cytuno bod ei brofiadau yn rhai sy'n werth eu cofnodi a darllen rhagor amdany'n nhw.

"Roedd rhyw dawch yn hofran o gwmpas Stalag 18A. Wy' ddim yn siwr beth oedd e', ond doedd e' ddim yn arogl pleserus o gwbl. Erbyn diwedd 1942, roedd cannoedd o Rwsiaid yno.

Roedd y Rwsiaid yn cael eu trin yn ofnadwy o wael. A dweud y gwir, ro'n nhw'n cael eu trin yn waeth nag unrhyw greadur – dyna beth oedd creulondeb. Byddai'r Rwsiaid yn cael eu cadw ar wahân i bawb arall a bois bach, roedd golwg arny'n nhw. Ro'n nhw'n edrych yn druenus. Iechyd y byd! Ro'n nhw denau, denau. A dweud y gwir, wy' ddim yn siwr a oedd digon o le gyda nhw i orwedd lawr hyd yn oed.

Ro'n nhw yn eu carpiâu a dim byd am eu traed, a do'n nhw'n cael braidd dim bwyd. Fe fydden ni'n eu gweld nhw wrth y ffensys neu'r weiren bigog oedd yn ein gwahanu ni a nhw, a byddai'n bois ni'n towlu ychydig bach o fwyd iddyn nhw – darnau o fara a rhyw bethau bach fel 'na. Wrth gwrs, do'n ni ddim i fod i wneud hynny, ac roedd y Naziâid yn trial ein hatal ni rhag gwneud ond ro'n ni i gyd yn teimlo cymaint o drueni drostyn nhw.


A beth oedd yn arbennig o drist i'w weld wedyn oedd pan fydden ni'n towlu bwyd atyn nhw, fe fyddai'r Rwsiaid ar lawr yn ymladd ymhlith ei gilydd am y tameidiau bach truenus, cymaint oedd eu hangen nhw am unrhyw fath o fwyd. Roedd hi'n anodd credu fod neb yn gorfod byw dan y fath amgylchiadau.

Roedd lot fawr ohonyn nhw'n ddifrifol o sâl ac yn diodde o wahanol glefydau, gan gynnwys typhus, haint sy'n cael ei ledu gan bryfetach pan fo rhywun yn byw mewn amgylchiadau brwnt heb ddigon o ddwr a maeth. O'n nhw'n marw bob dydd – sawl un ohonyn nhw.

Doedd e'n ddim byd i weld deg i ugain ohonyn nhw'n cael eu claddu bob dydd. Roedd e'n torri 'nghalon i weld beth oedd yn digwydd iddyn nhw, a beth oedd yn waeth fyth oedd nad oedd dim byd allen ni fel carcharorion ei wneud i'w helpu nhw.

'Sdim amheuaeth fod pethau cwbwl fochedd wedi digwydd y tu ôl i'r weiren bigog yn Wolfsberg. Er mor anodd oedd hi, ro'n i'n gorfod cau'r erchyllterau 'ma mas o'r meddwl. Dyna'r unig ffordd i ddod drwyddi. Ac yn syml iawn, yr hyn ro'n i'n trio canolbwyntio arno fe oedd byw. Dim ond byw. Tase rhywun yn dechrau meddylu am beth ddigwyddodd ac am beth allai ddigwydd, wel, wedyn doedd dim modd rhoi'r sylw dyladwy i'r hyn oedd angen ei wneud. A'r hyn ro'n i am ei wneud yn fwy na dim oedd dianc. Rhywle, rhyw ffordd, rhyw bryd."

'Dianc i Ryddid' gan DT Davies a Ioan Wyn Evans, Gwasg Gomer, £8.99.



O'r Cynghorau Bro



CYNGOR BRO LLANLLWNI

Cynhaliwyd y cyfarfod yn Neuadd Gymunedol Llanllwni, nos Lun 11 Ionawr 2016 am 8.00yh. Croesawyd yr aelodau i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.

Y Cae Chwarae - Cadarnhawyd bod y maes chwarae a'r adnoddau wedi'u harchwilio yn fanwl yn ystod yr wythnosau diwethaf gan Tom Jones ac Eric Davies. Nid oedd damweiniau i'w cofnodi ar y cae chwarae. Nodwyd bod angen holi Lyn Jones i lanhau y matiau yn ystod y gwanwyn. Torrwyd clawdd y cae chwarae gan Hefin Harries a phenderfynwyd yn unfrydol gan y Cynghorwyr anfon siec o £50 ato fel arwydd o ddiolch am ei waith.

Adnoddau Chwarae - Penderfynwyd cysylltu â Ian Edwards i drefnu bod archwiliad o'r adnoddau yn cael ei wneud tua Mis Mawrth 2016. Os na fyddai'r Clerc yn cael ymateb boddhaol, yna byddai'n cysylltu â Playdale.

Gwefan Llanllwni - Cytunwyd y byddai'r wefan yn cael ei diweddarau.

Y Cyngor Sir - Nodwyd eto bod angen llenwi'r tyllau yn yr heol: Glennydd – Cwmeri, Fferm Talardd – Aberceiliog, Ffynonddrain – Gwarewm, Gwaelod Rhiw Glyniced. Derbyniodd y Clerc ymateb i ddweud bod y Cyngor Sir yn siarad â Stuart Quick ac mi fyddai mewn cysylltiad yn y dyfodol agos.

Torri Clawdd - Pendderi - Prysg.

Roedd angen adolygu cyflwr yr heolydd yn gyffredinol yn y pentref yn enwedig y canlynol: Felin Gelli, Gelli Deg, Pentop – Gwarallt, Tan y Bryn a Brynhedd. Derbyniodd y Clerc ymateb gan Nicola Smith y byddai'n fodlon cael cyfarfod safle ar ddydd Gwener 22 Ionawr 2016 am 1.30yp. Oherwydd rheolau Iechyd a Diogelwch, dau Gynghorwr yn unig fyddai'n mynychu'r cyfarfod hwnnw. Nodwyd gan y Cynghorwyr y byddai angen tywys Nicola Smith o amgylch y pentref i ddangos y lleoliadau eraill roedd angen eu hatgyweirio.

Plannu Blodau – Derbyniodd Dewi Davies anfoneb am osod blodau yn y potiau yn y pentref yn ystod Haf – Gaeaf 2014 a Haf 2015 ac mae'r swm priodol wedi ei dalu.

Goleuadau – Nid oedd y goleuadau yn gweithio gyferbyn â'r ysgol ger garej Tegfan (Greenacres).

Diogelu gwaith papur y Cyngor Bro - Roedd y Clerc wedi archebu bocsys priodol.

Gohebiaeth - Cyflwynwyd y fantolen ddiweddaraf i'r Cynghorwyr a phennwyd y praesept.

Penderfynwyd cefnogi'r Gwasanaeth Cymorth a Gwybodaeth am Ganser.

Aberceiliog – Henfaes: Angen gosod arwydd llifogydd.

Roedd y Cyngor wedi derbyn gwybodaeth bod ci yn tresbasu ar y cae chwarae yn ddyddiol. Penderfynwyd anfon llythyr at y perchennog yn nodi bod cwn wedi'u gwahardd o'r cae chwarae.

Diwrnod o Hwyl - Cadarnhaodd y Cyngor y byddai'n noddi gwobrau 2016.

Goleuadau ger Tŷ'r Hers – Derbyniodd y Cynghorwyr ymholiad yn nodi os fyddai'n bosib i gael golau stryd ger y safle yma gan fod gweithgareddau yn cael eu cynnal yn yr ysgol gyda'r nos a'i bod hi'n dywyll i athrawon, staff a rhieni gerdded i'w ceir yn ystod misoedd y gaeaf.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a'u brwdfrydedd dros y plwyf.

Bydd y cyfarfod nesaf yn Neuadd Gymunedol Llanllwni ar 14 Mawrth 2016 am 8yh.



Gwallt gan Caryl

Yn Toriad Taelus Llanybydder:
Dydd Llun 9.00-7.00 a Dydd Mawrth 9.00-5.30
Teithiol:
Dydd Iau 9.00-2.30 a Dydd Gwener 9.00-5.00

Caryl Herrick
carylchw@hotmail.co.uk
Salon: **01570 481425**
Symudol: **07971629001**

LYN JONES

"At eich gwasanaeth"

- Torri porfa - o lawntiau bach i gaeau chwarae
 - Symud celfi
 - Unrhyw waith
- o gwmpas y tŷ a'r ardd
- Trwydded i gario gwastraff
 - Wedi yswirio'n llawn

01570 481029

Lakefield, Llanybydder
SA40 9RL



Gwobr Genedlaethol i Lyn Rees a Dawn Kenwright

Cynhaliwyd cinio nadolig y clwb yn y Talbot, Tregaron ar y 12fed o Ragfyr lle treuliodd dros hanner cant o aelodau noson bleserus yn cymdeithasu, gwledda ac yn dathlu llwyddiannau ei gilydd. Cyflwynwyd nifer o wobrau yn ystod y noson ac ymysg y rheiny, cafodd dau aelod blaenllaw a gwerthfawr y clwb, sef Lyn Rees a Dawn Kenwright, eu anrhydeddu gyda gwobr wrth "Athletau Cymru" am eu gwasanaeth i athletau. Mae'r ddau wedi rhoi blynyddoedd o wasanaeth i Sarn Helen, ac roedd Dawn yn un o'r pump a sefydlodd y clwb yn 1978. Mae'r ymroddiad a'r teryngarwch yn parhau hyd heddiw wrth iddi fod yn ysgrifenyddes y clwb am gyfnod hir iawn hyd nes iddi drosglwyddo'r cyfrifoldeb yn 2012, ac mae hi hefyd yn ysbrydoliaeth i gymaint o redwyr wrth iddi gystadlu mor frwd ac erioed ac yn dal i gynrychiolu ei gwlad. Lyn Rees yw llywydd y clwb, ac mae ef hefyd yn trefnu nifer fawr o rاسus y clwb ac wedi bod yn gwneud hynny ers diwedd yr 80au. Yn ogystal â rhedeg a chystadlu ei hunan dros y blynyddoedd, mae ef hefyd wedi annog ac ysbrydoli nifer o redwyr eraill yn cynnwys aelodau o'i deulu eu hun sy'n rhan annatod o'r clwb. Mae ein diolch i'r ddau hyn yn enfawr ac rydym fel clwb yn ymfalchio yn eu llwyddiant.

Sarn Helen yn cynrychioli Gorllewin Cymru



Fe wnaeth 7 o aelodau Sarn Helen gynrychiolu tîm Gorllewin Cymru mewn ras traws-gwlad a gynhelir yn flynyddol rhwng y gwahanol ranbarthau yn Llanfair y Muallt dechrau mis Rhagfyr ac roedd yr amodau yn wlyb a mwdlyd iawn! Fe redodd Beca Mai Roberts ras 2,210metr i ferched dan 13oed gan orffen yr 8fed merch i Orllewin Cymru mewn 9.24, ac roedd hi'n rhan o'r tîm a enillodd y wobr aur. Llwyddodd Caitlin Page i orffen y ras i ferched dan 20 yn 4ydd ac yr 2il ferch i Orllewin Cymru. Yn y ras 5,780metr i ferched hŷn, gorffennodd Caryl Wyn Davies



mewn 28.43 a'r 3ydd merch i Orllewin Cymru.

Fe wnaeth y dynion redeg 9,390metr gyda Glyn Price yn rhedeg ras dda i orffen y 4ydd dyn dros 40 i dîm Gorllewin Cymru mewn 38.31 ac roedd hefyd yn rhan o'r tîm a enillodd y fedal arian. Nigel Davies oedd yr 8fed dyn dros 40 i orffen i Orllewin Cymru mewn 44.42. Llwyddodd Richard Marks i

orffen yn 4ydd i ddynion dros 50 o fewn rhedwyr Gorllewin Cymru ac roedd ef hefyd yn rhan o'r tîm enillodd y wobr arian. Rhedodd Huw Price amser o 46.41 gan orffen yn 7fed rhedwr i Orllewin Cymru. Llongyfarchiadau i bob un ohonynt.

Canlyniadau eraill

Ynghanol prysurdeb paratodau a bwrlwm y Nadolig, roedd rhedwyr Sarn Helen yn dal i redeg a mynychu rاسus ar draws y wlad. Ar y 6ed o Ragfyr, cynhaliwyd ras 10k Aberystwyth gyda chynrychiolaeth dda o'r clwb yn cefnogi. Yr aelod mwyaf diweddar i ymuno â'r clwb, Ken Caulkett, oedd yr aelod cyntaf i groesi'r llinell allan o redwyr Sarn Helen mewn amser arbennig o 35.26 a'i osododd yn yr 8fed safle allan o 500 o redwyr. Yn dynn ar ei sodlau oedd enillydd categori dynion 45 sef Glyn Price mewn 36.58, e'i frawd Huw Price yn gorffen mewn 42.50 ac yn 4ydd dynion 50, ac aelod arall o'r clwb Paul Edwards yn cipio'r 3ydd safle i ddynion 60 mewn 42.60. Yn ras y merched, cipiodd Caryl Wyn Davies yr 2il safle yng nghategori y menywod agored mewn 42.59, gyda Kate McDermott yn gorffen yn 4ydd yn yr un categori mewn 46.34. Llwyddodd Helen Willoughby gipio categori y menywod dros 50 mewn 45.55 ac aelod newydd Delyth Crimes yn gorffen yn 3ydd menywod 45 mewn 57.46. Gwelwyd perfformiadau da gan aelodau eraill o'r clwb yn ystod y ras hon gyda George Eadon a Thomas Willoughby yn rhedeg eu amseroedd gorau; George yn rhedeg 41.41 a Thomas 43.41. Gorffennodd Mitchell Readwin mewn 47.06, Aneurin James 48.59 ac Emma Gray 66.05. Gwelwyd nifer o ieuenctid y clwb yn rhedeg y ras filltir ar hyd y prom, gyda Daniel Willoughby yn cipio'r 3ydd safle mewn amser arbennig o 6.06. Daeth Rhys Williams a Jack Caulkett yn ail yn eu categori oedran gyda Rhys yn gorffen mewn 6.20 a Jack mewn 6.24. Gorffennodd Sean Wood mewn 8.20 a'i osododd yn 4ydd yn ei categori oedran. Isabella Caulkett oedd y ferch gyntaf i orffen yng nghategori y merched 13-15oed mewn 7.43.

Tra bod rhai yn dal i fwyta'u twrci ar Wyl San Steffan, fe deithiodd 6 aelod o'r clwb i Grymch i herio'r tywydd garw wrth redeg y ras flynyddol 6 milltir o'r clwb rygbi. Simon Hall oedd y cyntaf o'r clwb i groesi'r llinell derfyn a hynny yn y 3ydd safle mewn 37.32, gyda Glyn Price yn gorffen mewn 38.04 ac yn gyntaf yng nghategori y dynion 40. Daeth Nigel Davies yn ail i Glyn yn yr un categori mewn 41.10. Cipiodd Huw Price y 3ydd safle yng nghategori y dynion 50 mewn 43.05, Tony Hall yn gyntaf yn y dynion 60 mewn 43.38, a Mitchell Readwin yn gorffen mewn 47.32.

Ychydig ddyddiau'n ddiweddarach, cynhaliwyd ras heriol y "Seven Sins" yn Fforest y Ddena, Swydd Gaerloyw. Roedd y ras 7 milltir hon, ar hyd llwybrau'r fforest, yn cynnwys 7 dringfa serth a 2 twnel dŵr a'r pedwar hynny o Sarn Helen oedd yn barod i rhoi cynnig arni oedd Carwyn Davies, Eleri Rivers, Aneurin James ac Helen Willoughby. Roedd cwblhau'r cwrs yn gamp aruthrol yn ei hunan, ond roedd gwneud hynny o dan 60 munud i ddynion a 70 munud i ferched yn haeddu gwobr ychwanegol sef crys-t; a do'n wir fe lwyddodd Carwyn i gwblhau'r cwrs mewn 59.12 a'i osododd yn y 6ed safle ond yn 4ydd yn ei categori oedran ac yn bwysicach na dim fe gafodd ei gryst! Gorffennodd Eleri yn 3ydd yng nghategori'r merched 35 mewn 71.28, tra bod Aneurin wedi gorffen mewn 78.02 a Helen yn cipio'r 3ydd safle i ferched 50 mewn 84.06.

Ar ddydd Sul, yr 17eg o Ionawr, cynhaliwyd rاسus newydd sbon yn Nhregaron fel rhan o ddigwyddiadau Campau Caron sy'n cael eu trefnu gan griw brwdfrydig o'r ardal. Bwriad Campau Caron yw hybu iechyd a ffitrwydd yn yr ardal trwy gynnal amrywiol weithgareddau yn ystod y flwyddyn. Roedd y digwyddiad cyntaf hwn yn cynnwys ras hwyl 1km, yn ogystal â 5k a 10k ar hyd yr hen rheilffordd. Roedd dros 100 o redwyr wedi cymryd rhan yn y dair ras a gwelwyd cynrychiolaeth dda o ieuenctid ac oedolion clwb Sarn Helen. Llwyddodd Kenneth Caulkett orffen yn ail yn y 5k, mewn 18:25 a'r 10k mewn 36:59 a hynny 3 eiliad tu ôl i'r enillydd. Gwelwyd canlyniadau arbennig wrth ieuenctid y clwb yn y ras 5k wrth i Daniel Willoughby orffen mewn 23:15 a Jack Caulkett yn agos iawn iddo mewn 24:10. Gorffennodd Jamie Jones mewn 26:07 tra fod y chwirydd Isabella a Violet Caulkett wedi gorffen y ras mewn 30:23 a 32:43 yn yr un drefn. Hefyd, fe redodd un o oedolion y clwb, Emma Gray y 5k mewn 34:13. Yr ail aelod o'r clwb i orffen y ras 10k oedd Paul McDermott a hynny mewn amser da o 41:42 tra fod Mike Davies yn dangos arwyddion da ei fod yn gwella o'i anaf wrth orffen mewn 42:28 eiliadau tu ôl i Rhodri Gomer a ddaeth yno gyda'r criw teledu i hyrwyddo'r digwyddiad ar raglen 'Heno'. Gorffennodd Dee Jolly fel yr 2il ferch mewn amser arbennig o 42:59, yna Thomas Willoughby mewn 43:59, ac fe wnaeth Eleri Rivers redeg 2 funud yn gynt na'i amser gorau ar gyfer 10k mewn 44:40 a'i gosododd yn 3ydd merch. Gorffennodd Mitchell Readwin mewn 48:30 ac Aneurin James mewn 50:25. Cafwyd llawer o hwyl yn y ras 1km ymysg ieuenctid y clwb, gyda Rhys Williams yn ennill a Beca Jones, Maddie Caulkett, Sion Wood ac Harri Rivers i gyd yn rhedeg yn dda i gwblhau'r cwrs.

Llanfair Clydogau

Bedydd Harry Gwyn

Cafwyd achlysur pleserus iawn ar Sul Adfent, yr olaf ym mis Tachwedd, pan ddaeth tyrfa fawr ynghyd i Eglwys Santes Fair i ddathlu bedydd Harry Gwyn. Mae Harry Gwyn yn fab i Anwen a Jonny Bell, Maesgwyn ac unig ŵyr Gwyneth a Billy Jones, Noyadd. Cynhaliwyd gwasanaeth hyfryd gan y Ficer Bill Fillery, gyda'r Eglwys wedi ei addurno yn brydferth gan Gwyneth ac yn llawn o ffrindiau a theulu. Y mamau bedydd oedd Ffion Thomas, Rhiannon Evans a Caron James a'r tad bedydd oedd Matthew Bell. Ar ôl y gwasanaeth aeth pawb i'r neuadd lle roedd Anwen a'i ffrindiau wedi addurno'r ystafell yn hyfryd ar y thema glas. Cafwyd 'hog roast' wedi ei baratoi gan Brian Beynon, Llain y Castell, gyda'r ychwaneg o fwyd wedi eu baratoi gan Anwen. Y gacen fedydd oedd cacennau cwpan wedi eu gwneud a'u haddurno gan Joyce Dixon. Cafwyd diwrnod hapus iawn yng nghwmni teulu a ffrindiau.

Canu Carolau

Erbyn hyn, ar ôl deunaw o flynyddoedd, mae'r arferiad o fynd o amgylch y pentref yn canu carolau i godi arian at achosion teilwng wedi dod yn draddodiad. Ar nos Lun, y 14eg o Ragfyr a nos Iau, yr 17eg o Ragfyr, aeth tua dwsin o bobol allan i ganu, y noson gyntaf o amgylch y Llanfair fynyddig a'r ail noson o gylch y pentref a Heol Llanfair. Ar ôl canu ar y nos Iau, cafwyd cawl blasus wedi ei baratoi gan Gwyneth, Noyadd, a mins peis wedi eu rhoi gan bobol eraill y pentref. Roedd y cwbl yn agored i bawb ac fe ddaeth grŵp niferus ynghyd i fwynhau'r noson.

Ar y dydd Sul canlynol, cynhaliwyd gwasanaeth garolau'r pentref yn Eglwys Santes Fair o dan ofal y Ficer Bill Fillery. Daeth cynulleidfada ynghyd i ganu ac i wrando ar neges y geni gyda sawl un o'r Capel a'r Eglwys yn cyfrannu. Darllenwyd sawl darn o farddoniaeth gan y ficer ac eraill. Efallai uchafbwynt y gwasanaeth oedd cyfraniad y plant yn canu can hyfryd a swynol. Diolch i Llinos, Ffion, Martha, Sarah ac Elonwy am eu cyfraniad bendigedig. Diolch i Mrs Heini am ei chydweithrediad.

Ar ôl y gwasanaeth, cafwyd lluniaueth ysgafn yn y neuadd i roi cyfle i bawb fwynhau paned a chlone. Rhwng popeth, casglwyd swm sylweddol eleni eto a penderfynwyd rhoi yr arian i helpu teulu lleol Panthaw, Llwynygroes, ar ôl y ddamwain erchyll a ddigwyddodd ar y fferm i Andrew Jones. Diolch i bawb am eu caredigrwydd a rhoi mor hael at yr achos.

Codi Arian

Bu Llinos ac Elonwy Thomas, Awelon, a Maddy Thorogood, Royal Oak, Cellan yn canu carolau o amgylch Cellan un noson cyn y Nadolig gan gasglu swm sylweddol o £121.90.

Roeddynt wedi penderfynnu yr hoffent wneud rhywbeth i helpu plant oedd yn llai ffodus na nhw. Cafodd yr arian eu roi i 'UNICEF Emergency Children's Fund' sydd yn helpu plant mewn gwledydd o amgylch y byd lle mae trychineb yn taro. Maent yn gobeithio gwneud rhywbeth tebyg eto pan ddaw Nadolig nesa. Diolch i bawb a gyfrannodd mor hael ac i Llinos, Elonwy a Maddy am gael y syniad a bod mor feddylgar.

Y Capel a'r Eglwys

Mae adnewyddiadau wedi cymryd lle yng Nghapel Mair a'r Eglwys yn ddiweddar. Mae'r Eglwys wedi gweld gwelliannau i'r golau a'r gwresogi a'r Capel wedi ei ail beintio. Da fod y llefydd pwysig hyn yn cael gofal.

Pen-blwydd Arbennig

Dathlodd Ian Evans, Esgairmaen, ben-blwydd arbennig ganol mis Rhagfyr. Iechyd da i chi Ian i'r dyfodol.

Cydymdeimlad

Trist iawn ac annisgwyl oedd y newydd am farwolaeth Marian Roberts, Cyswch, Cwmann, a gynt o Cyswch, Llanfair Clydogau. Roedd Marian yn nabyddus iawn yn yr ardal, wedi ei magu yn Llanbed, ac yn briod a'r diweddar Ken Roberts a ffermio yn Llanfair am flynyddoedd lawer. Roedd Marian hefyd yn athrawes a dros y blynyddoedd diwethaf cyn iddi ymddeol, buodd yn athrawes peripatetig mewn ysgolion lleol. Cynhaliwyd ei hangladd yn yr Eglwys Santes Fair ar y 23ain o Ragfyr dan ofal y Ficer Bill Fillery a'i chladdu yn y fynwent gerllaw. Estynnwn gydymdeimlad dwys a'r plant Georgina a Jason a'r holl deulu a'i wyrion Osian a Sioned oedd mor annwyl iddi.

Hefyd yn gynharach yn y mis cynhaliwyd gwasanaeth angladdol Barbara Tucker yng Nghapel Gorffwys Gwilym Price a'u feibion. Roedd y Capel yn llawn o'i ffrindiau oedd wedi dod i ddangos eu parch tuag ati. Cafodd wasanaeth parchus yng ngofal y Ficer Bill Fillery gydag Alan Leech yn talu teyrnged iddi ac yn hel atgofion melys am ei bywyd yn ein plith.

Bowlio Mat Byr

Mae bowlio yn y neuadd yn parhau i fod yn boblogaidd ac o bob son mae'r safon yn gwell. Bu'r gem ddiweddar rhwng Llanilar a Llanfair dipyn yn fwy agos na'r tro cynt iddynt gwrdd. Pob hwyl am weddill y tymor.

Gwellhad Buan

Drwg oedd clywed fod Ceri Cranfield, Bronhaul, nôl yn yr ysbyty yn dioddef o dwymyn glandiwlwr. Mae Glennis Gratwick, Y Ddol yn yr ysbyty yn Hwlfordd ar hyn o bryd wedi cael llawdriniaeth ac hefyd Patricia Boothby, Dolawel newydd ddod adref o'r ysbyty ar ôl triniaeth. Dymunwn wellhad buan iawn iddynt oll.

Cwmsychpant

Siaradwyr o fri yn y Cwm



Enillodd Beca Jenkins, Hafan y Cwm ac aelod o C.Ff.I. Pontsian y Llefarydd Gorau a'r Cadeirydd Gorau dan 14 oed yn Siarad Cyhoeddus Saesneg CFfI Ceredigion ac hefyd enillodd y Darlennydd Gorau o dan 14 oed yn y Siarad Cyhoeddus Cymraeg yn ddiweddar. Roedd Beca hefyd yn aelod o dîm Pontsian a ddaeth yn 3ydd o dan 14 oed. Da iawn ti a phob lwc i ti yng Nghymru yn ystod dechrau mis Ebrill.



Sioned Davies, Llys y Wawr enillodd y cwpan ar gyfer y Cadeirydd gorau o dan 21 oed yn Siarad Cyhoeddus Saesneg CFfI Ceredigion cyn y Nadolig a chafodd y 3edd wobwr fel Cadeirydd o dan 21 yn y Siarad Cyhoeddus Cymraeg hefyd.

Ysgol Sul

Yng nghwrdd cyntaf 2016 daeth ymwelydd pwysig i'r Capel sef y dyn ei hyn, Siôn Corn. Roedd ei sach yn llawn o anrhegion i'r plant.

Pen-blwydd arbennig

Dathlodd Rob Pollock, Brynmeddyg ben-blwydd arbennig ar ddechrau mis Ionawr. Gobeithio i chwi fwynhau eich diwrnod.



Cynhaliwyd cystadleuaeth Siarad Cyhoeddus Saesneg CFfI Ceredigion ar Gampws Felin-fach yn ddiweddar. Endaf Griffiths, Penlanfawr ac aelod o C.Ff.I. Pontsian oedd enillydd Cwpan y Siaradwr Gorau dan 26.

Roedd Endaf yn aelod o dîm Pontsian o dan 21 yn y Siarad Cyhoeddus Cymraeg a ddaeth yn 2il. Pob lwc i tithau hefyd yng Nghymru.

Gwellhad

Hyfryd yw gweld John Jones, Penrheol o gwmpas unwaith eto yn dilyn cael triniaeth yn ysbyty Glangwili yn ystod yr wythnosau diwethaf.

Gwasanaeth Bore Nadolig

Hyfryd iawn oedd bod yn bresennol yn y gwasanaeth ar Fore Dydd Nadolig yng Nghapel y Cwm. Roedd y Capel wedi ei addurno yn hyfryd i'r Ŵyl ac fe gymerodd aelodau'r Ysgol Sul rannau arweiniol yn y gwasanaeth. Roedd cynulleidfada dda iawn yno ac fe ddaeth pob plentyn ag anrheg fechan i'w agor yn y Capel. Rhannwyd y cymundeb ac fe aeth pawb tuag adref i baratoi gwledd y Nadolig. Diolch i'r Parch Wyn Thomas am ei gyfraniad sbesial fel arfer ar Fore'r Nadolig ac i Eimir Ryder am ei gwasanaeth wrth yr organ.

Siarad Cyhoeddus C Ff I Ceredigion.

Llongyfarchiadau MAWR i holl blant yr ardal, boed yn aelodau o Glwb Llanwenog neu Pontsian, am eu llwyddiant yn y Siarad Cyhoeddus Saesneg a Chymraeg yn ystod yr wythnosau diwethaf.

Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn yn ddwys gyda Mrs Betty Jones, Delfan a theulu Talarwen yn dilyn colli brawd yng nghyfraith ac ewythr yn Edgar Jones gynt o Gaerfyrddin.



Mwy na brocer yswiriant.
Mwy na yswiriant fferm.



Gweithio'n lleol? Byw'n lleol?
Yswirio'n lleol.

Gwasanaethau Yswiriant FUW
21 Stryd Fawr, Llanbed
Ceredigion, SA48 7BG

Swyddfa: 01570 422556
Carys Davies: 07890 883346
Gwion James: 07980 608337

www.fuwinsurance.co.uk

Mae Gwasanaethau Yswiriant FUW Cyf yn cael ei awdurdodi a'i reoli gan y
"Financial Conduct Authority". Rhif Cofrestru 615251.



CELFI CEGIN A 'STAFELL
WELY, ATELOGION CEGIN
WEDI EU FFITIO,
TEILS WAL A LLAWR

DOLGADER,
SGWAR Y FARCHNAD,
LLANYBYDDER
01570 480257

COMPASS
OFFICE
SUPPLIES

Am eich holl
ddeunydd swyddfa



Uned 12 Stâd Ddiwydiannol
Llambod, Heol Tregaron,
Llambod.

☎ 01570 422955
☎ 01570 422232

Oh My Cod

Siop Pysgod a Sglodion

**19 Stryd Fawr,
Llanbed**

Oriau Agor:
Mawrth - Sadwrn 12yp - 9yh
Sul - Llun - Ar Gau

CANOLFAN ADDURNO
AA
A

Dewis arbenig o bapur, paent ac
offer i wneud addurno yn bleser.

Llyfrau Patrwm, Offer llaw a
phwerus, Polion a thraciau llenni,
gwasanaeth torri allwedd i
pheiriannau cymysgu paent
Dulux a Leyland.

Arbenigedd ar garreg eich drws.
3 Stryd y Bont
Llanbedr Pont Steffan
01570 423156

Ysgol Bro Pedr



Bu 19 o ddisgyblion o Ysgol Bro Pedr yn coginio yn rownd gyntaf Cogurdd a phawb wedi gwneud eu gwaith â
graen. Dyma'r canlyniadau: 1af Austin Thomas, 2ail Ifan Meredith, 3ydd Michael McDonagh, 4ydd Dewi Dudley.



Dion Deacon Jones, disgybl ym mlwyddyn 2, Ysgol
Bro Pedr, sydd yn chwarae i dîm dan 7 Abertawe ac a
fu'n chwarae yn erbyn Arsenal yn ddiweddar. Dal ati
Dion.

Ysgol Bro Pedr Campws Cynradd

Cafwyd Gwasanaeth Garolau hyfryd yng nghapel Soar gydag holl
ddisgyblion yr ysgol o flynyddoedd 1 i 6 yn cymryd rhan, yn ogystal ag
eitemau gan ddisgyblion blynyddoedd 7, 8 a 9. Diolch i bawb, yn blant
ac yn staff, am eu gwaith diflino ac yn arbennig i Swyddogion ac aelodau
Capel Soar am eu cymorth ac am gael defnyddio'r Capel. Casglwyd £412
ar y noson a bu disgyblion blwyddyn 6 draw yng Nghanolfan y Bont yn
cyflwyno'r arian ac yn diddanu disgyblion. Byddant yn defnyddio'r arian i
archebu adnoddau i'r disgyblion.

Bu disgyblion yr Uned dan bump yn cynnal cyngerdd yn yr ysgol a hyfryd
oedd eu gwyllo'n perfformio gyda graen a diolch i bawb a fu'n paratoi.
Diolch i Miss Sandra Davies am ei gwaith diflino yn cyfeilio trwy gydol y
flwyddyn.

Bu disgyblion blwyddyn 2 a blwyddyn 6 yn creu addurniadau allan o glai
a chardiau Nadolig i'w gwerthu i rieni a diolch i bawb a fu ynghlwm â'r
trefniadau.

Cafwyd llawer o hwyl yng nghystadleuaeth pêl-rwyd yr Urdd yn chwarae
yn erbyn ysgolion y cylch a diolch i Mrs A Jones am hyfforddi a threfnu.
Daliwch ati i ymarfer ferched.

Mae'r disgyblion yn brysur yn paratoi ar gyfer ein Heisteddfod Gwyl
Ddewi ar hyn o bryd a gynhelir ar y 1af o Fawrth. Bydd croeso i rieni i
ymuno â ni yn y dathliadau yn ôl yr arfer.

Llongyfarchiadau i Niah Bouvet, Dinas View, Llansawel sy'n ddisgybl ym
Mro Pedr am basio Gradd 2 gydag anrhydedd. Cafodd Niah 88% a marciau
llawn yn y theori.



Pobyddion Lewis gyda disgyblion blynyddoedd 1 a
2, Ysgol Bro Pedr yn dangos sut i bobi bara fel rhan o
thema'r tymor.



Daeth Pobyddion Lewis i'r ysgol i
ddysgu disgyblion blynyddoedd 1 a 2
sut i goginio bara fel rhan o thema'r
tymor a diolch iddynt am roi o'i
hamser ac i Mrs Young am drefnu.
Bu'r disgyblion wrthi'n brysur yn
coginio a bwyta tost blasus tu hwnt!

Cafodd disgyblion blwyddyn 1 y cyfle i weithio gyda busnes yn y dref sef “Y Parlwr Pinco”. Bu’r disgyblion yn brysur yn casglu ac yn golchi poteli llaeth bach ac aethpwyd ati gyda Anthea Jones o’r “Parlwr Pinco” a Miss Anita i greu iglw gyda’r poteli gwag.

Cafodd yr iglw ei osod a’i oleuo yn ffenestr Siop “Y Parlwr Pinco” a bu disgyblion blwyddyn 1 allan yn y dref yn gweld yr iglw yn y ffenestr.



Diolch i dîm y “Bible Explorers” am ddod i gyflwyno Sioe Bypedau i ni - cafwyd tipyn o hwyl yn eu cwmni.

Mae Dion Deacon Jones sy’n ddisgybl ym mlwyddyn 2 wedi cael profiadau arbennig yn ddiweddar. Mae e’n chwarae i dîm pêl-droed dan saith Abertawe ac yn ddiweddar fe fu yn chwarae yn erbyn Arsenal. Da iawn ti Dion – gobeithio y cawn dy weld yn chwarae yn Stadiwm y Liberty yn fuan.



Bu 19 o ddisgyblion blynyddoedd 4, 5 a 6 yn coginio Salad Groegaidd yn rownd gyntaf cystadleuaeth Cogurdd. Gwnaeth pawb eu gwaith yn arbennig o dda a diolch yn fawr i Mr Aled Dafis am feirniadu. Dyma’r canlyniadau: 1af Austin Thomas, 2ail Ifan Meredith, 3ydd Michael McDonagh, 4ydd Dewi Dudley. Daliwch ati i goginio a phob hwyl i ti Austin yn y gystadleuaeth sirol.

Ysgol Bro Pedr – Campws Hŷn



Cymrodd fyfyrwyr Safon Uwch Daearyddiaeth ran mewn Gweithdy gyda Dr Angharad Saunders o Brifysgol De Cymru. Cynaliadwyedd oedd thema’r gweithdy gan edrych yn benodol ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae’r Ddeddf hon yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Roedd yn weithdy diddorol a chafwyd trafodaethau cyffrous am ddatblygiad cynaliadwy.



Ar ddydd Iau, y 14eg o Ionawr, bu holl ddisgyblion blwyddyn 9 draw ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, campws Llanbed, i gymryd rhan mewn Diwrnod Celf Ryngweithiol. Roedd y staff o’r adrannau Archeoleg ac Anthropoleg yn arwain gweithdai amrywiol megis gwneud modelau clai, gwerthuso arteffactau o’r Aifft ac edrych ar ddarn o bren dan ficrosgop. Arweiniodd yr arlunydd a’r darlithydd Eloise Govier gweithdy blwyddyn gyfan, lle bu’n creu draig anferth symudol. Cafodd y disgyblion tipyn o hwyl yn y gweithdy rhyngweithiol fel y gwelir yn y llun! Rhoddodd y diwrnod gyfle i’r disgyblion brofi rhan o fywyd myfyriwr ar gampws ac rydym yn hynod o ddiolchgar iddynt am eu cyswllt parhaol gyda’r adran gelf.



Ar ddydd Llun, 25ain o Ionawr, bu’r Pwyllgor Cymreictod a rhai disgyblion o flwyddyn 12 yn dosbarthu rhosod i ddisgyblion a staff yr ysgol er mwyn dathlu diwrnod Santes Dwynwen. Diolch i aelodau o flwyddyn 11 a 12 am werthu’r rhosod o flaen llaw. Bydd rhan o’r elw’n mynd at daith yr Urdd i Batagonia.

Mae disgyblion Ysgol Bro Pedr wrthi ar hyn o bryd yn ymarfer ar gyfer Eisteddfod yr Ysgol. Diolch i’r capteiniaid a’r is-gapteiniaid am eu holl waith hyd yn hyn a phob lwc iddynt yn y cystadlu ar ddydd Mawrth, 9fed o Chwefror a Dydd Mercher y 10fed. Bydd Cyngerdd Pigion yr Ŵyl yn dilyn am 7 o’r gloch ar nos Iau, yr 11eg o Chwefror, lle mae croeso cynnes i bawb.

Cofiwch am Noson Wobrwyo’r Ysgol, nos Fercher, y 23ain o Fawrth am 7y.h. Gwahoddiadau i ddilyn.



Ar ddiwedd tymor yr Hydref, fe wnaeth Pennaeth Ysgol Bro Pedr Mr David Williams ymddeol. Rhoddodd Mr Williams bedwar-deg-un mlynedd o wasanaeth yn y proffesiwn, gyda’r tri olaf fel Pennaeth Ysgol Bro Pedr. I nodi’r achlysur, cyflwynwyd plac cerfiedig iddo gan y prif ddisgyblion Luned Jones a Gareth Jones a’u dirprwyon Huw Howells, Meinir Davies a Rhys Jones.

Ysgol Y Dderi

Croeso cynnes i'r plant newydd â ymunodd â ni yn y meithrin ar ddechrau'r tymor. Croeso hefyd i Mr Dylan, Mrs Alicia a Miss Angharad sydd wedi ymuno â ni yng nghynnod allweddol dau, gobeithio y byddwch chi gyd yn hapus iawn yn ein cwmni. Llongyfarchiadau i Miss Angharad a Will ar eu dyweddïad dros y Nadolig.

Bu cwmni Magic Lantern yn cyflwyno sioe gysgodion i ddisgyblion blwyddyn 3 a 4 fel rhan o'u gwaith thema "Plant y Chwylbro". Roedd yr uned o waith yn edrych ar Oes Fictoria, a bu'r cyflwyniad am waith Charles Dickens, "A Christmas Carol". Roedd y plant wedi elwa o'r profiad yn fawr ac wedi mwynhau'r gweithdy creu pypedau.

Cynhaliwyd gweithdy Y Fari Lwyd gan Lynn Denman yn yr ysgol i ddangos sut oedd y Cymry yn dathlu'r Nadolig yn ystod Oes Fictoria. Bu'r plant yn cyfansoddi hen benillion ac yn canu wrth dywys "Y Fari" o gwmpas yr ysgol. Gweithdy yn llawn sŵn a bwrlwm - am hwyll!

Diolch i Miss Helen Duffee am drefnu bore yn Ysgol Athen, Llwyn y Groes. Cafodd y plant y profiad o fynychu Ysgol Oes Fictoria. Roedd pawb wedi elwa o'r profiad, a phob un yn cytuno eu bod nhw'n falch iawn eu bod nhw'n mynychu ysgol yn yr unfed ganrif ar hugain!

Uchafbwynt y thema oedd trefnu te parti o'r cyfnod. Daeth y plant a'r staff i'r ysgol wedi gwisgo fel enwogion o Oes Fictoria, a bu pawb yn cyflwyno bywgraffiad byr i esbonio pam oedden nhw'n enwog. Daeth Gwen John, Dr Livingstone, Cranogwen, Marie Curie, Betsi Cadwaladr, Charles Darwin, Emily Davidson, Grace Darling, Twm Carnabwth a llawer mwy! Cawsom ddiwrnod cofiadwy dros ben.

Fel rhan o'u thema "O dan y croen" aeth blwyddyn 5 a 6 i Goedwig Longwood i astudio sut mae micro-organebau yn cyfrannu at ein eco-system. Bu'r plant yn ymchwilio i fyd y ffwng, ac yn edrych ar holl waith micro-organebau wrth "dacluso" llawr y goedwig. Diolch i James a Lee am drefnu'r gweithgareddau.

Diolch hefyd i Dr Sion James, Cadeirydd y Llywodraethwyr am baratoi cyflwyniad gwyb am y corff i Flwyddyn 5 a 6. Cafodd y disgyblion gyfle i holi cwestiynau ac roedd Dr James wedi rhyfeddu ar wybodaeth ac aeddfedrwydd y plant wrth holi ac ymateb.

Yn ystod wythnos cyntaf y tymor, daeth pedair ymwelydd o wlad Groeg i arsylwi arfer da mewn dysgu trwy thema. Roedd Lefthkoa a Christina yn athrawon, a'r ddwy ferch, Constantina a Constantina (!) yn ddisgyblion yn Ysgol Peristeri yn Athens. Braint oedd cael rhannu profiadau, a chawsom ddiwrnod Groegaidd yn yr ysgol i ddathlu. Gwisgodd y plant liwiau'r faner sef glas a gwyn a daeth rhai mewn gwisg traddodiadol Groegaidd! Bu'r disgyblion yn creu torchau pren, coginio tzatziki, dawnsio yn eu dull traddodiadol, dysgu'r wyddor a chanu caneuon.

Mae'r Clwb Coginio wedi ail-gychwyn bob nos Lun y tymor yma i flwyddyn 6 dan ofal Miss Jen a Mr Dylan. Mae'r plant wedi coginio pitsa, cacen drisl lemwn, bara a sgons hyd yn hyn. Braff yw gweld y plant yn mynd adref ar nos Lun gyda cynnyrch i'w rannu gyda'u teuluoedd o gwmpas y bwrdd.

Diolch yn fawr i Mr Andrew, sef tad Dilys Rose, sydd wedi cychwyn Clwb Côt yn yr ysgol bob nos Iau. Pwrpas y clwb yw i ddatblygu sgiliau côd ac animeiddio y disgyblion ac wrth reswm mae llythrennedd ddigidol y plant yn gwella.

Llongyfarchiadau i'r plant fu'n cymryd rhan yng nghystadleuaeth pêl-rwyd yr Urdd yn ddiweddar. Cafwyd llawer o hwyll yn ymarfer a diolch i Ysgol Rhôs y Wlad am drefnu gêm ar ôl ysgol cyn y twrnament. Roedd y plant wedi mwynhau cystadlu ac wedi profi ennill a cholli. Diolch i Anwen Eleri a'r tîm am drefnu'r cyfan.

Mae Mari Turner o Gwmni Theatr Arad Goch wedi bod yn cynnal sesiynau drama i flwyddyn 5 a 6. Prif nod y sesiynau yw i ddatblygu sgiliau llafar trwy ddrama. Mae'r plant yn elwa'n fawr o'i harbenigedd ac yn mwynhau ei chwmni yn fawr.

Diolch i Miss Helen Duffee am gynnal Clwb Celf bob nos Wener sy'n rhoi cyfle gwyb i'r plant werthfawrogi celf a chael eu sbarduno i ddysgu technegau newydd.

Rydym bod amser yn edrych ymlaen i groesawu cwmni Mewn Cymeriad i ymweld â ni yn Ysgol Y Dderi, a'r tro yma Mari Jones o'r Bala ddaeth atom! Cafwyd sioe arbennig yn sôn am fywyd ac effaith Mari Jones ar Gymru, ac ar weddill y byd. Diolch o galon unwaith eto am berfformiad graenus, addysgiadol a bythgofiadwy.



Llongyfarchiadau mawr i'r Bwrdd Eco ac Iach, ac i holl ddisgyblion Y Dderi sydd wedi gweithio mor galed tuag at ennill y wobwr platinwm, sef y wobwr uchaf yng nghynllun Eco Ysgolion. Bu Gerry Taylor a Bethan Philips Evans yn cael eu tywys o amgylch yr ysgol gan aelodau'r Bwrdd Eco ac Iach er mwyn casglu tystiolaeth o'r gwaith. Diolch i Miss Caryl am gydlynw'r gwaith.



Thema blwyddyn 5 a 6 yw "Yr Oriol" yn ystod yr hanner tymor yma, ac aethant ar daith am y dydd i Lerpwl! Mynychodd y plant weithdy yn oriel y Tate a chael y cyfle i weld peintiadau o wahanol gyfnodau gan artistiaid byd-enwog. Cawsom groeso arbennig yno. Yna bant â nhw ar daith ar hyd yr afon Mersi ar long "Dazzle". Mae'r llong yma yn arbennig oherwydd comisiynwyd hi gan Syr Peter Blake, arlunydd pop, i gofio am ein rhan yn y rhyfel byd cyntaf. Defnyddiwyd "celf cuddliw" yn sbardun i'r cynllun. Diwrnod i'r brenin yn wir, a phrofiadau i roi ar gof a chadw am oes mae'n siŵr.



Fel rhan o waith thema blwyddyn 3 a 4 y tymor yma, "Trychinebau Naturiol", bu Aled Owen yn cynnal gweithdy ar sut i fesur y tywydd. Cawsom fore diddorol iawn yn ei gwmni yn sôn am bob rhan o'r byd sy'n profi tywydd eithafol. Yn dilyn yr holl dywydd gwlyb yma, anodd iawn oedd derbyn mai nid Cymru yw'r lle gwlypaf yn y byd - ond Mawsynram yn India!! Gosodwyd gorsaf dywydd ddigidol ar safle'r ysgol yn cynnwys ceiliog y gwynt, anemometr, mesurydd glaw, barometr a thermometr. Medrwn nawr gasglu a lawr-lwytho'r data ar gyfrifiaduron yr ysgol.

Llangybi

Merched y Wawr Y Dderi

Cyfarfu'r gangen ar yr 20fed o Ionawr yn Ysgol Y Dderi dan lywyddiaeth Gwyneth Jones. Dymunodd flwyddyn newydd dda i bawb. Trist oedd cofnodi marwolaeth Glenys Lloyd mor frawychus o sydyn - gwelir ei heisiau yn fawr. Roedd yn un o aelodau gwreiddiol y gangen.

Y gŵr gwadd oedd y Bon. Andrew Jones ac fe gawsom noson gofiadwy yn ei gwmni ef a'i wraig. Trwy gyfrwng lluniau, cawsom lawer hanesyn diddorol am bobl o'r cylch yma. Talwyd pleidlais o ddiolch gwresog am ei waith cofiadwy yn ceisio cadw hanes y fro yn fyw i'r genhedlaeth nesaf gan Margaret Davies-Jones.

Rhodddwyd y Raffl gan Gwyneth Jones ac fe'i henillwyd gan Odwyn Davies a Deborah Jones. I gloi'r cyfarfod, cafwyd paned o de a bisgedi wedi eu rhoi gan Gwyneth Evans ac Irene Lewis.

Dalier sylw: Bydd y cyfarfod agored nesaf ar y 10fed o Chwefror yn Ysgol Y Dderi am 7.00y.h. Mrs Ros Jones bydd yn cyflwyno hanes yr Ambiwylans Awyr gan ddefnyddio lluniau. Croeso cynnes i bawb.

Cydymdeimlo

Estynnir cydymdeimlad dwys y fro a Mr Rhydian Lloyd, Olmarch Uchaf yn ei brofedigaeth ar farwolaeth ei gefnder Ifor yn Llundain. Cydymdeimlir a holl aelodau eraill y teulu a ffrindiau yr ymadawedig.

Hamdden

Cyfarfu'r aelodau ar y 4ydd o Ragfyr dan lywyddiaeth Janet Farrow. Cafwyd prynhawn buddiol gan y wraig wadd sef Sue Wellings pan y bu'n sôn am y gwahanol fathau o gynorthwyo a theclynnau sydd ar gael er mwyn hwyluso pobl hŷn a methedig i fyw bywyd annibynnol. Diolchwyd am brynhawn diddorol yn llawn gwybodaeth i'r wraig wadd gan Rita Jones. Enillwyd y Raffl gan Sue Wellings, Joyce Harris, Maisie Morgans, Jill Smith, Betty Lockyer, Sally Davies, Janet Courtney a Barry Williams. I ddiweddu'r cyfarfod cafwyd te a bisgedi wedi ei rhoi gan Janet Farrow a Joyce Harris.

Yng nghyfarfod Ionawr trist oedd cofnodi marwolaeth Glenys Lloyd – un a fu yn aelod ffyddlon iawn i'r holl gyfarfodydd am flynyddoedd maith. Gwelir ei heisiau yn fawr. Cydymdeimlwyd

a Gill Smith yn ei phrofedigaeth ar huno ei gŵr. Dymunwyd adferiad buan i Alan Jones gan obeithio y caiff gwell iechyd y flwyddyn yma, ac i bawb arall a fu yn sâl.

Cynhaliwyd Cinio Calan yng Ngwesty'r Castell lle cafwyd prydd blasus o fwyd mewn awyrgylch hyfryd. Rhodddwyd pleidlais o ddiolch i'r gwesty am eu gwaith a'u gwasanaeth gan Barry Williams. Newidwyd anrhegion yn lle'r Raffl arferol.

Bydd y cyfarfod nesaf yn yr Hedyn Mwstard ar brynhawn Gwener, y 5ed o Chwefror am 2.00y.p. lle ceir Arddangosfa Goginio ac fe fydd yna luniaeth ysgafn cyn dychwelyd adref.

Pen-blwyddi Arbennig

Llongyfarchiadau calonnog a dymuniadau hapus i Caryl Griffiths, Glandulais Isaf ar ei phen-blwydd yn 18 oed ar ddiwedd mis Rhagfyr.

Dymunwyd pen-blwydd hapus a llongyfarchiadau calonnog ar ddiwedd mis Ionawr i Mrs Gwladys Pugh, Coxhead Hall. Gobeithio y cafwyd diwrnod hapus a chofiadwy. Hefyd, pen-blwydd arbennig arall i Mr Richard Evans, Godre'r Coed. Yntau yn dathlu ynghanol y mis yma. Llongyfarchiadau a diwrnod hapus iddo yntau.

Ar Ionawr 27ain dathlodd Aled French, 1 Rhydlanfair ei ben-blwydd yn 18 oed. Dymuniadau gorau i ti i'r dyfodol. Dymuna Aled ddiolch hefyd i bawb am y cardiau, anrhegion a dderbyniodd ar ei ben-blwydd.

Adferiad

Dymunir adferiad buan a llwyr i bawb sydd wedi bod mewn ysbyty neu yn sâl adref. Gobeithio y cewch well iechyd yn ystod y flwyddyn yma.

Cydymdeimlo

Estynnir cydymdeimlad dwysaf y fro â Mr Allan Jones, Hengoed yn ei brofedigaeth lem ar farwolaeth ei frawd. Cydymdeimlir â aelodau teuluol eraill a ffrindiau.

Diolch

Dymuna Caryl Griffiths, Glandulais Isaf ddiolch o galon i bawb am yr holl anrhegion, cardiau, galwadau ffôn a dymuniadau gorau a dderbyniodd ar ei phen-blwydd yn 18 oed.

Gohebiaeth



YMUNWCH YN NATHLIADAU GŴYL DEWI

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin mewn partneriaeth gyda'r Cyngor Tref a chyrff eraill lleol yn trefnu dathliadau arbennig yn ystod wythnos Gŵyl Ddewi eleni yng Nghaerfyrddin, ac mae gwahoddiad i bawb i ymuno i ddathlu ein Cymreictod.

Parêd Dewi Sant

Am y tro cyntaf erioed, trefnir y parêd hwn yng Nghaerfyrddin ar gyfer y Sir a Gorllewin Cymru. Gwahoddir pawb i ddod i Barc Caerfyrddin cyn 10.45y.b. ar ddydd Sadwrn, y 27ain o Chwefror. Bydd yr orymdaith yn dechrau am 11y.b. ac yn teithio lawr Heol Awst a thrwy ganol y dref a heibio'r Clos Mawr a Sgwar Nott ac ar hyd Heol y Brenin gan orffen wrth Eglwys San Pedr. Bydd croeso i ysgolion a mudiadau a theuluoedd ac unigolion i ymuno yn y parêd ac i chwifio baner y Ddraig Goch neu faner Dewi Sant. Bydd bandiau a chorau hefyd yn rhan o'r parêd a arweinir gan Y Tywysydd sef yr enwog Delme Thomas. Ar ddiwedd y parêd fe fydd cyfarchion ac eitemau cerddorol yn ogystal ac arddangosfeydd gan Oriel Myrddin gyferbyn a'r eglwys.

Yr Atom

Yn dilyn yr orymdaith, fe fydd cyflwyniadau gan Ysgol Berfformio Dyffryn Tywi ac Offerynwyr Ysgol Bro Myrddin tu allan i Ganolfan Yr Atom yn Heol y Brenin a hynny'n cael ei ddilyn gan Sioe Mewn Cymeriad sef portread o Harri Tudur, gan i'w dad farw o'r pla du yng Ngharchar Caerfyrddin. Bydd Canolfan Peniarth yn lansio cynllun 'CYW' a'r Canolfannau Dysgu Cymraeg yn lansio eu sesiynnau fore Sadwrn i ddysgwyr yn Yr Atom.

Dydd Sul, 28ain o Chwefror

Bydd Ysgolion Sul Capeli Cymraeg Caerfyrddin yn cynnal oedfa Gŵyl Ddewi yng Nghapel Heol Awst am 10y.b. ac yna cynhelir gwasanaeth pellach yng Nghapel Y Babell, Pensarn am 5y.h.

Dydd Llun, 29ain o Chwefror

Bydd Oriel Myrddin a Choleg Sir Gar yn dathlu celfyddydau Caerfyrddin.

Dydd Gŵyl Dewi, 1af o Fawrth

Ar y dydd Mawrth, bydd pabell yn y Clos Mawr ac fe fydd ysgolion Caerfyrddin yn cyflwyno eitemau cerddorol yn ystod y dydd. Bydd adran oed Sylfaen Ysgol y Dderwen yn perfformio yn Rhodfa Santes Catrin hefyd yn ystod y bore.

Dydd Mercher, 2il o Fawrth

Cynhelir Eisteddfod Gylch Caerfyrddin o'r Urdd yn Neuadd San Pedr trwy gydol y dydd a bydd gweithgareddau amrywiol yn cael eu cynnal yn ac o gwmpas y farchnad, gyda'r stondinwyr yn eu gwisgoedd Cymreig.

Nos Wener, 4ydd o Fawrth

Mererid Hopwood a Tudur Dylan Jones fydd dau Feuryn y Talwrn Blynnyddol yng Nghlwb Pel Droed Caerfyrddin am 7.30y.h. Bydd pedwar tîm yn cystadlu eleni sef Tîm Ffostrasol, Tîm y Priordy a dau Dîm yr Ysgol Farddol. Mae hon yn noson boblogaidd iawn fel arfer ac yn llawn hwyl.

Dydd Sadwrn, 5ed o Fawrth

'Ar eich stepen drws' fydd y thema gyda chynhyrchwyr lleol yn cael cyfle i werthu eu nwyddau mewn pebyll o gwmpas y dref. Yn ystod y dydd hefyd bydd basins bach ar werth fel y gallwch fynd i wahanol fannau i gael cawl am ddim o dan y teitl 'Cawl Crawl'. Nos Sadwrn, mae Theatrau Sir Gâr yn trefnu Cyngerdd Gŵyl Ddewi Mawreddog yn Y Lyric yng nghwmni Cor Meibion De Cymru ac artistiaid enwog.

Bydd parcio am ddim ym meysydd parcio'r dref ar y ddau ddydd Sadwrn yn ystod Wythnos Dathlu Gŵyl Dewi.

Mae'n bwysig eich bod yn cefnogi'r dathliadau hyn er mwyn dathlu Gŵyl Dewi a'n Cymreictod. Bydd manylion llawn am bob digwyddiad ar gael yn y papurau lleol ac ar y cyfryngau cymdeithasol. Os am fwy o wybodaeth cysylltwch gyda Peter Hughes Griffiths 012677 232240 / Phughes-griffiths@sirgar.gov.uk Lowri Jones ar 224699 / lowrijones@sirgar.gov.uk neu Deina Hockenhull ar 224654 / DMHockenhull@sirgar.gov.uk.

Llanbedr Pont Steffan

Urdd y Benywod, Brondeifi

Ym mis Tachwedd, roedd yn bleser croesawu Elin Williams i siarad ar y pwnc “Dadansoddi Llawysgrifen”. Mae Elin yn adnabyddus drwy ei gwaith llwyddianus gyda sawl parti llefaru. Daw enw Parti Sarn Helen i’r cof fel parti lleol sydd wedi ennill yn Genedlaethol. Mae Elin hefyd yn athrawes brofiadol, ac hefyd yn hyfforddi athrawon eraill. Gyda’r cefndir yma, mae’n hollol ddealladwy bod pob aelod o’r Urdd yn chwylyfrydig iawn i glywed pa gysylltiad oedd rhwng Elin a’r pwnc dan sylw.

Esboniodd Elin ei bod hi wedi clywed rhaglen am arbenigwr yn y maes dadansoddi llawysgrifen, a thoc ar ôl hynny, fe ddaeth ar draws llyfr gan yr un arbenigwr. Dechreuodd astudio’r pwnc yn eu hamser hamdden gan ddechrau sylwi bod llawysgrifen yn medru datgelu personoliaeth. Siaradodd am y newidiadau sydd yn digwydd dros y blynyddoedd mewn llawysgrifen unigolyn. Cofiodd cael gwersi “penmanship” gan Mary James, Bryn Road, a’r llyfrau arbennig gyda llinellau coch a glâs i gael rheoli ysgrifen. Mae ysgrifen pob plentyn yn debyg ond fel oedolion, mae llawysgrifen pob un ohonom yn wahanol.

Fel prawf, gofynnodd Elin am dri esiampl o lawysgrifen wrth aelodau’r Urdd, a’r dair ddienw wedi rhoi eu “gwaith cartref” i Elin sawl wythnos cyn y cyfarfod. Dangosodd Elin rai o’r teclynau mathemategol sy’n cael eu defnyddio er mwyn dadansoddi llawysgrifen, fel protractor a phren mesur i fesur maint ac ongl y llythrennau ynghyd a’r bylchau a’r llinellau.

Cafwyd llawer o sbri yn ceisio dyfalu pwy oedd y dair o’r disgrifiad gan Elin o’r llawysgrifen a phawb yn mwynhau’r dirgelwch. Yn y diwedd, dywedodd pob un o’r dair eu henwau. Ym marn y gynulleidfa, roedd disgrifiad o lawysgrifen pob person wedi ei ddatgelu yn eithaf cywir. Da iawn, Elin!

Cyflwynwyd y diolchiadau gan Eryl Jones a ddywedodd bod pobl yr ardal yn ffodus iawn o gael Elin yn eu plith. Dysgodd yr Urdd llawer am y pwnc a chael hwyl - teyrnged i athrawes arbennig.

Ar Dachwedd 26ain, daeth Ryan Jones, CSO, Swyddog Cymdeithasol i’r Heddlu atom i Festri Brondeifi i sôn am ei waith mewn modd diddorol ac addysgiadol.

Cyflwynwyd ef gan Beti, ein llywydd. Brodor o Bencader yw Ryan, ond erbyn hyn yn byw yn Llanbedr. Ei swydd yw gwasanaethu’r gymuned mewn unrhyw ffordd posib, a bod yn weladwy i’r cyhoedd trwy gerdded y ffordd yn ei wisg swyddogol a bod

yn wyneb cyfeillgar wrth gyfarch pobl yn Llanbedr ac yn y pentrefi a threfi cyfagos. Yn rhinwedd ei swydd, mae’n yn ymweld ag ysgolion a mudiadau i siarad a hwy ac i’w cynghori.

Mae Ryan yn gymwys i reoli digwyddiadau anffodus yn y dref e.e. pobl yn yfed ar y sgwâr, plant neu oedolion yn ymddwyn yn afreolus, neu foduron yn teithio’n rhy gyflym a phobl yn parcio mewn mannau anaddas. Er hynny, nid oes awdurdod ganddo i arestio unrhyw un.

Soniodd Ryan mor ffodus ydym ni yn yr ardal gan mai ychydig o droseddau difrifol sy’n digwydd yma. Er hynny, pwysleisiodd bwysigrwydd diogelwch yn y cartref. Fe ddylsem gloi pob drws a ffenest yn ogystal a siediau gan fod lladron yn gyfrwys yn astudio ac yn cynllunio cyn gweithredu. Bydd troseddwyd yn ymwybodol o’r amser gorau i dorri mewn i siediau, yn aml yn y gaeaf pan fydd llawer o offer yn cael eu cadw yno a neb yn cadw golwg arnynt. Cyngor defnyddiol yw paentio marciau mawr lliwgar ar beiriannau fel torwyr porfa, gan y bydd hyn yn eu gwneud yn ddiwerth i leidr.

Pwysleisiodd Ryan hefyd mor bwysig yw bod yn ymwybodol o alwadau ffôn ynghlyn a chyfrifon banc a’n cyfrifiaduron. Atgoffodd ni ein bod yn ffodus fod gennym oruchwyliaeth am 24ain awr bob dydd. Gellir ffonio rhif 101 ar unrhyw adeg, a bydd yr alwad yn mynd i Gaerfyrddin gan sicrhau ymateb ar frys yn ôl pob tebyg gan Ryan Jones. Yn y dyfodol agos bydd gan bob sir gerbyd goruchwyliaeth yn mynd o amgylch pentrefi ar dri neu bedwar diwrnod yr wythnos, gan aros ynddynt am un neu ddwy awr. Faniau glas a choch ydynt a byddant yn dwyn y geiriau ‘Police and Crime Commission’ arnynt. STARSKY yw’r enw a roddwyd i fan Ceredigion – enw a ddewiswyd gan blant Ceredigion.

Ar ddiwedd ei anerchiad, diolchwyd yn ddiffuant i Ryan Jones gan Jennie Bracher.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i’r Athro D Densil Morgan ar ddod yn Olygydd newydd Y Traethodydd. Mae rhifyn cyntaf ardderchog dan ei olygyddiaeth allan nawr.

Merched y Wawr

Mae Merched y Wawr Llanbedr yn cynnal noson arbennig i ddysgwyr yn eu cyfarfod nesa ar nos Lun, 8fed o Chwefror am 7.45 gan chwarae gemau bwrdd a chael cyfle i sgwrsio. Croeso mawr a pherswadiwch ddysgwyr i ymuno yn y noson.

Dathlu

Dathlodd Gwennan Jenkins, Blaenderi, Penbryn, Hedydd Thomas, Gilfachwen, Rhodfa Glynhebog a Glenda James, 55 Penbryn ben-blwyddi arbennig yn ystod yr wythnosau diwethaf. Gobeithio y gwnaethoch chi fwynhau’r dathlu!

Cydymdeimlo

Taenwyd siom gan glywed am farwolaeth sydyn Mrs Glenys Lloyd, Llanio, Heol y Bont yn ei chartref cyn y Nadolig. Cydymdeimlwn yn ddwys gyda Megan, ei merch, a’i theulu yn Aberystwyth.

Cydymdeimlwn â theulu y diweddar Mrs Annie Lloyd, Tegfryn, Maes-y-felin a fu farw rhai diwrnodau cyn y Nadolig. Rhoddwyd ei gweddillion i orffwys yng Nghapel Brynhafod, Gorsgoch.

Cydymdeimlwn â David a Hannah Lloyd, Awelfan, Heol y Bryn ar golli ei mab Wyn, Down Home Stoves, cymar Glenda, brawd Nerys a llys dad David. Bu’r angladd yng Nghapel Crugybar ac yna yn Amlogfa Aberystwyth.

Estynnir cydymdeimlad dwysaf â’r teuluoedd sydd wedi colli anwyliad yn ystod y misoedd diwethaf.

Cymorth Cristnogol

Mae pwyllgor lleol Cymorth Cristnogol Llanbedr yn falch iawn o gyhoeddi fod y swm anrhydeddus o £5815 wedi ei gasglu yn ystod 2015. Ymdrech arbennig. Mi godwyd yr arian yn bennaf o dair ffynhonnell sef y casgliad blynyddol ym Mis Mai o gwmpas y cartrefi, Cinio’r Trydydd Byd a noson Nadoligaidd Carol Cerdd a Chân. Diolch yn fawr i bawb sydd wedi cefnogi mewn unrhyw ffordd. Daliwn ati. Mae’r angen yn fwy nag erioed.

Merched y Wawr

Yng nghyfarfod cyntaf y flwyddyn, gwnaeth ein llywydd Ann Bowen Morgan groesawu pawb i sesiwn o “Hawl i Holi” ac wedi trafod ychydig am drefniadau’r tymor o’n blaen aed ymlaen i gyflwyno’r panel amryddawn. Yr aelodau oedd Rhiannon Lewis, Pennaeth Cynorthwyol Ysgol Henry Richard; Delyth Morgan Phillips, Cadeirydd Pwyllgor Eisteddfod Pantyfedwen Llanbedr; Rhian Evans, Rheolwraig Adnoddau Dynol Tai Ceredigion; a Tegwen Morris, Cyfarwyddwr Cenedlaethol Merched y Wawr. Cafwyd noson hwylus iawn yng nghwmni’r bedair ddynes dalentog ac mi holwyd gwestiynau amrywiol iawn iddynt, megis “A ddylem barhau i fod yn aelodau o’r Undeb Ewropeaidd?”; “Pa gas bethau fyddai’n cael eu diarddel i ystafell 101?” ac “Pa dri peth fydddech yn dymuno mynd gyda chi i ynys pellenedig?” Roedd yn fawr

o syndod fod Rhiannon am fynd a’i phiano gyda hi i’r ynys bell a Delyth yn naturiol am gopi o Lyfr Emynnau Hen Nodiant. Dymuna Tegwen fynd a mynydd o siocled i basio’r amser ac roedd Rhian yn awyddus i fynd a Michael Macintyre i’r ynys i godi calonnau pawb pan fo pethau’n dechrau mynd yn dywyll! Dewiswyd ystod eang o gwestiynau gan ein haelodau yn amrywio o’r lleddf i’r llon ac mi atebwyd i gyd yn hollol ddiffwdan gan y panel disglair. Diolchodd Lena i’r bedair am noson gartrefol iawn ac am eu dawn naturiol i gyfathrebu barn pendant mor hwylus yn gyhoeddus.

Noson gemau bwrdd yn nghwmni Dysgwyr y cylch fydd mis nesaf ond cyn hynny, mae’r aelodau yn edrych ymlaen i ymweld a Changen Felinfach a hefyd y ddrama gerdd Esther yng Nghaerfyrddin ddiwedd y mis.

Diolch

Dymuna Lois Price, Langwm, Heol-y-Bryn ddiolch i bawb am ei noddi pan gododd arian i ‘Little Princess Trust’ yn ddiweddar.

Adran yr Urdd Llanbedr

Cafwyd noson hwyliog yng nghwmni Miss Anita yn creu bathodynau siap calonnau ar gyfer Diwrnod Santes Dwynwen. Diolch Miss Anita. Bu’r aelodau hefyd yn cystadlu yn erbyn ei gilydd drwy gael cwis a diolch i Mr Eryl Jones am ei gymorth parod.

Aelwyd yr Urdd

Cynhelir cyfarfod Aelwyd yr Urdd nos Fawrth, y 23ain o Chwefror o 7 hyd 8.15y.h.

Edrychwn ymlaen i fwynhau noson ysgafn dan ofal Elin Williams. Croeso cynnes i aelodau hen a newydd. Dyddiad pwysig: 8fed o Chwefror sef dyddiad cau ar gyfer cofrestru i gystadlaethau cerdd, llefaru, cerdd dant, alaw werin, theatr a dawns yr Eisteddfod eleni.

Nawfed Plygain Llanbedr

Nos Lun, y 7fed o Ragfyr 2015, cynhaliwyd nawfed Plygain Llanbedr yng Nghapel Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant. Wedi ymddeol a symud o’r ardal, dywedodd un cyn-aelod o staff (Gwyddel o dras), ‘I am going to miss so much going to the Plygain this evening. It is definitely one of my most treasured memories of Lampeter! It’s a really special event.’ A dyna farn nifer gan fod y Capel yn orlawn ar gyfer y gwasanaeth hyfryd hwn.

Arweiniwyd darn o’r Hwyrwl Weddi gan y Parchedig Ainsley Griffiths, Caplan Campws Caerfyrddin, a’r organyddes oedd Mrs Glynis Morris. Cymerwyd rhan gan Saba a Sophia, Parti Plygain Coleg Llanbedr, Parti Cymysg

Llanbedr Pont Steffan



Bowlio

Llongyfarchiadau i Anwen Batten o Glwb Bowlio Llambled a fu'n cynrychioli Cymru allan yn Cyprus ym mis Rhagfyr ym mhencampwriaeth yr Iwerydd. Fe wnaeth Anwen chwarae yng nghystadlaethau'r parau ac fel rhan o'r pedwarawd. Ar ôl ennill chwech allan o saith o gemau yn y rowndiau, fe aeth ymlaen i chwarae De Affrica ar gyfer y fedal Efydd ac yna'r Alban yn y ffeinal. Ar ôl gêm agos, colli wnaeth Cymru a dychwelyd gyda'r fedal Arian.

Rhaid hefyd llongyfarch Anwen ar gael ei dewis i fod yn rhan o dîm a fydd yn cystadlu mewn gemau prawf yn Christchurch, Seland Newydd ym mis Mawrth. Fe fydd Anwen yn rhan o dîm o bump menyw a fydd yn cystadlu yn erbyn yr Alban, Awstralia, Malasia, De Affrica a Seland Newydd. Pob lwc!

Llandeilo, Parti Meibion Llandeilo, Pedwarawd Sir Benfro, Beti Jones, Twynog Davies, Liz Evans, Rhiannon Ifans a Trefor Pugh, Parti'r Penrhyn, a Kees Huysmans. Wedi i'r dynion ganu 'Carol y Swper', croesawyd pawb i'r Hen Neuadd i fwynhau gwin cynnes a swper ysgafn.

Trefnwyd y noson gan Dr Rhiannon Ifans o Ysgol y Gymraeg ac Astudiaethau Dwyieithrwydd, a noddwyd y noson gan yr Ysgol honno a'r Gyfadran Addysg a Chymunedau. Yr oedd yn hyfryd gweld Llywydd y Brifysgol, Dr R. Brinley Jones a Mrs Stephanie Jones, yn bresennol yn y Blygain yn ôl eu harfer.

Cymdeithas Hanes

Daeth cynulliad dda i Hen Neuadd y Coleg ym mis Ionawr ar gyfer y ddarlith Gymraeg flynyddol, gyda Sian Jones yn cyfieithu ar y pryd i'r di-Gymraeg. Croesawyd pawb gan y Cadeirydd, Selwyn Walters, ond cyn mynd ymlaen â gweithgaredd y noson, gofynnwyd i bawb sefyll am funud i gofio Marian Roberts, aelod ffyddlon a gweithgar a bu farw ychydig cyn y Nadolig.

Siaradwraig wadd y noson oedd Morfudd Slaymaker, yn aelod o'r gymdeithas, ac yn gyn athrawes Gwyddor-tŷ yn Ysgol Gyfun Llambled. Testun y noson oedd 150 mlynedd o Batagonia - gwlad sydd â chysylltiadau arbennig i Morfudd gan i chwaer ei thadcu ymfudo yno yn 1875, ac ers nifer o flynyddoedd bellach, mae wedi ymweld â'r Wladfa droeon.

Bu 2015 yn flwyddyn eithriadol o brysur iddi, gan dderbyn gwahoddiadau i fynd hwnt ac yma

i ddathliadau'r canrif a hanner, a thrwy gyfrwng y llun ar y sgrin, cawsom rannu rhai o'i phrofiadau. Cyngherddau, perfformiadau, cymanfaoedd canu a'r Eisteddfod Genedlaethol ym Meifod, a chael cwmni Elma Phillips a Gwynfor Lewis ar lawer siwrne, ac i goroni'r cyfan yr Eisteddfod ym Mhatagonia, a'r daith honno yn cymryd dros fis o amser.

Cafwyd hanes y teulu, a'r goeden deuluol yn dangos fod ganddi dros ddegain o berthnasau yn y Wladfa, a'i balchder o fod wedi ail-gysylltu â hwy wedi cyfnod o ddieithrwrch. Mae llawer o fyfyrwyr o'r Wladfa wedi bod draw yng Nghymru i wella'u Cymraeg, llawer ohonynt i Llanbed, ac wedi derbyn croeso dibendraw i gartref Morfudd. Edrychant yn garedig arni fel 'Mam Cymru'. Anrhydeddwyd Morfudd am ei chymwynasgarwch i'r myfyrwyr drwy ei chroesawi'n aelod o'r Orsedd yn Eisteddfod y Gaiman. Braf oedd gweld y croeso estynwyd iddi ymhobman - y gwleda a'r cymdeithasu. Mae Morfudd yn annog pawb i thalu ymweliad â'r Wladfa os daw'r cyfle, er mwyn profi yr un croeso.

Diolchwyd yn gynnes i Morfudd am yr hanes diddorol, i Elma a Gwynfor am gynorthwyo ar yr ochr dechnegol, ac i Sian am gyfieithu.

Bydd y cyfarfod nesa' nos Fawrth, yr 16eg o Chwefror am 7.30y.h. yn Yr Hen Neuadd pan fydd Harriet Earis yn rhoi hanes, a chanu'r Delyn Gymreig. Croeso cynnes i bawb.

Gwellhad Buan

Gobeithio bod Percy Evans, Pennant, Rhodfa Glynhebog yn teimlo'n well ar ôl bod yn Ysbyty

Glangwili ar ddiwedd y mis. Braf gweld eich bod wedi dod adref.

Cymorth Cristnogol

Er gwaetha'r tywydd stormus, braf oedd gweld nifer dda wedi mentro allan ar gyfer noson arbennig wedi ei threfnu gan bwyllgor lleol Cymorth Cristnogol sef Carol, Cerdd a Chân yn Eglwys San Pedr. Offrymwyd gweddi agoriadol gan y Ficer y Parchedig Andy Herrick. Hefyd estynnodd groeso cynnes i bawb a datganodd ei lawenydd o weld aelodau eglwysy'r dref yn dod at ei gilydd i gefnogi achos mor deilwng. Yn cymryd rhan oedd Côr Merched Corisma, Côr Llefaru Sarn Helen, Plant Ysgol Carreg Hirfaen, Swyddogion Ysgol Bro Pedr, Parti Gernant, Lowri Elen, Canon Aled Williams, Elin Williams ac Aelodau'r Urdd. Cafwyd noson ardderchog gyda'r cantorion a'r llefarwyr i gyd yn rhoi perfformiadau clodwiw a chreu naws hyfryd y Nadolig. Codwyd dros £500.

Talodd Twynog Davies, Cadeirydd y pwyllgor lleol deyrnged uchel i bawb oedd wedi cymryd rhan mewn noson i'w chofio wrth ein tywys i Fethlehem, i'r Ficer a wardeiniaid San Pedr am bob cydweithrediad, i Elonwy am ei gwasanaeth amhrisiadwy wrth yr organ, i'r tri gwr doeth wrth y drws, i Janet am ei threfniadau trylwyr ac i Llinos am ei chymorth hithau. Diolchodd i'r Maer a'r Faeres y Cynghorydd a Mrs. Chris Thomas a phawb oedd wedi troi allan ar noson mor wlyb i gefnogi Cymorth Cristnogol sy'n rhoi gobaith i dlodion y byd trwy wneud gwahaniaeth mawr i'w bywydau. Hefyd croesawodd Y Parchedig Andy Herrick i'r ardal a dymunodd yn dda iddo yn ei gylch newydd o eglwysi. Fel un oedd yn weithgar iawn gyda Chymorth Cristnogol yn ardal Aberystwyth, soniodd Twynog mai pleser fydd ei groesawu fel aelod o bwyllgor Llambled.

Ysgol Sul Noddfa

Bu'r flwyddyn aeth heibio yn un llewyrchus iawn yn hanes Ysgol Sul Noddfa a'r plant yn ffyddlon iawn bob nos Wener. Cymerodd yr aelodau ran mewn nifer o oedfaon yr ifanc a chael canmoliaeth uchel am eu gwaith. Pleser oedd eu clywed yn cyhoeddi'r emynau ac yn canu yn y Gymanfa Ganu a gynhaliwyd ym Methel Parcyrrhos. Bu'r plant yn diddori'r Henoed yn Neuadd Fictoria ac roedd pawb wedi mwynhau eu cyfraniadau amrywiol. Hefyd maent wedi cyfrannu at Fanc Bwyd y dref.

Braf oedd croesawu aelodau newydd yn ystod y flwyddyn sef Grace a Darcey Lambert, Cerys Angharad, Trystan Wyn, Trystan Bryn ac Ifan Thomas. Maent wedi

setlo lawr yn ardderchog yn ein plith a'r rhieni yn barod iawn eu cefnogaeth a'u cymorth.

Daeth cynulliad teilwng iawn ynghyd i wasanaeth Nadolig yr Ysgol Sul a theimlwyd naws hyfryd yr Wyl wrth deithio i Fethlehem mewn pennill a chân yn nghwmni'r plant, y bobl ifanc a'r Mamau - 27 ohonynt i gyd a phawb yn rhoi o'u gorau. Cyflwynwyd drama'r geni gan y plant cynradd a phob un yn amlwg wrth eu bodd yn dathlu pen-blwydd Iesu. Roedd y cyfuniad o wisgoedd lliwgar traddodiadol a chyfoes yn ychwanegu at foddhad y gynulleidfa. Hefyd cyfoethogwyd yr oedfa yn fawr gan ddarlenniadau o'r Beibl, gweddiâu, unawdau, adroddiadau a grwpiau canu amrywiol.

Ar ddiwedd yr oedfa galwodd Sion Corn heibio (diolch i David Evans) a bu'n brysur iawn yn dosbarthu llong sach o anrhegion. Diolch i Alun ac Eifion eleni eto am eu rhoddion o ffrwythau. I gloi prynhawn bendithiol a phleserus iawn mwynhawyd tê parti ardderchog wedi ei drefnu gan y rhieni dan gyfarwyddyd Llinos.

Ar ran yr Ysgol Sul cyflwynodd Gwenllian a Ffion roddion i Janet fel gwerthfawrogiad o'i gwaith ar hyd y flwyddyn. Ymatebodd hithau trwy dalu teyrnged uchel i'r plant am eu ffyddlondeb ac i'r rhieni am eu cefnogaeth a'u cymorth parod bob amser.

Ar Nos Wener, yr 8fed o Ionawr bu criw o'r aelodau yn cyflwyno adloniant i breswylwyr Cartref Hafandeg yn cynnwys unawdau a grwpiau canu. Roedd yr Henoed wedi cael gwledd yn eu cwmni ac yn werthfawrogiad iawn o'u doniau amrywiol. Cyn troi tuag adre cafwyd cyfle i gymdeithasu tra'n mwynhau paned a danteithion ysgafn.

Mae'r plant wedi dechrau paratoi ar gyfer gwasanaeth y Pasg a gynhelir ym mis Mawrth - ceir cadarnhad o'r dyddiad cyn hir. Edrychwn ymlaen mewn gobaith at y flwyddyn newydd.

Cinio i'r Trydydd Byd

Bydd aelodau pwyllgor Cymorth Cristnogol yn paratoi cinio er budd y Trydydd Byd yn neuadd Eglwys San Pedr ar ddydd Gwener, y 5ed Chwefror o 12 hyd 1.30y.p. Dewch ynghyd i fwynhau pryd blasus o fwyd ac ar yr un pryd, codi arian at achos teilwng. Croeso cynnes i bawb.

Sioe Llanbed

Bydd Cymdeithas Amaethyddol Llanbedr Pont Steffan yn cyhoeddi llyfr o hanes y gymdeithas cyn hir. Croesewir tanysgrifwyr am £10 yr un i'r ysgrifennydd (422370) neu i aelod o'r gymdeithas.

Llanbedr Pont Steffan



Plant Ysgol Sul Brondeifi wedi eu Gwasanaeth Nadolig ac ymweliad wrth Sion Corn a'i gynorthwydd y Coblyn! Cafwyd gwledd o berfformiad a pharti i'w ddilyn. Mae croeso i blant ymuno yn yr hwyl bob bore Sul am 10 yn Festri Brondeifi.



Parti Piano

Cynhaliwyd parti piano disgyblion Ann Morgan llwyddiannus ar ddydd Mawrth, 22ain o Ragfyr yn festri Shiloh. Chwaraeodd y disgyblion yn hyfryd a cafwyd te blasus gan y rhieni - diolch. Casglwyd £25 yn ystod y parti ar gyfer Cymorth Cristnogol.

Llongyfarchiadau i Lois, Undeg, a Lisa ar lwyddo'n ardderchog yng ngradd 3 yn ystod y flwyddyn ac i Lleucu a Gwenllian yng ngradd 1.

Yn y llun gwelir Sara, Ffion, Lisa, Lisa, Lleucu, Lois ac Undeg (rhes gefn) Elin, Ifan, Efan a Luned (rhes flaen).



Rhodd o sedd bwyso i gartref Hafan Deg er cof am Sally. Yn y llun mae ei merch Mary, mab yng nghyfraith Wyn, wyrion Megan a Daniel, cynrychiolwyr cartref preswyl Hafan Deg Dilys Megicks a Rachael Jones.



I'w gweld yn pori trwy lyfr gan Dic Jones tu fewn i lyfrgell eang deithiol newydd y mae Elin Jones AC, ynghyd â Dai Davies a'r Cynghorydd Gill Hopley. Roedd yr uned i'w gweld yn Llanbed yn ystod seremoni agoriadol y Llyfrgell.



Agorwyd Llyfrgell Llanbed ar ei newydd wedd wedi iddo gael ei adnewyddu a'i ailfodelu i gyfuno'r llyfrgell a'r swyddfa ardal yn swyddogol gan y Cynghorydd Gill Hopley, Cadeirydd y Cyngor ar ddydd Iau 17 Rhagfyr. Yn y llun hefyd mae'r Cynghorydd Ellen ap Gwynn, Arweinydd y Cyngor; Arwyn Morris, Pennaeth TGCh a Gwasanaethau Cwsmeriaid; Gareth Griffiths, Rheolwr Gwasanaeth Llyfrgelloedd; Aelodau o staff y Llyfrgell; Joy Lake, Rheolwr Gwasanaeth Cwsmeriaid; Y Cynghorydd Dafydd Edwards; Y Cynghorydd Hag Harris a'r Cynghorydd Chris Thomas, Maer Llanbed.



Bu Cyfarfod Foxhounds Dydd San Steffan Llanwnnen yng Ngwesty'r Falcondale, Llanbed lle'r oedd tua ugain o geffylau a marchogion yn cymryd rhan.



Y tri o Llanbed Elma, Morfudd a Gwynfor yn cyflwyno arian a godwyd yn noson gyrru yn Shapla Tandoori fis Mehefin diwetha' i drysorydd Ysgol Y Cwm, Trevelin Patagonia, Marisa Roberts, ynghyd â Margarita Green a Jessica Jones, athrawes yn yr ysgol.

Cwrtnewydd

Ysgol Cwrtnewydd

Ar ôl tymor prysur o waith caled, pa ffordd well i ymlacio cyn gwyliau'r Nadolig na trip i'r sinema yn Aberystwyth i wylïo'r ffilm 'The Grinch'. Wrth gwrs, ar ôl i'r ffilm orffen, roedd pawb eisïau bwyd, felly draw â ni i McDonalds i fwynhau pryd blasus.

Ar ddiwedd y tymor, daeth yr hen ŵr a'i farf wen i'r parti Nadolig. Mae e'n cofio am blant Cwrtnewydd yn flynyddol chwarae teg iddo ac roedd ganddo anrhegion i bawb eleni eto. Roedd digonedd o fwyd gyda ni a chyfle i ddawnsio a joio. Pa well ffordd i fwynhau diwedd y tymor?

Ein sioe Nadolig eleni oedd 'Y Stori Fawr'. Sioe yn adrodd stori'r geni oedd hi a chyfle i'n hatgoffa, yng nghanol y bwrlwm, beth yw gwir ystyr y Nadolig. Ar ddiwedd y noson cafwyd cyfle i fwynhau mins pei, gwin mwll a chlonc. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

Doedd y Nadolig eleni ddim yr un mor hapus ag arfer yn Ysgol Cwrtnewydd gan ein bod yn ffarwelio â dau ffrind. Bu Evan a Margaret yn yrrwyr taci yn yr ysgol am bum mlynedd ar hugain ac maent wedi cario cannoedd o blant ar hyd y blynyddoedd. Cynhaliwyd parti bach iddynt ar ddiwedd y tymor a chyflwynwyd rhodd a cherdyn fel arwydd o werthfawrogiad. Hoffai staff a phlant yr ysgol ddiolch o galon iddynt am eu gwasanaeth diflino. Fe fyddwn yn gweld eu heisïau yn fawr.

Croeso cynnes i Holly Thomas i flwyddyn 3. Gobeithio y byddi di'n hapus iawn gyda ni.

Treuliodd Blynyddoedd 3 a 4 ddau ddiwrnod yng ngwersyll yr Urdd yn ddiweddar. Bu'r plant yn brysur iawn a chafwyd profiadau arbennig megis gwibgartio a marchogaeth. Un o'r uchafbwyntiau wrth gwrs oedd cysgu'r nos yng nghwmni ffrindiau. Cafwyd amser da a diolch i Ms Carol Davies y Pennaeth a Mrs Enrys Morgan am ofalu amdanynt. Daeth pawb adre wedi blino'n lân ond wedi cael amser i'w gofio!

Ar fore dydd Mercher, 20fed o Ionawr, cafodd nifer o blant yr adran iau gyfle i gynrychioli'r ysgol yng nghystadleuaeth pêl-rwyd yr Urdd yng nghanolfan hamdden Llambod.

Mae Cylch Ti a Fi yn cwrdd bob bore dydd Mawrth y tymor hwn eto. Os am ragor o wybodaeth, cysylltwch â'r ysgol.

Ar fore dydd Gwener, 22ain o Ionawr, bu pedair o ferched cyfnod Allweddol 2 yn cystadlu yn rownd 1, cystadleuaeth Cogurdd yr Urdd. Tasg Elan Jenkins, Katy Moyes, Luned Jones a Lisa Jenkins oedd paratoi 'Salad Groegaidd'. Bu'r bedair yn brysur iawn a'r enillydd oedd Lisa Jenkins. Llongyfarchiadau calonnog iddi a phob lwc yn y rownd nesaf. Diolch yn fawr i Sirian Davies am fod wrth y llyw a Joe Fice am feirniadu'r gystadleuaeth.



Canlyniadau Clwb 100

Hydref 2015 - 1af - Ann Davies; Gerynant. 2il - Elis Jenkins, Ceulan; 3ydd - Arthur Roberts; 4ydd - Jac Rees, d/o Tanrhos.

Tachwedd 2015 - 1af - Roy Rees, Pantyrnollen; 2il - Delyth Richards, Llain; 3ydd - Eirina Sisto, Blaenau; 4ydd - G & M Humphreys, Llwynceilyn.

Rhagfyr 2015 - 1af - Gwyneth Morgans, Pensarnau; 2il - Lois Jones, Blaenhirbant; 3ydd - Carwyn Davies d/o Tanrhos; 4ydd - Dafydd Davies, Ger-y-nant; 5ed - Wendy Davies, Caerwennog.

Ionawr 2016 - 1af - Carys Jones, d/o Tanrhos; 2il - Eiddwen Hatcher, Cefnhafof; 3ydd - Hefin Jenkins, Cathal; 4ydd - Nanna Jones, Garth.

Anffawd

Gobeithio fod Lyn Rees, Tanrhos lawer yn well erbyn hyn yn dilyn ei anffawd a torri ei fraich yn dilyn y Nadolig.

Hefyd, llongyfarchiadau i Lyn ar gael ei anrhydeddu a derbyn gwobr gan Athletau Cymru - gweler adroddiad Sarn Helen a llun Lyn ar y dudalen 1af. Da iawn ti Lyn.

Diolch

Dymuna teulu y diweddar Nancy Evans gynt o Fferm Bryn-yr-Eglwys, a hunodd yng nghartref Hafan y Waun ar ddiwedd mis Tachwedd, ddiolch o waelod calon am bob arwydd o gydymdeimlad a estynnwyd iddynt yn eu profedigaeth.

Cydymdeimlad

Ar ddiwedd mis Ionawr, rhyw fis ar ôl dathlu ei phen-blwydd yn 90oed, bu farw Doris Williams, Spring Gardens gynt yng nghartref Maesyfelin, Drefach. Roedd wedi derbyn gofal yno ers rhai blynyddoedd ac fe gynhaliwyd ei hangladd yng Nghapel Seion, Cwrtnewydd. Cydymdeimlir yn ddwys iawn â'r teulu oll yn eu galar o golli modryb annwyl iawn.

Rhifyn Mawrth Yn y Siopau Mawrth 3ydd

Erthyglau, Newyddion
a Lluniau i law erbyn
Chwefror 22ain

Gofynnir am
gyfraniad o

£5

yn unig
er mwyn rhoi neges
o ddiolch ym
Mhapur Bro Clonc
os gwelwch yn dda.

Sesiwn Gwybodaeth
Pension Wise, Dydd
Mercher 9fed Mawrth
11yb-12yp, am ddim

Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol
Ceredigion, 67 Stryd y Bont,
Llandbedr Pont Steffan

**I gadwch lle, ffoniwch 01239
621594, neu ebostiwch**

pensionwise@cabceredigion.org

Mae'r sesiwn hon ar gyfer pobl 50+ oed. Pension Wise yw gwasanaeth cyfarwyddyd y Llywodraeth, ar yr opsiynau ar gyfer cael mynediad cynilion pensiwn

Ieuan Jones
Adferwr Lluniau
Cwrtcadno



Gwasanaeth
troi
Vhs i Dvd

Rhoi bywyd newydd i hen lun

Ffôn: 01558 650153

e-bost: ieuan@glynhebog.co.uk

Y we: cwrtphoto restoring.com



Osian Potter
Toio a Gwaith Saer

Adeiladau Newydd · Ail-doi
Ffasgiau, Soffitau a Chafnau
Gwaith Simnai · Gwaith Plwm
Saer Coed

07816 869 047 · 01570 471 749
osianp@btinternet.com

Cymwys, 14 Blynydd o Brofiad, Geirda ar Gael

ANDREW JAMES

PLYMWR PROFIADOL



Gwasanaethu boeler olew
Gwres canolog
Ystafelloedd ymolchi a cheginau
Ffôn: 07811052757
Ebost: dandrewj@icloud.com

Gwersi TELYN a
Gwersi PIANO preifat



Am wybodaeth bellach
cysylltwch â
Georgina Cornock-Evans
07967 648336

Gwasanaethu, Cynnal a Chadw
- Boileri a Ffyrnau Olew
- Pymplau Gwres o Ffynonhellau'r
ddae'r awyr
- Paneli Thermal Solar
- Silindrau heb awyrellau



01559 370997 / 07966 592183
aled.evans1@btinternet.com

Llanwnnen

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Gareth ac Avril Jones, Blaenwaun-ganol (fel bridwyr) ac i Dai ac Ann Thomas, Dolcoed (fel perchnogion a dangoswyr) ar eu llwyddiant yn y Ffair Aeaf yn Llanellwedd wrth ennill y Brif Bencampwriaeth gyda'r anner, 'Miss Wales' - camp aruthrol! Roedd nifer o gystadleuwyr a'r safon yn uchel iawn ymhob dosbarth ac yn sicr, fe roddwyd Llanwnnen ar y map trwy Gymru a thu hwnt! Roedd dod i'r brig yn y Ffair Aeaf yn binact ar flwyddyn lwyddiannus iawn i 'Miss Wales' oedd wedi ennill pencampwriaethau lu yn ystod 2015. Edrychwn ymlaen i glywed am fwy o lwyddiant eto i'r ddau deulu ym myd y gwartheg.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn yn ddwys â Eleri, Glyn, Trystan a Steffan Hammond, Llain-delyn ar golli mam a mamgu annwyl iawn yn ddiweddar.

Cofiw'n hefyd am deuluoedd Pantyderi a Glas y Dorlan ar eu colled pan fu farw mam, mamgu a hen-famgu annwyl sef Mrs Ray Davies.

Derbyniwch ein cydymdeimlad dwysaf.

Ysgol Llanwnnen

Croeso mawr i Nia Davies, Tirion Tomos, Stephanie Hopson ac Eoghan Holland-Thomas sydd wedi cychwyn yn y dosbarth Cyfnod Sylfaen ers mis Ionawr. Maen nhw i gyd wedi ymgartrefu yn dda i fywyd yr ysgol ac yn mwynhau ei hunan yn fawr.

Wedi cyfnod mamolaeth am ychydig y llynedd rydym yn croesawu Mrs Sioned Mills yn ol i'n plith. Mae'r plant wrth eu bodd yn ei chwmmi ac yn mwynhau y gwersi mas draw. Diolchwn yn enfawr i Mrs Ann Marie Benson a fuodd yn dysgu yn y dosbarth Cyfnod Sylfaen yn absenoldeb Mrs Mills ac yn dymuno yn dda iddi wrth i hithau disgwyl genedigaeth ei thrydydd plentyn.

Bu P C Alun, Swyddog Addysg yr Heddlu yn ymweld a'r Ysgol yn ystod mis Chwefror ac fe gafwyd sesiynau diddorol gyda'r plant yn eu dysgu am ddiogelwch cyffuriau yn y cartref a sut i fod yn ffrind da.

Bu cyngerdd a ffair Nadolig yr ysgol, yn llawer o sbri a diolch i bawb a fu'n ein cynorthwyo ac i'r plant am noson arbennig. Bu pob aelod o'r dosbarth hŷn wrthi yn cynllunio a threfnu eu stondin gan fwynhau'r noson o brynu a gwerthu yn fawr iawn. Diolch yn fawr iawn i bawb a wnaeth gefnogi ein Ffair.

Ar ddiwedd y tymor aethpwyd am drip i'r sinema yn Aberystwyth i fwynhau ffilm a phopcorn er mwyn diolch i'r disgyblion am eu holl waith yn ystod y tymor.



Llongyfarchiadau i Emily Roach disgybl blwyddyn 6 am ennill y cystadleuaeth 'Cogurdd' yn yr ysgol. Ei thasg oedd gwneud salad Groegaidd a Siân Jenkins, Tyllwyd a gafodd y dasg o'i beirniadu. Diolch o galon ichi am roi o'ch hamser. Mi fydd Emily yn cynrychioli'r ysgol yn y rownd nesaf yng nghanol mis Chwefror. Diolch o galon iti Emily am wneud sioe mor dda.



Da iawn i dîm pêl-rwyd yr ysgol am ennill cystadleuaeth Pêl Rwyd yr Urdd yn Llambled. Roedd aelodau'r tîm wedi chwarae yn dda iawn. Aelodau'r tîm oedd Lilly, Emily, Beca, Swyn, Nia, Steffan E, Rhys, Gruff a Nat. Pob lwc yn y rownd nesaf yn Llangrannog.

Gwerthir CLONC yn

..... y siopau canlynol:

Aeron Booksellers, Aberaeron
Awen Teifi, Aberteifi
Compton, Llanybydder
Co-op, Llambled
Cyfoes, Rhydaman
Eryl Jones, Llambled
Garej Central, Llanwnnen
Garej Checkpoint, Harford
Garej LFS Llandeilo
Ffab Cymru, Llandysul
Inc, Aberystwyth
J H Williams a'i Feibion, Llambled

Lomax, Llambled
Llyfrgell Genedlaethol, Aberystwyth
Medical Hall, Tregaron
Premier Siop y Gymuned, Llambled
Spar, Llambled
Siop y Bont, Llanybydder
Siop Llanybi
Swyddfa Bost, Llanybydder
Swyddfa Bost, Felinfach
Swyddfa Bost, Llanllwni
Siop Pontsian
Tafarn Cefnhafof, Gorsgoch
Siop y Pentan, Caerfyrddin
W D Lewis a'i Fab, Pumsaint

Gohebiaeth

Taith Hen Geir i Mametz, Ffrainc

Dim ond 8 lle sydd ar ôl ar daith Hen Geir i Mametz, Ffrainc ac mae croeso i ddarllenwyr Clonc ymuno ar y daith.

Trefnir y daith gan Huw Morris o Sgeti, Abertawe. Er ei fod wedi trefnu'r daith o Abertawe i Mametz, Ffrainc i goffâu canmlwyddiant Brwydr Coedwig Mametz, mae am hefyd goffâu ei ffrind a ysgrifennodd lyfr am hanes y frwydr, Robert Phillips. Mae'r frwydr yn un unigryw gan taw milwyr o Gymru oedd yn gyfrifol am y fuddugoliaeth. Lladdwyd ac anafwyd miloedd o filwyr ifanc o Gymru yn y frwdr, y rhan fywyaf ohonynt yn aelodau o Fataliwn y Rhondda a Bataliwn Abertawe.

Bydd y daith yn digwydd rhwng y 5ed a'r 8fed o Orffennaf 2016, gan adael Abertawe o'r "George" yn y Mwmbwls am 10y.b. Amcangyfrifir y bydd tua 25 car yn cymryd rhan.

Bydd y gost, o tua £450 am ddau berson yn cynnwys:

- Y fordaith o Portsmouth i Caen a'r daith o Caen i Portsmouth ar y dyddiadau a nodwyd ar y wefan
- Dwy noson, gwely a brecwast, mewn gwesty 3* yn agos at Mametz
- Trafnidiaeth o'r gwesty i faes y gâd
- Tâl gweinyddol



Gellir darllen am fanylion y daith ar y wefan www.mametzrun.co.uk.

I sicrhau eich lle ar y daith, cysyllter â'r trefnydd Huw Landeg Morris trwy ddanfon e-bost yn datgan eich diddordeb at info@mametzrun.co.uk neu landeg@ntlworld.com. Mae ffurflen gofrestru ar y wefan hefyd www.mametzrun.co.uk.

Drefach a Llanwenog

Y Gymdeithas Hŷn

Daeth 26 o'r aelodau ynghyd i Gapel y Cwm brynhawn dydd Mercher, y 13eg o Ionawr, a chroesawyd hwy gan Dilwen George, y Cadeirydd.

Wedi mynd trwy rannau arweiniol y cyfarfod, cyflwynwyd a chroesawyd y gŵr gwadd, y Parchedig Goronwy Evans. Prin fod angen ei gyflwyno gan mae un o'r Cwm yw Goronwy, ac yntau'n gartefol yn 'dod adre'. Bu tipyn o dynnu coes wrth gofio adeg ei ieuencid ef a llawer o'r aelodau ym Mhlwyf Llanwenog, cyn iddo fynd ymlaen i roi hanes Crwydriaid a fu'n teithio'r ardal yma a thu hwnt. Ffrwyth gwaith ymchwil ar gyfer cyhoeddi llyfr ar y testun yma oedd ganddo, ac edrychwn ymlaen i weld y llyfr yn dod o'r wasg yn ystod y flwyddyn. Cyfle eto i ddarllen hanes rhai fel George Gibbs o Glasgow a dreuliodd llawer i flwyddyn yn Llanbedd wedi teithio'r hewlydd am 30 o flynyddoedd; 'Blong' yng Nghwrtnewydd yn gwerthu cardiau wedi'u haddurno; Alfred Ball yn cario cwydn ar ei gefn; Dafydd Gwallt Hir a'i gert, a theulu Annie Evans, Quarry Villa, Gorsgoch yn dysgu Cymraeg, i enwi ond ychydig.

Diolchwyd yn gynnes i Goronwy am yr hanesion arbennig gan Irene Jones, a chofiai fel y byddai ei mam bob amser yn rhoi rhywbeth i'r Crwydriaid a fyddai'n galw heibio.

Mwynhawyd lluniaeth blasus wedi ei baratoi gan wragedd Capel y Cwm, a diolchwyd iddynt hwythau gan Dilwen George. Cafwyd cyfle i gael clonc a hel atgofion dros baned o de a phawb mewn hwyliu da.

Bydd y cyfarfod nesaf ar y 10fed o Chwefror am 1.30y.p. yn Seion, Cwrtnewydd, pan fydd Insbector Ken Lewis yn dod i siarad â ni.

Eglwys Santes Gwenog

Yn ystod cyfnod y Nadolig, cafwyd perfformiad gwyg o ddrama'r 'Dyn Blin' (Scrooge), gan blant ysgol Llanwenog. Diolch i Mr Roderick a'r athrawon am eu llafur caled a'r holl baratoadau llwyfan i sicrhau noson o fwynhad pur i'r gynulleidfa niferus. Roedd y plant, o'r lleiaf i'r hynaf, ar eu gorau yn cyflwyno'r stori. Noson fendigedig!

Cynhaliwyd gwasanaeth Naw Llith a Charol ar y 13eg o Ragfyr o dan arweiniad y Ficer Suzy Bale. Darllenwyd y llithiau gan aelodau'r eglwys, a Mrs Pauline Roberts-Jones oedd yr Organyddes. Mwynhawyd lluniaeth tymhorol wedi ei baratoi gan y gwagedd.

Noswyl Nadolig, cynhaliwyd

gwasanaeth y Cymun Bendigaid i gofio am enedigaeth y Baban Iesu. Bu parti o addolwyr o Lanllwni, Llanwenog a Llanwnnen yn cymryd rhan yng Nghanu'r Plygain yn Llangetho ar y 3ydd o Ionawr.

Yn ystod chwech wythnos y Grawys, bydd y Ficer yn cynnal cyfarfodydd i ddarganfod a meithrin ein ffydd a'n gobeithion. Cynhelir gwasanaeth plwyfol yn eglwys Llanwnnen ddydd Mercher y Llundw, y 10fed o Chwefror am 7y.h. Croeso cynnes i bawb.

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Rhian Wyn Thomas a Leighton Daniel a briodwyd yn yr eglwys ar yr 28ain o Ragfyr. Pob hapusrwydd i chi yn eich cartref yn Llechwedd.

Diolch i aelodau Cymdeithas yr Allor am eich gosodiadau Nadoligaidd a thymhorol, ac am yr addurniadau priodasol.

Cofiwn am bawb sy'n anhwylyd, gan ddymuno adferiad iechyd iddynt, a chydymdeimlwn â phawb sydd wedi colli anwyliad yn ddiweddar.

Clwb 100 mis Rhagfyr: 1. Caroline Davies; 2. Mary Thomas; 3. Mair Davies; Bonws: Osian Davies a Margaret Thomas.

Cydymdeimlo

Gyda thristwch y clywyd fod Eifion Davies, Afallon, wedi colli yr olaf o'i frodyr a'i chwiorydd ym marwolaeth Mrs Annie Gregory, yn Swydd Derby. Roedd hefyd yn chwaer i'r diweddar Islwyn Davies, Castle Green, a'r diweddar Evan Tom Davies, Llety gynt. Ein cydymdeimlad dwysaf â'r teulu.

Priodas Dda

Ar ddydd Llun, yr 28ain o Ragfyr yn Eglwys Santes Gwenog Llanwenog priodwyd Rhian Wyn Thomas, Llechwedd a Leighton Daniel. Dymuniadau gorau i chi eich dau i'r dyfodol.

Llongyfarchiadau

Ar ddydd Nadolig dyweddiodd Rhys Jones, Cefnrhuddlan-Uchaf â Elin. Hefyd ganwyd mab iddynt, Charlie ar ddiwedd mis Ionawr, ŵyr bach newydd i Gareth a Janet, Cefnrhuddlan Uchaf a gor-ŵyr cyntaf i Mrs Viria Jones, Gelli-deg.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlir â Mary, Gareth a'r teulu, Maesglas ar golli ewythr cyn y Nadolig ac hefyd modryb yn union mis ar ôl hynny.

Hefyd, cofiwn am Helen, Peter a Steffan ar golli mam-gu a hen-fangu ar ddiwedd y flwyddyn.

Derbyniwch ein cydymdeimlad dwysaf.



Cynhaliwyd cystadleuaeth Siarad Cyhoeddus Saesneg CFfl Ceredigion ar Gampws Felin-fach yn ddiweddar. Llanwenog oedd y tîm buddugol o dan 21 oed. O'r chwith: Sioned Davies, a enillodd cwpan y Cadeirydd gorau; Carwyn Davies; Meinir Davies; a Lauren Jones a ddaeth yn drydydd fel Siaradwr.

CFfl Llanwenog

Fe wnaeth aelodau'r clwb fwynhau noson o gystadlaethau a chymdeithasu yn noson Chwaraeon Dan Do'r sir yn Llanddewi Brefi. Dyma ganlyniadau'r noson: Dartiau Unigol Bechgyn - Daniel Morgans, 1af; Pŵl - Owain Jones, 1af; Tipit - 1af; Dominos - Carwyn Davies, 2il; Fe ddaeth y clwb i'r brig ar ddiwedd y noson.

Cystadleuaeth y Siarad Cyhoeddus Saesneg oedd nesaf ar y calendr. Braf oedd gweld aelodau o bob oedran yn llwyddo. Dan 14: Cadeirydd-Elin Davies, 3ydd; Darllenydd-Hanna Davies, 2il; Llanwenog A-1af. Dan 16: Siaradwyr-Iwan Evans, 2il; Rhys Davies, 3ydd; Cadeirydd-Ffion Evans, 1af; Llanwenog B-1af. Dan 21: Siaradwr-Lauren Jones, 3ydd; Cadeirydd-Sioned Davies, 1af; Llanwenog-1af. Dan 26: Siaradwr-Luned Mair, 2il; Cadeirydd-Elin Jones, 3ydd; Llanwenog-1af. Ar ddiwedd y dydd fe ddaeth Llanwenog yn gyntaf.

Amser oedd hi nawr i ymlacio a dathlu'r Nadolig. Fe fu'r clwb yn canu carolau o amgylch yr ardal gan godi dros £1600, gyda hanner yr arian yn mynd at Ymchwil Cancr Cymru. Diolch am bob cefnogaeth. Daeth aelodau a ffrindiau'r clwb ynghyd i gael cystadleuaeth o ddartiau yng Nghefn Hafod er mwyn ceisio ennill twrci ar gyfer dydd Nadolig a codwyd £196.

Ar ôl i bawb ymlacio dros yr ŵyl, roedd hi'n amser i droi'n ôl at y Siarad Cyhoeddus, ond yn y Gymraeg y tro hyn. Cafodd aelodau o'r clwb lwyddiant unwaith eto. Dan 14: Cadeirydd-Hanna Davies, 2il; Llanwenog A-2il. Dan 16: Siaradwr-Iwan Evans, 2il; Cadeirydd-Ffion Evans, 1af. Llanwenog B-2il. Dan 21: Cadeirydd-Rhys Davies, 2il; Sioned Davies, 3ydd. Dan 26: Siaradwr-Enfys Hatcher, 1af; Ymatebydd-Luned Mair, 2il; Elin Jones, 3ydd; Cadeirydd-Lowri Davies, 3ydd; Llanwenog A-1af; Llanwenog B-3ydd. Fe ddaeth Llanwenog i'r brig ar ddiwedd y cystadlu.

Os oes gennych ddiddordeb ymuno â'r clwb neu am ragor o wybodaeth ewch i'r wefan: www.cffillanwenog.org.uk.



Enillodd Ffion Evans, Llanwenog gwpan ar gyfer y Cadeirydd gorau dan 16 oed yn Siarad Cyhoeddus Saesneg a Chymraeg C.Ff.I. Ceredigion yn ddiweddar.

Drefach a Llanwenog



Cylch Meithrin Gwenog

Staff a disgyblion sesiwn y bore Cylch Meithrin Gwenog yn dilyn adroddiad gan Estyn a gyhoeddwyd yn ddiweddar. Barnwyd fod perfformiad presennol y cylch a'r rhagolygon gwella yn dda. Nodwyd 'Mae ethos teuluol yn treiddio drwy'r lleoliad' a gwelwyd 'ystod o brofiadau diddorol ar draws y meysydd dysgu a chyfleoedd cynhyrchiol ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd y plant'. Mae Cylch Meithrin Gwenog yn cwrdd yn ddyddiol ar safle Ysgol Llanwenog o 8.45y.b.-11.15y.b. i blant 3-4 oed ac o 1y.p.-3y.p. i blant 2-3 oed. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch ar 01570 480 382, cylchmeithringwenog@googlemail.com neu drwy'n tudalen Facebook.

Ysgol Llanwenog

Bu plant Blwyddyn 3 a 4 yr ysgol, ynghyd â disgyblion Llanwnnen a Chwrtnewydd, ar ymweliad preswyl i wersyll yr Urdd Llangrannog. Cafodd pawb amser bendigedig ac roedd y profiad cyntaf o gysgu o adref yn un gwerthfawr iawn i lawer. Buont yn mwynhau gweithgareddau megis dringo, marchogaeth, gwibgartio, gwylltgrefft, a'r wal ddringo i enwi ond ychydig. Dangosodd y plant frwdfrydedd mawr wrth ymgeisio a datblygu sgiliau newydd yn awel ffres y mor. Diolch yn fawr i Miss Carol Davies a Mrs Enfys Morgan am roi o'i hamser i ofalu am y plant yn ystod yr ymweliad.

Cynhaliwyd cystadleuaeth Cogurdd yn yr ysgol, sef cystadleuaeth coginio i ddisgyblion blynyddoedd 4, 5 a 6. Hyfryd oedd gweld 11 o blant wedi paratoi ar gyfer creu y resait osodedig sef Salad Groegaidd. Roedd cynifer o blant yn torri winwns mewn caban cyfyng yn brofiad â ddaeth â sawl deigr yn i'r llygaid!



Wedi'r coginio brwd, Sam Lewis ddaeth i'r brig, gyda Sion O'Keeffe yn ail a Hannah Ayonadu yn drydydd. Bydd Sam nawr yn mynd ymlaen i rownd nesaf y gystadleuaeth maes o law. Pob lwc iddo. Diolch yn fawr iawn i

Denise Rickards am feirniadu'r gystadleuaeth.

Daeth Jac, sef hyfforddwr rygbi y clwstwr, i'r ysgol i gynnal sesiynnau rygbi gyda plant Cyfnod Allweddol 2. Gwnaeth y plant fwynhau yn fawr iawn.

Hoffem groesawu disgyblion newydd i'r ysgol ac i ddosbarth y cyfnod sylfaen sef Anna Evans, Dion Evans, Angharad Davies a Llewelyn Gregson. Maent wedi ymgartrefu yn arbennig yn y dosbarth yn barod. Da iawn chi!

Thema ein gwaith y tymor yma yw Straeon Tylwyth Teg. Mae'r plant eisioes wedi bod yn creu Llyfnod yn ein gwersi cynllun tair ysgol. Fel gwaith dosbarth, maent wedi creu adeilad 3D allan o un o straeon maent wedi gwrandao arno. Maent wedi gweithio fel grŵp i gynllunio, casglu adnoddau megis bocsys ail gylchu a phaentio'r adeilad.

Mae'r plant wedi bod yn cael gweithgareddau cyffrous yn barod yng nghlwb yr Urdd. Helfa Drysor oedd yr her gyntaf wrth iddynt chwilio am gliwiau o gwmpas yr ysgol a dod o hyd i drysor o fewn yr ysgol. Creu cardiau Santes Dwynwen oedd yr wythnos ganlynol, lle bu'r plant hynaf yn cynorthwyo y rhai lleiaf wrth ddylunio a chreu cardiau deiniadol i ddathlu Santes y Cariadon.

Dechrau Adeiladu Ysgol Ardal yn Nrefach

Dechreuodd gwaith y mis ym mis Ionawr i adeiladu Ysgol Gynradd Wirfoddol Dyffryn Cledlyn – yr ysgol ardal newydd yn Nrefach.

Datblygwyd y prosiect dros y tair blynedd diwethaf i adeiladu'r ysgol newydd ar safle yn Nrefach wrth ymyl priffordd yr A475 rhwng Llambled a Llandysul.

Bydd ysgolion Llanwnnen, Llanwenog a Chwrtnewydd, sydd ar hyn o bryd o dan reolaeth yr un pennaeth, yn cau yn Haf 2017 a bydd yr ysgol newydd yn dod yn eu lle.

Cyngor Sir Ceredigion sydd wedi ariannu'r ysgol bwrpasol newydd yn yr ardal hon. Tim Penseiri'r Cyngor sydd wedi dylunio'r ysgol a rheoli'r prosiect ar y cyd ag ymgynghorwyr mewnol, ac Andrew Scott Cyf. a fydd yn gwneud y gwaith adeiladu.

Bydd yr ysgol yn gorchuddio tua 1300 metr sgwâr, i gyd ar yr un llawr, gydag iard a chaeau chwarae y tu allan.

Dyluniwyd yr ysgol fel ei bod yn cyflawni safon BREEAM 'da iawn' o ran cynnaladwyedd a pherfformiad amgylcheddol, a defnyddiwyd y dechnoleg ddiweddaraf i greu system awyru naturiol a system chwistrellu effeithlon. Mae'r ysgol newydd hefyd â system ddraenio gynaliadwy a chyfarpar i gasglu dŵr glaw.

Meddai'r Cynghorydd Hag Harris, Aelod Cabinet Cyngor Sir Ceredigion dros Wasanaethau Dysgu a'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc: "Y nod gyda'r ysgol hon yw creu cyfleusterau addysg sy'n ateb y diben ac sy'n addas i'r unfed ganrif ar hugain, a sicrhau y bydd pawb yn y cymunedau yng nghyffiniau Drefach yn medru elwa ar yr adnodd yma."

Dywed hefyd: "Ein bwriad pennaf wrth adeiladu'r ysgol oedd darparu cyfleusterau y byddai'r gymuned ehangach yn medru eu defnyddio. Bydd y gymuned gyfan yn cael defnyddio'r neuadd fawr a'r mannau amlbwrpas."

Mae lle i 135 o ddisgyblion yn yr ysgol, gydag ystafelloedd dosbarth ar gyfer plant meithrin a phlant hŷn, ystafell ddosbarth ac ardal adnoddau arbenigol, mannau amlbwrpas ac ardal gymunedol, neuadd fawr 200 metr sgwâr a chegin.

Y tu allan mae cae chwaraeon, iard sy'n addas i bob tywydd, meysydd chwarae diogel i blant meithrin ac ardal amgylcheddol.

Bydd y disgyblion cyntaf yn dod trwy ddrysau'r ysgol newydd ym mis Medi 2017.



Llun - Ysgol Gynradd Wirfoddol Dyffryn Cledlyn (golygfa o'r lle chwarae) – Prif Bensaer, Cyngor Sir Ceredigion

Pen-blwydd arbennig

Yn ystod y mis dathlodd Gareth Jones, Cefnruddlan-Uchaf ben-blwydd arbennig yn 50 oed.

Swydd Newydd

Llongyfarchiadau i Dafydd Rhys Thomas, Llechwedd ar gael ei ddewis yn Reolwr Addysg Byd Eang i gwmni GHD [Good Hair Day]. Bydd Rhys yn gweithio ar hybu brandiau newydd a digwyddiadau drwy'r flwyddyn, ac fe fydd yn teithio bedwar ban y byd yn gwneud hyn. Hyfryd oedd ei glywed yn siarad ar Raglen Dylan Jones ar ddiwedd mis Ionawr. Ymhyfrydwn yn dy lwyddiant, ac yn falch dy fod bob amser yn cofio dy fod yn dod o blwyf Llanwenog, gyda phob dymuniad ar dy holl deithiau yn ystod 2016.





Pancws, Crempog, Creps, Pancos neu Ffroes?

Braf yw bod nôl yn y gegin, gan edrych ymlaen i flwyddyn blasus yma yng nghegin Clonc. Byddaf yn dod a blas y tymhorau i chi, dathlu achlysuron arbennig trwy fwydlenni, ac yn rhannu ambell i 'dip' ar hyd y daith! Ac yn wir, achlysur pwysig fydd yma ymhen dim ar ddechrau mis Chwefror, y 9fed o Chwefror, sef Dydd Mawrth Ynyd.

Mae'n draddodiad gen i, fel nifer eraill rwy'n siwr, i baratoi pancws, neu grempog. Mae'n ddiddorol fel mae'r enw'n amrywio o le i le trwy Gymru - hyn y gwneud ein tafodiaith yn ddiddorol. Dyma ddechrau'r Grawys gyda Dydd Mawrth Ynyd.

Felly ewch ati i baratoi Pancws eleni, a chofiwch daflu ambell un i'r awyr am hwyl gyda'r teulu!

Hwyl fawr,
Gareth

Creps melys

- 125 gm blawd plaen
- 2 llwy fwrdd siwgrwr mân
- 1 ŵy
- ¼ peint o laeth
- 25 gm menyn wedi'i doddi



Dull

1. Gosodwch y blawd a'r siwgrwr mewn powlen; gwnewch dwll yn y canol, ac ychwanegwch yr ŵy. Dewch a'r cytew at ei gilydd drwy ychwanegu'r laeth a'r menyn. Gadewch i orffwys.
2. Irwch padell ffrio. Arllwyswch ychydig o gytew iddo a'i ledaenu. Coginiwch bob ochr nes yn euraidd.

Pancws wedi pobi - Pancws Melba (digon i 4 pancosen)

1. Cymysgwch ychydig o jam Mafon i un pot o crème fraîche, a'i ddefnyddio i lenwi ½ crempogen.
2. Gosodwch stribedi o eirin gwlanog drosto. Gwnewch hyn 4 gwaith.
3. Plygwch, a gratiwch siocled drostynt.
4. Pobwch am 10 munud ar wres 180°C.

Pancws swffle lemwn

- 8 crempogen fawr
- 25 gm menyn
- 25 gm blawd plaen
- ½ peint o laeth
- 25 gm o siwgrwr mân
- Croen a sudd 1 lemwn
- 2 ŵy wedi'u gwahanu
- 25 gm siwgrwr eisin



Dull

1. Toddwch y menyn mewn sosban, ac ychwanegwch y blawd, yna'r laeth, siwgrwr a'r lemwn. Berwch i'w dewhau. Oerwch ychydig, yna plygwch y melynwy i mewn iddo.
2. Curwch gwyn yr ŵy, a'i blygu i'r gymysgedd. Llenwch a phlygwch y crempog.
3. Gosodwch ar dun wedi'i iro. Sgeintiwch â siwgrwr eisin; pobwch am 10 - 15 munud ar 200°C / Nwy 6.

Mawrth y 1af: Gwledd Gŵyl Dewi yng Nghegin Gareth

Diwrnod Cawl cennin a Chlone

Patrwm y dydd:

Cyrraedd am 10.30 am goffi a danteithion

11 - 1: Arddangosfa coginio gan ddefnyddio cynnyrch Cymreig

1y.p. ymlaen: Cinio Cymreig 3 chwr

Pris £15. Lleoliad 'Goedwig', Heol Llanwnnen, Llanbed

I archebu tocyn ffoniwch 01570 422313



Cegin Gareth
Goedwig
Llanbedr P.S.
SA48 7JP
01570 422 313

Blodau
Cacennau
Dathliadau
Partion

Ar Wellhad

Erbyn hyn, mae Nesta ac Elgan Jones, Coedmore Hall yn gwella yn dilyn eu llawdriniaethiau diweddar y cafodd y ddau.

Pen-blwyddi arbennig

Ym mis Ionawr, dathlodd Osian Morgan, Yr Hen Rheithordy ei ben-blwydd yn 18 oed ac hefyd Rob Thomas, Llain-deg ac Elgan Jones, Coedmore Hall ben-blwyddi arbennig.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â Rob, Llŷr, Rhodri a'r teulu, Llain-deg ar golli mam yng nghyfraith, mamgu a hen-famgu annwyl iawn.

Cartref Newydd

Mae Gareth a Lilian, gynt o Maesyderi, Cellan, a'r teulu wedi symud yn ol i'r pentref. Maent wedi ymgartrefi yn Hafod Gwylim. Blynnyddoedd o iechyd a hapusrwydd i chi yn eich cartref newydd.

Canu Carolau

Dymuna Llinos ac Elonwy Thomas (Awelon, Llanfair) a Maddy Thorogood (Royal Oak, Cellan) ddiolch i drigolion y pentref am wrando arnynt yn canu carolau cyn y Nadolig. Casglwyd £121.90 tuag at Gronfa Argyfwng Plant 'UNICEF'

i rhoi cymorth i blant o amgylch y byd sydd wedi cael ei effeithio efo trychinebau. Mwynhaodd y dair y noson ac yr oeddynt yn falch o gael gwneud rhywbeth i helpu plant llai ffodus.

Neuadd y Mileniwm – SOS

Mae pwyllgor y neuadd yn galw am wirfoddolwyr i roi cymorth iddynt i redeg y Neuadd ac ar noson ffilm. Mae ganddynt y archebion a'r cyllid i gynnal y neuadd ond maent yn galw allan am bobl ychwanegol i rannu'r gwaith tu cefn. Mae'r pwyllgor presennol lawr i dri aelod "llawn", ac maent yn ymdrechu i wneud popeth. Nid oes eisiau i chi fod yn aelod llawn, serch hynny, maent yn edrych am drysorydd ac ysgrifennydd cofnodion ar frys.

Maent yn chwilio rhywun sydd ag egni, amser a syniadau newydd i 2016. Mae cyfarfodydd y pwyllgor yn cael eu cynnal am 7y.h. ar nos Iau cyntaf bob mis yn y Neuadd. Os hoffech rhoi cymorth i'r pwyllgor, rhowch alwad i Gary ar 493 117, Chris ar 422 066 neu Amanda ar 421 338. Neu gwell fyth dewch i'r cyfarfod cyffredinol blynnyddol am 7:30y.h. ar y 4ydd o Chwefror er mwyn gweld beth maent wedi ei gyflawni yn 2015, dweud wrthynt beth hoffech chi ei weld yn y neuadd yn 2016, ag efallai rhoi cymorth iddynt ei wneud!



Canu Calennig

Plant Ffosyffin, Cellan yn Canu Calennig o amgylch Llanbed ar fore Calan.

Cafwyd tipyn o hwyl a morio canu er gwaetha'r glaw. Diolch i bawb am eu calennig. Yr alwad olaf oedd yng Nghartref Hafan Deg lle cafwyd croeso cynnes a phocedi o losin!



Carwyn Lewis, Llanwenog gyda'i Heffer Ddu Gymraeg a enillodd Pencampwriaeth Adran y Da Duon Cymreig yn y Sioe Aeaf. Yn y llun mae Caryl Griffiths, Cynrychiolydd UCF, Eirian Lewis, Ian Lewis, Heather Holgate UCF a Carwyn Lewis.



Enw: Sophie Mai Jones

Oed: 19

Pentref: Gorsgoch

Gwaith: Gweithiwr Cymorth Gofal
Iechyd ar Ward Mamolaeth

Partner: Tim

Teulu: Dad, Mam, fy efaill Lauren

Unrhyw hoff atgof plentyndod.

Marchogaeth ceffylau yn nhŷ
Mamgu a Tadcu

Hoff raglen deledu pan oeddet yn blentyn.

“Come Outside” gyda’r ci enwog
Pippin

Yr eiliad o’r embaras mwyaf.

Cwmpo lawr “manhole” oedd ar
agor tu flaen ffrindiau a thimoedd
rygbi’r ysgol

Y peth pwysicaf a ddysgest yn blentyn.

I fod yn ddiolchgar am bopeth

Taset ti’n gallu mynd nôl mewn amser, beth fyddet ti’n dweud wrth dy hun yn 16 oed?

Gweithio’n galetach yn yr ysgol

Y CD cyntaf a brynest di erioed?

S Club Juniors

Pan oeddet yn blentyn, beth oeddet eisiau bod ar ôl tyfu?

Trin gwallt

Beth oedd y peth ofnadwy wnest ti i gael row gan rywun?

Torri gwallt fy chwaer tra bod
Mam yn gwaith a Dad yn cysgu
pan oeddwn i’n fach.

Pryd a ble wyt ti mwyaf hapus?

Yng nghwmni teulu, ffrindiau a fy
sboner.

Beth yw dy lysenw?

Soph neu Sophie Twin

Beth yw’r peth gorau am dy swydd bresennol?

Helpu gofalu ar ôl menywod a’i
babanod newydd-anedig

Y peth gorau am yr ardal hon?

Tawelwch a phrydferthwch yr ardal

Y peth gwaethaf am yr ardal hon?

Signal ffôn

Pa mor wyrdd wyt ti?

Ailgylchu bob wythnos (gyda help

Mam!)

Pa iaith wyt ti’n defnyddio gyntaf?

‘Sdim dal, dibynnu pwy fi’n siarad
gyda.



Pa fath o berson sy’n mynd o dan dy groen?

Pobl hunanol

Sut fyddet ti’n gwario £10,000 mewn awr?

Trefnu gwyliau a siopa!

Pryd llefaist ti ddiwethaf?

Pan oedd fy nghi yn dost, a doedd
dim byd allwn wneud i’w helpu

Pryd chwydaist ti ddiwethaf?

Gorfod gofyn i’r taci stopio ar y
ffordd gytre ar ôl nosweth allan
yng Nghaerfyrddin a chwydu yn
ganol yr heol. Hoffwn roi’r bai ar
Sioned Hatcher!

Ble oedd y lle mwyaf annisgwyl i ti ddihuno ynddo yn y bore?

Llawr yr ystafell ymolchi ar ôl
llewygu yng nghanol y nos

Am beth wyt ti’n breuddwydio?

Bwyd

Unrhyw ofergoelion?

Dim i gerdded o dan ysgol

Beth oedd yr eiliad balchaf i ti’n broffesiynol?

Cael yr alwad ffôn fy mod wedi
cael fy swydd presennol.

Ac yn bersonol?

Pasio fy mhrawf gyrru ar ôl
meddwl fy mod wedi methu.

Beth yw dy gyfrinach i gadw’n heini?

Cerdded 8 milltir mewn un shift yn
gwaith!

Beth yw’r cyngor gorau a

roddwyd i ti?

I weithio’n galed a gwneud beth
sy’n ‘neud chi’n hapus

Disgrifia dy hun mewn tri gair.

Caredig, swil, hapus

Beth yw barn pobl eraill amdanat ti?

Bydden i’n gobeitho y byddent yn
meddwl fy mod i’n gyfeillgar

Pa gar wyt ti’n gyrru?

Citreon DS3

Beth yw dy hoff air?

Rhacs Jibiders

Beth yw dy hoff wisg?

Pyjamas

Gyda phwy fyddet ti’n hoffi bod yn sownd ar ynys anghysbell?

Fy efaill Lauren

Beth yw’r cludfwyd o’th ddewis?

Indian

Beth yw dy ddiod arferol?

Dŵr o ddydd i ddydd a Passoa a
lemonade pan fi allan.

Beth yw cynnwys dy oergell di?

Llysiau, salad, ffrwythau, cig,
llaeth a iogwrt

Beth yw dy hoff arogl?

Petrol

Sut wyt ti’n ymlacio?

Aros yn pyjamas trwy’r dydd yn
gwyllo’r teledu

Pa wefan wyt ti’n ymweld â hi fwyaf aml?

Facebook

Sawl ffrind sydd gennyt ti ar facebook?

853

Hoff gân ar dy ipod?

Sigala- Sweet lovin

Sawl tecst y dydd wyt ti hala?

50

Pwy yw’r person enwocaf ar dy ffôn symudol?

Meleri Williams (Newshan /
Cwmni Garnfach)

Pa ffilm welaist ti ddiwethaf?

‘Legend’ gyda’r actor Tom Hardy

Heblaw’r teulu, beth fyddet ti’n achub petai’r tŷ’n llosgi’n ulw?

Fy nghŵn, Kim a Honey

Oes yna rywbeth na elli di ei wneud y byddet ti’n hoffi ei gyflawni’n dda?

Tynnu lluniau

Beth sy’n rhoi egni i ti?

Digon o gws

Beth sy’n rhoi ysbrydoliaeth i ti?

Gweithio ochr yn ochr gyda fy
nghydweithwyr

Beth fyddet yn ei wneud pe na baet yn gwneud y gwaith hwn?

Gweithio gyda plant

Pa beth wyt ti’n ei drysori fwyaf?

Lluniau i gadw atgofion

Pwy oedd y dylanwad mwyaf arnat ti?

Delor James (Athrawes Gymraeg)

Y gwyliau gorau?

Sgio yn Awstria a gwyliau gyda’r
merched yn Zante

Pa dri lle yng Nghymru yr hoffet ymweld â nhw cyn dy fod yn hanner cant?

Y Mwmbwls, Llanberis, Harlech

Pa dri pheth yr hoffet ti wneud cyn dy fod yn ddeugain?

Prynu tŷ, bach o deithio a priodi
(gobeitho)

Beth yw’r peth diwethaf wyt ti’n ‘neud cyn mynd i’r gwely?

Golchi dannedd

Ble fyddi di mewn deng mlynedd?

Hoffaf gredu y byddaf yn gweithio
fel Bydwraig

Testun Cyfrinachau’r rhifyn nesaf:

Carwyn Davies
Penffordd

Newyddion lleol



Aelodau Capel Bethel Parcyrhos yn cyflwyno sic o £500 i Mr Clive Bott a Mrs Dolores Jones Swyddogion gyda Cangen Caerfyrddin o Parkinson's UK. Diolch i bawb am roddi yn hael ar Sul y Dathlu 175 mlynedd o fodolaeth yr achos yng nghyffiniau Parcyrhos a phlwyf Pencarreg a thystio dros yr Arglwydd Iesu.



Croeso cynnes i Mrs Jane Wyn sydd wedi cychwyn ers dechrau'r tymor yn Bennaeth ar Ysgol Bro Pedr, Llanbedr Pont Steffan 3-19 oed.

Bu Mrs Wyn yn aelod o Staff Ysgol Gyfun Llambod cyn iddi fynd i Ysgol Uwchradd Tregaron ac yn ddiweddarach Henry Richard.

Gobeithio y byddwch yn hapus yn ein plith.

Priodas dda



Rhian Wyn Thomas a Leighton Daniel, Llechwedd a briodwyd yn Eglwys Santes Gwenog ar ddydd Llun, Rhagfyr 28ain 2015. Cafwyd y wledd yng Ngwesty Parc y Strade, Llanelli.

Dymuniadau gorau i chi eich dau i'r dyfodol.

Priodas Pum Mil

Ydych chi eisiau priodi yn 2016?

Mae gan S4C gyfres gynhyrfus newydd i chi ...

Oes gyda chi ffrindiau a theulu all helpu gyda'r trefnu?

Gewch chi bot o arian i'ch helpu!



Os oes diddordeb - cysylltwch!

beca.evans@boomcymru.co.uk | 02922 450000

